# Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022/23 (Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023)

17 Gorffennaf 2023

HC 1460

CMA/2023/02

# Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022/2023

### Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023

Cyflwynwyd i Senedd y DU, Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn unol â pharagraff 14(3)(a) o Atodlen 4 i Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 (fel y'i diwygiwyd gan adran 40(4) o Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020)

Cyflwynwyd y Cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 6(4) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Cyflwynwyd y Cyfrifon i Dŷ'r Arglwyddi drwy Orchymyn Ei Fawrhydi

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 17 Gorffennaf 2023.

© Hawlfraint y Goron 2023

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i Strategy, Competition and Markets Authority, 25 Cabot Square, London, E14 4QZ neu drwy e-bost i general.enquiries@cma.gov.uk

ISBN 978-1-5286-4267-5

E02932353 07/23

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys 40% o ddeunydd ffeibr wedi'i ailgylchu

# Cynnwys

1. Rhagair y Cadeirydd ........ 5
2. Amdanom ni ........ 7
3. Adolygiad y Prif Weithredwr ........ 8
4. Adegau allweddol y flwyddyn hon ........ 30
5. Crynodeb o berfformiad ........ 34
6. Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ........ 36
7. Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff ........ 63
8. Adroddiad ar Atebolrwydd Senddol ac Archwilio ........ 79
9. Datganiadau Ariannol y CMA ........ 92
10. Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA ........ 123

# Rhagair y Cadeirydd

Rydym yn cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol hwn ar adeg pan mae pobl a busnesau yn wynebu pwysau lluosog ar yr un pryd, o gostau byw cynyddol a chost cyflawni busnes, i'r newid yn yr hinsawdd, i chwyldro technoleg parhaus sy'n tarfu ar farchnadoedd presennol ac yn greu rhai newydd.

Ar draws y grymoedd hyn, mae pob un ohonom yn chwilio am ffyrdd o gyflawni twf cryfach a chynaliadwy. Mae cystadleuaeth gref yn amod hanfodol ar gyfer twf gwirioneddol gynaliadwy. Mae marchnadoedd agored, cystadleuol yn ysgogi cwmnïau i arloesi a dod yn fwy cynhyrchiol wrth iddynt gystadlu i ennill a chadw cwsmeriaid. Ynghyd â hyn, mae diogelwch effeithiol rhag arferion camarweiniol neu wrth-gystadleuol yn hanfodol er mwyn grymuso pobl i wneud y dewisiadau sy'n gywir iddyn nhw a sicrhau y gall unrhyw fusnes sy'n gweithredu'n deg gystadlu heb fod dan anfantais yn erbyn y rheini sy'n torri'r rheolau.

Mae cynnal ac atgyfnerthu'r ddau ddimensiwn hyn - cystadleuaeth gref a gwaith effeithiol i ddiogelu buddiannau pobl a busnesau - wrth wraidd gwaith y CMA. Mae hyn yn amlwg yn ein diben: rydym yma i helpu pobl, busnesau ac economi'r DU drwy hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg. Drwy'r safbwynt hwn rydym wedi sefydlu ein strategaeth newydd ar gyfer y tair blynedd nesaf, gan ganolbwyntio popeth a wnawn ar y canlyniadau cadarnhaol rydym am eu cyflawni i'r rheini rydym yn bodoli i'w gwasanaethu: pobl, busnesau ac economi'r DU. Mae hyn yn golygu sicrhau y gall pobl fod yn hyderus eu bod yn cael dewisiadau gwych a chynigion teg; y gall busnesau cystadleuol sy'n gweithredu'n deg arloesi a thyfu heb gael eu dal yn ôl gan ddyletswyddau trechol neu weithredoedd gwrth-gystadleuol; a bod yr economi yn mwyhau canlyniadau'r ddau beth hyn drwy dyfu mewn modd cynhyrchiol a chynaliadwy. Mae'r canlyniadau targed hynny yn rhan flaenllaw o'n strategaeth newydd a'n Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023/24, a gyhoeddwyd gennym yn gynharach y flwyddyn hon yn dilyn ymarfer ymgynghori eang.

Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, rydym wedi pennu ein blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf ac ar gyfer y 12 mis i ddod. Mae'r rhain yn cynnwys canolbwyntio ymdrech ar y meysydd hynny lle mae pobl yn gwario'r arian mwyaf ac yn treulio'r amser mwyaf wrth iddynt wynebu costau byw cynyddol, yn enwedig cael rhywle i fyw, bwydo ein hunain a'n teuluoedd, prynu'r hyn sydd ei angen arnom ar-lein, a gofalu amdanom ein hunain ac eraill; galluogi mynediad agored i farchnadoedd ar gyfer busnesau sy'n arloesi, yn enwedig mewn marchnadoedd digidol sy'n datblygu'n gyflym a marchnadoedd newydd sy'n ymddangos; a helpu i gyflymu proses o DU o drawsnewid i economi sero net a digidol mewn ffyrdd sy'n annog arloesedd ac yn atgyfnerthu cystadleurwydd y DU yn fyd-eang. Drwyddi draw, byddwn yn herio ein hunain i sicrhau bod ein holl waith yn cyflawni buddiannau diriaethol, amlwg; yn cael ei gyflawni cyn gynted â phosibl, yn gyson â thrylwyrdeb a thegwch gweithdrefnol; ac yn defnyddio'r dulliau mwyaf effeithiol i gyflawni'r canlyniadau mwyaf effeithiol i'r rheini rydym yn eu gwasanaethu.

Yn y cyd-destun hwnnw, mae cyfnod adrodd 2022/23 yn un trawsnewidiol i'r CMA. Mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yma yn edrych yn ôl ac yn bwrw golwg ar y canlyniadau a gyflawnwyd gennym yn bennaf, yn seiliedig ar y themâu o'n Cynllun Blynyddol blaenorol ar gyfer cyfnod 2022/23. Bydd ein strategaeth newydd, a gyhoeddwyd yn gynharach y flwyddyn hon, yn sail i'n hadroddiadau blynyddol yn y dyfodol. Mae eisoes wedi bod yn llywio ein gwaith yn ystod camau olaf cyfnod adrodd 2022/23, yn arbennig y ffordd rydym yn rheoli'r gwaith sydd gennym yn yr arfaeth a'n portffolio o waith, fel y nodir yn adroddiad Sarah isod.

Gyda'r adroddiad hwn yn edrych yn ôl ar gyflawniadau diweddar y CMA, felly, rydym yn edrych ymlaen yn benodol at gyflawni ar ein dyletswydd statudol ar gyfer pobl, busnesau ac economi'r DU mewn blynyddoedd i ddod. Wedi tynnu sylw at y strategaeth honno yn y dyfodol – pwy y byddwn yn eu gwasanaethu, y canlyniadau diriaethol rydym yn anelu at eu cyflawni, a'n blaenoriaethau – hoffwn rannu dau safbwynt strategol pellach.

Yn gyntaf, gan fod y CMA wedi cael rolau ehangach a chryfach gan Senedd y DU, rydym yn cael effaith gadarnhaol fwy; a gyda'r effaith fwy honno, rydym wedi ceisio hyd yn oed mwy o graffu. Rydym yn atebol

i Senedd y DU a thrwy Senedd y DU i bobl a busnesau'r DU. Rydym ni – y bwrdd, y bwrdd gweithredol a'r sefydliad cyfan – yn cymryd y cyfrifoldeb hwnnw'n ddifrifol iawn. Gan fyfyrio ar hyn, rydym wedi annog sesiynau amlach â Senedd y DU drwy bwyllgorau seneddol, wedi cynnal ein prosesau o ymgysylltu'n ddyddiol â'r llywodraeth, gwleidyddion o bob plaid a swyddogion, ac wedi gwella ein sgyrsiau parhaus â'n sesiynau gwaith gyda defnyddwyr a grwpiau defnyddwyr, busnesau a buddsoddwyr, a sefydliadau trydydd sector. Hyn oll gan barhau i fod yn dryloyw iawn ac yn drylwyr o ran bod yn seiliedig ar dystiolaeth yn ein holl waith.

Yn ail, cystadleuaeth rydd ac agored yw un o'r sylfeini craidd sy'n ategu ffyniant ein cymdeithas ddemocrataidd – ond mae angen ei diogelu.

Mae cystadleuaeth yn rym rhyfeddol er daioni. Mae'n dda i bobl sy'n cael dewis dilys o ansawdd uchel ac am brisiau isel. Mae'n dda i fusnesau sy'n rhydd i gystadlu, arloesi, tyfu a mwynhau'r canlyniadau. Ac mae'n dda i'r economi drwy well cynhyrchiant, arloesedd, buddsoddiad, creu swyddi a chynnydd gwirioneddol mewn cyflogau. Mae'n rhagofyniad ar gyfer ffyniant.

Ar yr un pryd, ni ddylid cymryd y consensws eang o gymorth ar gyfer marchnadoedd cystadleuol yn ganiataol ac mae'n bwysig bod y CMA yn parhau i fod yn wyliadwrus pan fydd yn wynebu risg. Os byddwn yn galluogi pŵer sefydledig yn y farchnad i gyfyngu ar gystadleuwyr a herwyr arloesol, bydd pob un ohonom yn dioddef. Mae busnesau sy'n ceisio cystadlu a thyfu yn dioddef. Mae arloeswyr sy'n ceisio cael eu gwaith arloesol i'r farchnad yn dioddef. Mae pobl sy'n chwilio am ddewis dilys a gwelliannau parhaus mewn ansawdd a gwerth yn dioddef. Mae'n hanfodol y caiff hyn ei ddiogelu.

Mae sefyllfa'r CMA fel corff annibynnol, anweinidogol sy'n atebol yn uniongyrchol i Senedd y DU yn un o gonglfeini cyfundrefn gystadleuaeth y DU. Ein nod yw arfer swyddogaethau statudol drwy broses ddiduedd, wrthrychol a thryloyw iawn o asesu'r dystiolaeth. Mae'r disgwyliad a'r realiti y bydd yr un safonau a'r un hawliau gweithdrefnol yn berthnasol i bob busnes, ni waeth beth fo'i faint na'i ddylanwad, yn un o gryfderau allweddol y gyfundrefn gystadleuaeth yn y DU. Mae'r system llysoedd yn galluogi busnesau i herio ein canfyddiadau, hefyd ar sail i broses gadarn a diduedd o graffu ar y dystiolaeth. Mae'r dull hwnnw yn gyffredin i bob cyfundrefn gystadleuaeth lwyddiannus yn rhyngwladol ac mae'n holl bwysig i iechyd yr amgylchedd cystadleuaeth yn y DU. Mae ein dull diduedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn galluogi busnesau i barhau i fod yn hyderus y gallant gystadlu'n rhydd ar y buddiannau.

Ein staff talentog, ymrwymedig a chydweithredol yw sail llwyddiant y CMA, ac rwy'n hynod o ddiolchgar am waith caled ein cydweithwyr ym mhedair gwlad y DU am gyflawni cymaint. Maent yn gweithio'n ddiflino i gyflawni ein blaenoriaethau yn yr hyn sy'n parhau i fod yn gyfnod heriol. Rwy'n hyderus y bydd y camau rydym yn eu cymryd i sicrhau ein bod yn sefydliad cynhwysol a chynrychioliadol lle gall pob aelod o staff ffynnu yn golygu ein bod mewn sefyllfa hyd yn oed yn gryfach i gyflawni canlyniadau gwych i bobl, busnesau ac economi'r DU gyfan.

# Amdanom ni

Mae'r CMA yn adran anweinidogol annibynnol o'r llywodraeth a bu'n gweithredu fel prif awdurdod cystadleuaeth a defnyddwyr y DU ers 2014. Rydym yn cyflogi tua 928 o bobl, a leolir yn bennaf yn ein swyddfeydd yn Llundain a Chaeredin, gyda thimau sy'n tyfu yng Nghaerdydd, Belfast a Manceinion ac yng Nghampws Economaidd y Llywodraeth yn Darlington. Rydym yn gweithio mewn ffordd integredig, gan ddewis yr adnoddau a fydd yn cael yr effaith fwyaf cadarnhaol i bobl, busnesau ac economi'r DU, yn ein barn ni.

## Llywodraethu

Ariennir y CMA gan Drysorlys EF ac mae'n atebol i Senedd y DU drwy ei Gynllun Blynyddol a'i Adroddiad Blynyddol. Caiff Adroddiad Blynyddol y CMA hefyd ei osod gerbron pob un o'r deddfwrfeydd datganoledig. Gweision sifil yw ein staff. Cawn ein rheoli gan Fwrdd, sy'n cynnwys y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol a dau aelod o Banel Cystadleuaeth y CMA. Y Prif Weithredwr, fel Prif Swyddog Cyfrifyddu'r CMA, sy'n gyfrifol am sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei drin yn ddarbodus ac yn effeithlon. Rhaid i rai o swyddogaethau'r CMA gael eu cyflawni gan aelod o Banel y CMA sydd â chyfrifoldebau pendant ac sy'n gweithredu fel gwneuthurwyr penderfyniadau newydd rhwng dau gam achosion sy'n ymwneud â marchnadoedd ac uno er mwyn osgoi tuedd i gytuno. Mae ein strwythur llywodraethu yn ein helpu i gynnal ein henw da am degwch, annibyniaeth, gonestrwydd, gwaith dadansoddi trylwyr, trin gwybodaeth sensitif yn ofalus a defnyddio arian cyhoeddus yn effeithlon.

## Y budd ariannol amcangyfrifedig i ddefnyddwyr

Bob blwyddyn mae'r CMA yn amcangyfrif budd ariannol uniongyrchol ein gwaith i ddefnyddwyr. Rydym yn ystyried bod ein hamcangyfrifon yn rhai ceidwadol am eu bod yn seiliedig ar dybiaethau gofalus.

- Arbedion cyfartalog blynyddol i ddefnyddwyr sy'n cyfateb i o leiaf £2 biliwn yn 2022/23
- Dros y cyfnod o dair blynedd rhwng 2020/21 a 2022/23, amcangyfrifir bod y budd ariannol uniongyrchol i ddefnyddwyr yn £8 biliwn
- Am bob £1 y gwnaethom ei gwario ar ein costau gweithredu, roedd y budd i ddefnyddwyr dros y tair blynedd diwethaf yn £26 ar gyfartaledd

Nid yw'r amcangyfrifon hyn yn cynnwys effaith nifer o achosion lle mae ymyrraeth y CMA yn debygol o sicrhau buddiannau sylweddol i ddefnyddwyr ond roedd yn anodd mesur y buddiannau yn ddigon manwl. Er enghraifft, nid ydym yn cyfrif am waith eirioli, gweithgareddau rhyngwladol nac apeliadau rheoleiddiol y CMA na'i waith ar gydymffurfiaeth.

Mae'r amcangyfrifon hyn ond yn cynnwys buddiannau ariannol uniongyrchol ein gwaith ac, felly, maent yn hepgor llawer o effeithiau ehangach pwysig ar y gyfundrefn gystadleuaeth. Er enghraifft, nid ydynt yn cyfrif am effaith ataliol ein gweithredoedd ac effaith ymyriadau polisi cystadleuaeth ar gynhyrchiant. Nododd ein hadolygiad o lenyddiaeth ynglŷn ag effaith gwaith awdurdodau cystadleuaeth dystiolaeth dda o effaith ataliol sylweddol, gydag arolygon yn amcangyfrif cymarebau ataliaeth rhwng 4.6:1 ac 28:1 ar gyfer cartelau, sy'n awgrymu bod llawer mwy o gartelau yn cael eu hatal ar gyfer pob un sy'n cael ei ddal. Ategir hyn gan werthusiadau achos-benodol o effaith detholiad o benderfyniadau'r CMA mewn ymchwiliadau o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998. Felly, ar y cyfan, dim ond rhan o effaith gadarnhaol gyffredinol gwaith y CMA sy'n cael ei nodi gan ein hamcangyfrifon ar gyfer buddiannau ariannol uniongyrchol.

# Adolygiad y Prif Weithredwr

Dros flwyddyn adrodd 2022/23, cynhyrchodd y CMA ganlyniadau cryf a chyflawnodd ar bob thema a nodwyd yng Nghynllun Blynyddol y flwyddyn honno. Gwnaethom gamu i fyny i gyflawni ein rôl ehangach ar ôl Brexit, a gwnaethom barhau i ymgorffori cyfrifoldebau newydd mewn cyngor ar gymorthdaliadau a marchnad fewnol y DU a pharatoi i gymryd cyfrifoldebau newydd o dan y Ddeddf Marchnadoedd, Cystadleuaeth a Defnyddwyr sy'n mynd drwy Senedd y DU ar hyn o bryd a fydd yn rhoi pwerau newydd i ni reoleiddio marchnadoedd digidol a rhoi hwb i'n pwerau cystadleuaeth a defnyddwyr.

Gan edrych yn ôl dros y flwyddyn adrodd ddiwethaf, rwy'n falch o'r effaith gadarnhaol y mae'r CMA eisoes wedi'i chyflawni ar draws ystod eang o feysydd. Ond nid oes amser i laesu dwylo. Mae'r cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu pobl, busnesau ac economi'r DU yn golygu bod angen i'r CMA gynyddu ei waith hyd yn oed yn fwy i hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg.

Gan gydnabod hynny, yn ystod hydref 2022, dilynodd Marcus a minnau raglen 'Llunio CMA y dyfodol' wrth i ni ymgymryd â'n rolau newydd fel Cadeirydd a Phrif Weithredwr. Roedd hyn yn cynnwys edrych o'r newydd ar ein diben a'i oblygiadau ar gyfer y gwaith a wneir gan y CMA. Gwnaethom fireinio ein ffordd o feddwl ar flaenoriaethau strategol drwy broses eang o ymgysylltu allanol a mewnol, gan arwain at strategaeth newydd sy'n golygu bod ein gwaith bob amser yn seiliedig ar sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl, busnesau ac economi'r DU, er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Gall pobl fod yn hyderus eu bod yn cael dewisiadau gwych a bargeinion teg
- Gall busnesau cystadleuol arloesi a ffynnu
- Gall economi gyfan y DU dyfu'n gynhyrchiol ac yn gynaliadwy

Mae ein strategaeth newydd yn darparu fframwaith tair blynedd sy'n gwella gallu'r CMA i hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol ac ymdrin ag arferion annheg mewn ffyrdd a all helpu i fynd i'r afael â heriau uniongyrchol fel y pwysau costau byw presennol wrth sicrhau ein bod yn nodi cynhyrchion a thechnolegau newydd sy'n ymddangos – fel AI neu'r rheini sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â phryderon yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd. Dros ail hanner blwyddyn adrodd 2022/23, gwnaethom fuddsoddi'n drwm er mwyn sicrhau bod y ffordd rydym yn rheoli'r gwaith sydd gennym yn yr arfaeth a'n portffolio o waith yn cyd-fynd yn llwyr â'r strategaeth ddiwygiedig, a bod y dull hwnnw eisoes wedi dechrau arwain at ganlyniadau cadarnhaol.

Wrth i ni drosglwyddo o'n hen strategaeth i'n strategaeth newydd, mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn mynd i'r afael â'r pum thema a nodir yn Adroddiad Blynyddol 2022/23 yn eu tro, sef: diogelu defnyddwyr rhag ymddygiad annheg gan fusnesau, yn ystod pandemig COVID-19 a thu hwnt; meithrin cystadleuaeth er mwyn hyrwyddo arloesedd, cynhyrchiant a thwf hirdymor ym mhob rhan o'r DU; hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol mewn marchnadoedd digidol; cefnogi'r broses o drawsnewid i dwf carbon isel, gan gynnwys drwy ddatblygu marchnadoedd cystadleuol iach mewn cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy; ac, yn olaf, cyflawni ein cyfrifoldebau newydd ac atgyfnerthu ein sefyllfa fel awdurdod cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr byd-eang.

Ond mae'n amlwg bod y gwaith a wnaed gennym hefyd yn eithriadol o berthnasol i'n strategaeth ddiwygiedig.

Helpodd ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf i gyflawni canlyniadau gwell i **bobl.** Gallai ein hymyriad mewn perthynas â chaffaeliad Veolia o Suez, a olygodd y bu'n rhaid i Veolia werthu tri busnes yn dilyn ein canfyddiad y gallai'r cytundeb arwain at awdurdodau lleol yn talu mwy am brosesau rheoli gwastraff a chael gwasanaeth o ansawdd is, ddangos yr effaith bendant y gall gwaith y CMA ei chael, yn arbennig yn ystod yr argyfwng costau byw presennol, pan mae sefyllfa ariannol llawer o drethdalwyr lleol dan straen eisoes. Gwnaethom roi dirwyon gwerth cyfanswm o £70 miliwn i'r cwmnïau fferyllol Pfizer a Flynn am gamddefnyddio goruchafiaeth mewn perthynas â'n canfyddiad eu bod wedi pennu prisiau rhy uchel am feddyginiaethau a gyflenwyd i'r GIG. Gwnaethom gynnal adolygiad cyflym o bris tanwydd ffordd a

gwnaethom argymhellion ar gyfer camau gweithredu posibl i'r Llywodraeth, yn ogystal â lansio astudiaeth o'r farchnad i archwilio'r pryderon a nodwyd gennym yn fanylach. Ar adeg pan mae costau byw yn parhau i roi pwysau ar gyllidebau cartrefi, gwnaethom ymyrryd ar ran pobl gyda chartrefi prydles sy'n dioddef telerau annheg, yn benodol drwy sicrhau bod cymalau dyblu rhent tir yn cael eu tynnu o gontractau prydles a sicrhau ad-daliadau i filoedd o ddeiliaid cartrefi. Gwnaethom hefyd lansio astudiaeth o'r farchnad ar adeiladu tai a phrosiect ar wahân i ystyried hawliau defnyddwyr ar gyfer y rheini sydd mewn cartrefi ar rent. Nododd ein hastudiaeth o'r farchnad o ofal cymdeithasol i blant feysydd lle ceir camweithredu yn y farchnad hon; dylai ein hargymhellion, a dderbyniwyd gan y Llywodraeth, helpu i greu system well a mwy cefnogol er mwyn gwella ein proses o wasanaethu'r aelodau o gymdeithas sy'n agored i niwed yn benodol. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos rôl gynyddol amlwg y CMA yn llywio prosesau llunio polisïau a thrafodaethau cyhoeddus i gyflawni buddiannau gwirioneddol i bobl.

Gwnaethom hefyd helpu i sicrhau canlyniadau da i **fusnesau.** Gwnaethom chwarae rôl arweiniol ar faterion cymhleth mewn marchnadoedd digidol, gan baratoi i ymgymryd â rhagor o bwerau yn y maes hwn. Rydym yn ymchwilio i b'un a yw Amazon yn camddefnyddio goruchafiaeth ac yn amharu ar gystadleuaeth drwy roi mantais annheg i'w fusnes manwerthu ei hun neu werthwyr sy'n defnyddio ei wasanaethau, o gymharu â gwerthwyr trydydd parti eraill ar Amazon UK Marketplace. Mewn dau achos ar wahân, rydym yn parhau i ymchwilio i bryderon bod y telerau y gall datblygwyr apiau gael mynediad i siopau apiau Apple a Google yn gyfystyr i gamddefnyddio goruchafiaeth. Gwnaethom dderbyn ymrwymiadau gan ESS i fynd i'r afael â'n pryderon y gall fod wedi camddefnyddio goruchafiaeth mewn perthynas â chyflenwi meddalwedd systemau gwybodaeth reoli hanfodol, gan agor mwy o ddewis a chystadleuaeth er budd ysgolion. Gwnaethom hefyd dderbyn ymrwymiadau mewn perthynas â chytundeb rhannu adnoddau rhwng y gweithredwyr fferi P&O a DFDS, yr oeddem yn pryderu y gallai arwain at lai o deithiau hwylio a phrisiau uwch i fusnesau sy'n defnyddio eu gwasanaethau cludo llwythi.

Roedd gwaith y CMA hefyd o fudd i **economi'r DU** gyfan. Tynnodd ein hail adroddiad ar Y Sefyllfa o ran Cystadleuaeth yn economi'r DU feysydd y gellir eu gwella a chyflwynodd yr achos dros rôl cystadleuaeth wrth hyrwyddo arloesedd a chynyddu cynhyrchiant. Bydd ein Huned Microeconomeg, sydd wedi'i lleoli mewn canolfan drawslywodraethol newydd yng Nghampws Economaidd Darlington, yn parhau i gynnig dadansoddiadau a gwybodaeth i gefnogi'r sawl sy'n llunio polisïau. Rydym hefyd wedi bod yn ymgynghori â busnesau ar sut y gall y CMA gefnogi diwydiannau yn y DU i ymgymryd â mentrau cynaliadwyedd amgylcheddol. Ym mis Chwefror 2023, gwnaethom gyhoeddi canllawiau drafft sydd wedi'u cynllunio i helpu cwmnïau i gydweithio tuag at nodau amgylcheddol heb gael eu hatal yn ormodol gan gyfraith gystadleuaeth.

Staff talentog, ymroddedig a chydweithredol y CMA sydd wrth wraidd popeth a gyflawnwyd gennym eisoes ac maent yn rhan hanfodol o'n llwyddiant parhaus. Felly, mae sicrhau y gallwn gynnig gwerth cymhellol i gyflogeion hefyd yn rhan hanfodol o'n rhaglen 'Llunio CMA y Dyfodol'. Yn gyffredinol, ni allwn roi'r un cyflogau a gynigir gan fusnesau'r sector preifat, felly mae darparu profiad o ansawdd uchel i gyflogeion sy'n ystyried ffactorau y tu hwnt i gyflog yn hollbwysig. Mae sicrhau amgylchedd amrywiol, cynhwysol a pharchus yn un o'n prif ddyheadau yn hyn o beth. Rydym yn cydnabod bod mwy y gallwn ei wneud ac mae'n rhaid i ni ei wneud i sicrhau gweithlu cwbl gynrychioliadol gyda chyfle cyfartal i bawb. Rydym am ddenu cyflogeion o amrywiaeth eang o gefndiroedd ac yn cymryd camau pendant i gyflawni'r nod hwnnw. Ac rydym am sicrhau bod ein staff yn llawn cymhelliant yn sgil cyfleoedd unigryw i gael effaith ac i gyflawni canlyniadau da mewn cyd-destun sy'n eu galluogi i ddatblygu ac sy'n ystyried eu nodau personol.

Dros gyfnod adrodd 2022/23, mae'r sefydliad wedi parhau i addasu'n gyflym er mwyn cyflawni'r heriau a manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir gan yr amgylchedd cymhleth sy'n datblygu'n gyflym rydym yn gweithredu ynddo. Rwy'n hyderus bod ein strategaeth ddiwygiedig yn ein rhoi mewn sefyllfa gref i adeiladu ar ein cyflawniadau yn 2022/23 ac i wneud mwy i helpu pobl, busnesau a'r economi yn y DU drwy hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg.

## Diogelu defnyddwyr rhag ymddygiad annheg gan fusnesau, yn ystod pandemig COVID-19 a thu hwnt

Pan wnaethom bennu'r thema hon fel rhan o'n Cynllun Blynyddol ar gyfer 2022/23, nid oedd yn amlwg am ba hyd y byddai pandemig COVID-19 yn para na pha mor barhaus y byddai ei effaith. Ar ddechrau'r cyfnod adrodd, roeddem yn dal i ddelio â materion a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 fel cwynion mewn perthynas â phrofion PCR. Helpodd ein gwaith i ddiogelu pobl yn ystod y cyfnod hwn. Er enghraifft, yn dilyn ymyriad y CMA, cawsom gadarnhad ym mis Mehefin 2022 gan Expert Medicals bod 11,000 o bobl wedi cael eu had-dalu ar ôl cwynion bod profion neu ganlyniadau PR yn cael eu dosbarthu'n hwyr neu ddim o gwbl.

Ers hynny, mae'r pryderon mewn perthynas â'r pandemig wedi cael eu disodli gan faterion eraill fel yr argyfwng costau byw ac effaith y rhyfel yn Wrcáin. Rydym hefyd wedi ailbennu ein strategaeth sefydliadol, fel y cwmpesir yn fanylach mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn. Un o'n blaenoriaethau oedd canolbwyntio ar ble y mae pobl yn gwario'r rhan fwyaf o'u harian ac yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser, yn enwedig i'r bobl sydd angen help fwyaf. Caiff hyn ei adlewyrchu hefyd yn ein portffolio o waith dros flwyddyn adrodd 2022/23.

Chwaraeodd ein gwaith i helpu i ymdopi â phwysau costau byw ran amlwg dros y cyfnod hwn. Ymysg pryder eang ynghylch prisiau tanwydd cynyddol, gwnaethom gynnal adolygiad cyflym, lefel uchel o'r farchnad tanwydd ffordd ar gais yr Ysgrifennydd Busnes, gan roi cyngor i Lywodraeth y DU gydag argymhellion ar gamau i wella canlyniadau i bobl ledled y DU. Yn sgil y pryderon a nodwyd gennym, cawsom ein hannog i gynnal astudiaeth o'r farchnad, yr ydym wedi'i chwblhau bellach, gan nodi pryderon am y graddau y mae cystadleuaeth yn gweithio yn y sector manwerthu tanwydd ffordd. Rydym wedi gwneud argymhellion i'r llywodraeth i gymryd camau i fynd i'r afael â'r pryderon hyn ac edrychwn ymlaen at gynorthwyo'r llywodraeth wrth iddi ystyried ein hargymhellion.

Gyda'r cynnydd mewn prisiau bwyd, gwnaethom sefydlu prosiect yn ystyried materion posibl mewn perthynas â gwybodaeth am brisiau unedau – gwybodaeth am gostau cynhyrchion penodol yn ôl pwysau neu faint. Bydd y gwaith hwn yn helpu i sicrhau y gall siopwyr gymharu prisiau cynhyrchion gwahanol a gwneud y dewisiadau sy'n gywir iddyn nhw. Ers hynny, rydym wedi cynyddu ein gwaith yn y maes hwn, i wneud gwaith cychwynnol er mwyn archwilio a allai cystadleuaeth wan achosi i brisiau nwyddau fod yn uwch na'r hyn sydd angen.

Helpodd ein gwaith ar arferion prisio ar-lein hefyd i fynd i'r afael â'r pwysau ar arferion gwario pobl. Er enghraifft, gwnaethom helpu i fynd i'r afael â phryderon ynghylch adnewyddu tanysgrifiadau'n awtomatig yn y farchnad chwarae gemau fideo ar-lein, gan sicrhau ymgymeriadau gan Sony mewn perthynas â'i gynnyrch PlayStation Plus i roi mesurau ar waith i ddiogelu cwsmeriaid nad ydynt wedi defnyddio eu haelodaeth ers cryn amser ond sy'n dal i dalu. Yn dilyn ein hymyriad, bydd Sony'n mynd ati i gysylltu â'r bobl hyn er mwyn eu hatgoffa sut i atal y taliadau ac, os byddant yn parhau i beidio â defnyddio eu haelodaeth, bydd Sony yn rhoi'r gorau i gymryd rhagor o daliadau. Ymgysylltodd y CMA hefyd â Nintendo, a newidiodd ei arferion busnes yn ystod ein hymchwiliad fel na chaiff Gwasanaeth Ar-lein Nintendo Switch eu gwerthu mwyach gydag adnewyddiad awtomatig wedi'i bennu fel yr opsiwn diofyn.

Gwnaethom lansio rhaglen eang o waith i fynd i'r afael ag arferion gwerthu ar-lein camarweiniol – mae hyn yn cynnwys ymgyrch ymwybyddiaeth defnyddwyr, canllawiau i fusnesau ac ymchwiliadau i Emma Sleep a Wowcher er mwyn sefydlu a ydynt wedi camarwain pobl drwy ddefnyddio pethau fel amseryddion sy'n cyfrif i lawr a honiadau eraill bod angen gwneud pethau ar frys, a all roi pwysau annheg ar bobl i gwblhau eu pryniannau'n gyflym. Gwnaethom hefyd helpu i rymuso pobl drwy gam newydd ein hymgyrch 'Online Rip-Off Tip-Off' yn 2022/23, sydd â'r nod o helpu pobl i nodi arferion annheg wrth siopa ar-lein a rhoi gwybod i'r CMA am achosion o dwyll ar-lein.

Mae gweithredu mewn marchnadoedd presennol a marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy yn faes ffocws arall o dan ein strategaeth ddiwygiedig. O

safbwynt diogelu defnyddwyr, mae angen i bobl allu bod yn hyderus bod yr honiadau a wna busnesau am y cynhyrchion y maent yn eu gwerthu neu'n eu hyrwyddo yn gywir. Mae hynny'n cynnwys honiadau 'gwyrdd'. Gall cynhyrchion ailgylchadwy a chynaliadwy chwarae rôl yn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ond dim ond os ydynt yn rhai dilys ac y gall pobl wneud dewisiadau hyddysg yn seiliedig ar honiadau dibynadwy. Yn unol â'r ffocws hwn, gwnaethom barhau â'n gwaith yn ymchwilio a yw cwmnïau yn gwneud honiadau amgylcheddol camarweiniol, neu'n 'gwyrddgalchu', gan lansio ymchwiliadau i ASOS, Boohoo a George at Asda. Gwnaethom hefyd ehangu ein hymchwiliadau i wyrddgalchu i hanfodion y cartref, fel bwyd a diod, cynhyrchion glanhau, cynhyrchion ymolchi ac eitemau gofal personol, er mwyn helpu i sicrhau nad yw pobl yn cael eu camarwain nac yn talu premiwm diangen am gynhyrchion.

Gwnaethom hefyd geisio gwella ein dealltwriaeth o dechnolegau 'gwyrdd' newydd a'u masnacheiddio, yn unol â'r ffocws o dan ein strategaeth newydd ar annog cystadleuaeth effeithiol mewn marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg. Ym mis Medi 2022, gwnaethom lansio galwad am wybodaeth gan edrych ar brofiadau pobl ac arferion busnesau yn y sectorau gwres gwyrdd ac inswleiddio, gan archwilio a oes angen cymryd camau i helpu i sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn deg a bod busnesau'n cael eu cefnogi i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan gyfraith diogelu defnyddwyr.

Mae ein ffocws ar feysydd gwariant hanfodol o dan ein strategaeth ddiwygiedig yn sôn am lety a gofalu amdanom ein hunain ac eraill fel enghreifftiau allweddol. Rydym eisoes wedi bod yn weithredol yn y ddau faes hyn dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mewn perthynas â llety, parhaodd ein gwaith ar arferion annheg yn y farchnad lesddaliadau i arwain at ganlyniadau cadarnhaol i berchenogion cartrefi wrth i ni sicrhau ymrwymiadau gan naw rhydd-ddeiliad arall i ddileu darpariaethau a arweiniodd at ddyblu rhenti tir. Gwnaethom hefyd sicrhau ymrwymiadau gan y rhydd-ddeiliaid hyn i ad-dalu perchenogion cartrefi yr oedd cymalau i ddyblu rhenti tir wedi effeithio arnynt. Gwnaethom ymgysylltu ag aelodau seneddol drwy gydol y broses hon. Mae hyn yn cynnwys y Pwyllgor Dethol Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, ASau a chymheiriaid a oedd wedi codi materion lesddaliadau yn Nhŷ'r Cyffredin, ASau rydym wedi cyfarfod â nhw ynghylch y mater dros y blynyddoedd diwethaf ac, yn benodol, y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Gyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad.

Gwnaethom ddilyn ein gwaith llwyddiannus yn y sector lesddaliadau drwy lansio astudiaeth ehangach i'r farchnad adeiladu tai, gan ganolbwyntio ar gystadleuaeth a mynediad yn y sector adeiladu, y farchnad dir, a'r effaith y mae'r broses o weithredu'r system gynllunio wedi'i chael ar y farchnad. Gwnaethom hefyd ddechrau gweithio ar brosiect i nodi materion diogelu defnyddwyr allweddol ar gyfer landlordiaid a thenantiaid ym marchnad tai rhent y DU, gan adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd drwy'r pandemig ar y ffordd orau o ymgysylltu â phobl er mwyn nodi'r materion y gall ein hymyriadau gael effaith gadarnhaol arnynt.

Mewn rhannau eraill o'r sector llety, gwnaethom ddad-ddirwyn uniad Dye & Durham gyda TM Group, dau o'r cwmnïau amlycaf sy'n cyflenwi gwasanaethau chwilio am eiddo, gan ei gwneud yn ofynnol i Dye & Durham werthu'r TM Group yn ei gyfanrwydd i brynwr cymeradwy, ar ôl i ni ganfod y byddai'r uniad yn lleihau cystadleuaeth yn sylweddol yn y broses o gyflenwi gwasanaethau chwilio am eiddo yng Nghymru a Lloegr.

Roedd ein gwaith i ddiogelu defnyddwyr rhag ymddygiad annheg yn cynnwys nifer o brosiectau sy'n berthnasol i'n ffocws o'r newydd ar ofalu amdanom ein hunain ac eraill. Gwnaethom barhau i weithredu yn erbyn cwmnïau fferyllol sy'n ymgymryd ag arferion prisio anghyfreithlon, gan roi pwysau ariannol gormodol ar y GIG. Gwnaethom gyhoeddi ein penderfyniad terfynol ar dor-cyfraith yn erbyn dau gwmni fferyllol, Pfizer a Flynn, am godi prisiau gormodol ar y GIG am gapsiwlau sodiwm phenytoin, cyffur gwrth-epilepsi, gan roi dirwyon cyfunol o £70 miliwn. Roedd hyn ar ôl i'r achos gael ei gyfeirio'n ôl atom gan y Tribiwnlys Apelau Cystadlu (CAT). Ers hynny, mae'r cwmnïau wedi apelio i'r CAT yn erbyn y penderfyniad diweddaraf hwn ac felly ni chaiff y ddirwy ei chydnabod yn y datganiadau ariannol yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Buom hefyd yn gweithio gyda'r GIG i ddiogelu cleifion yn y DU a

sicrhau y gellir gorfodi'r ymrwymiadau a wnaed gan Aspen i'r Comisiwn Ewropeaidd i ostwng prisiau am feddyginiaethau canser a all achub bywydau yn y DU, yn dilyn ein hymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd.

Gall ein gwaith i ddiogelu pobl rhag arferion busnes annheg gynnwys defnyddio ein pwerau statudol i ymyrryd, ond mae ein gwaith eiriolaeth hefyd yn chwarae rhan bwysig. Er enghraifft, gwnaethom eirioli er mwyn sicrhau bod yr argymhellion a wnaed yn yr astudiaeth y flwyddyn ddiwethaf i'r farchnad i ofal cymdeithasol i blant yn cael eu derbyn yn llawn. Mae ein tîm eiriolaeth yn parhau i weithio gyda llywodraethau ledled y gwledydd fel y gall y cynigion helpu i ddarparu'r cartref cywir i bob plentyn mewn gofal. Hefyd o ran gofalu amdanom ein hunain ac eraill, gwnaethom adeiladu ar ein gwaith yn archwilio IVF a Hunanariennir, a gaiff ei ystyried yn fanylach yn yr astudiaeth achos isod. Gwnaethom hefyd ddiogelu buddiannau perchenogion anifeiliaid anwes, gan ganfod bod proses Goddard Holdco o drosfeddiannu VetPartners wedi achosi pryderon ynghylch cystadleuaeth mewn 11 o ardaloedd lleol a allai fod wedi arwain at brisiau uwch neu gynnig o ansawdd is. Cytunodd VetPartners i werthu'r busnesau yn yr ardaloedd lle gwelsom bryderon.

### *Astudiaeth achos: Clinigau IVF*

Ym mis Medi 2022, gwnaethom adrodd ar ein gwaith ar b'un a yw clinigau IVF yn gweithredu'n agored ac yn onest â'u cleifion.

Gwnaethom godi pryderon gyntaf yn 2020 am y ffyrdd yr oedd rhai clinigau ffrwythlondeb yn hyrwyddo ac yn hysbysebu eu cynhyrchion, yn arbennig mewn perthynas â phrisiau a chyfraddau llwyddiant. Gwnaethom hefyd nodi diffyg ymwybyddiaeth gyffredinol bod cyfraith defnyddwyr yn gymwys yn y sector hwn.

Yn ystod profiad a all fod yn flinedig yn emosiynol ac yn gostus – bydd rhai cleifion yn defnyddio cynilion, benthyciadau neu hyd yn oed yn ailforgeisi eu cartref i dalu am driniaeth – ni ddylai fod yn rhaid i bobl boeni y gallent fod yn cael gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol.

Gwnaethom gyhoeddi canllawiau ym mis Mehefin 2021 i egluro rhwymedigaethau cyfreithiol clinigau i'w cleifion, gan gynnwys pwysigrwydd darparu gwybodaeth gywir, glir a thryloyw ymlaen llaw. Yna, ym mis Mawrth 2022, gwnaethom sefydlu adolygiad o b'un a oedd clinigau IVF yn cydymffurfio â chyfraith diogelu defnyddwyr yn y maes hwn.

Ym mis Medi 2022, ar ôl darganfod bod rhai clinigau yn dal i fethu darparu gwybodaeth allweddol i gleifion, fel gwybodaeth am brisiau, triniaethau ychwanegol, a gweithdrefnau cwynion clinigau, neu'n hysbysebu honiadau camarweiniol am gyfraddau llwyddiant, gwnaethom ymgysylltu'n uniongyrchol â nifer o glinigau, gan amlinellu eu rhwymedigaethau cyfreithiol a galw am newidiadau i'w gwybodaeth a'u telerau. Gwnaeth yr holl glinigau y gwnaethom gysylltu â nhw newidiadau er mwyn mynd i'r afael â'n pryderon.

Yn dilyn yr adolygiad hwnnw, gwnaethom gydweithio â'r Awdurdod Safonau Hysbysebu i gyhoeddi llythyr agored ar y cyd yn atgoffa pob clinig o'u cyfrifoldebau o dan gyfraith defnyddwyr.

Ond nid dyna ddiwedd ein gwaith; mae prosesau prisio yn y sector ffrwythlondeb yn fater cymhleth ac mae'r CMA bellach yn cydweithio â'r sector i archwilio sut y gall clinigau helpu cleifion i gymharu prisiau clinigau.

## Meithrin cystadleuaeth er mwyn hyrwyddo arloesedd, cynhyrchiant a thwf hirdymor ym mhob rhan o'r DU

Mewn marchnad sy'n gweithredu'n effeithiol, dylai'r busnesau sy'n cynhyrchu'r cynhyrchion a'r gwasanaethau mwyaf arloesol sy'n diwallu anghenion pobl allu ffynnu, gan ddod â buddiannau ehangach i'r economi gan gynnwys hyrwyddo twf hirdymor ledled y DU.

Dylai camau gweithredu'r CMA rymuso'r twf hwn, gan galluogi busnesau cystadleuol, sy'n bargeinio'n deg, i gystadlu, gan gynnwys trwy fynd i'r afael ag ymddygiad lleiafrif bach sy'n gweithredu'n annheg, yn cyfyngu ar gystadleuaeth neu'n atal marchnadoedd rhag gweithredu'n gywir.

Rydym yn cymryd dull mwy strategol mewn perthynas â'n rôl yn hyn o beth, drwy nodi'r materion ym mhob rhan o'r economi a all fod yn cyfyngu ar gystadleuaeth neu'n atal arloesedd a thwf hirdymor, cyn penderfynu a all y CMA fynd i'r afael â'r rhain a'r ffordd orau o wneud hynny, gan ystyried ein holl adnoddau. Cafodd hyn ei grisialu yn ein strategaeth sefydliadol newydd, fel yr amlinellir yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023/24, gyda'i ddyheadau cliriach sy'n seiliedig ar ganlyniadau a blaenoriaethau tymor canolig a fydd yn galluogi'r CMA i flaenoriaethu'r materion a chamau gweithredu cysylltiedig a all sicrhau buddiannau i bobl, busnesau a'r economi yn y DU.

Ail adroddiad y CMA ar y Sefyllfa o ran Cystadleuaeth – asesiad o'r graddau y mae cystadleuaeth yn gweithio yn y DU a beth mae hynny'n ei olygu i bobl a busnesau – a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022 yw un o'r ffyrdd rydym yn ceisio datblygu darlun mwy strategol o'r materion ym mhob rhan o'r economi. Mae wedi helpu i lywio trafodaeth gyhoeddus a llunio polisïau yn ymwneud â materion fel yr hyn sy'n sbarduno mwy o gynhyrchiant ac arloesedd. Dangosodd yr adroddiad diweddaraf gyfuniad o dueddiadau sy'n peri pryder, gyda marchnadoedd yn ymganoli'n fwy, cwmnïau yn codi prisiau uwch ar gwsmeriaid a'r cwmnïau mwyaf yn aros yn y safleoedd uchaf am fwy o amser. Canfu hefyd bod y cartrefi tlotaf yn fwy tebygol o ddioddef effeithiau'r newidiadau hyn, ar adeg lle maent eisoes yn wynebu cynnydd dramatig yng nghostau eitemau hanfodol. Rydym yn parhau i ddefnyddio'r canfyddiadau hyn i lywio ein gwaith.

Mae ein Huned Microeconomeg yn Darlington yn ategu rôl y CMA wrth gefnogi arloesedd, cynhyrchiant a thwf ym mhob rhan o economi'r DU. Mae ei arbenigwyr economaidd yn gweithio ar raglen ymchwil a fydd yn arwain at drydedd fersiwn ein hadroddiad ar y Sefyllfa o ran Cystadleuaeth ac yn cefnogi gwaith ehangach y CMA a llunwyr polisïau, gan archwilio meysydd gan gynnwys buddsoddiad, arloesedd a chystadleuaeth.

Mae cadernid y farchnad yn allweddol er mwyn hyrwyddo cynhyrchiant ac arloesedd a'r flwyddyn hon gwnaethom gyhoeddi papur trafod ar y ffactorau sy'n ysgogi cadernid y farchnad – hynny yw, yr hyn sy'n gwneud rhai marchnadoedd yn fwy agored nag eraill i achosion niweidiol o darfu ar gyflenwad. Mae'r papur hefyd yn archwilio pa rôl y gall awdurdodau cystadleuaeth a llywodraeth ehangach ei chwarae yn sicrhau bod marchnadoedd, yn arbennig ar gyfer nwyddau a gwasanaethau hanfodol, yn diwallu anghenion pobl, busnesau a'r economi ehangach mewn cyfnodau sefydlog ac ansefydlog.

Ar draws marchnadoedd digidol, rydym yn meithrin cystadleuaeth ac yn hyrwyddo arloesedd a chynhyrchiant drwy'r gyfundrefn statudol newydd o blaid cystadleuaeth y bydd Uned Marchnadoedd Digidol newydd y CMA yn gyfrifol amdani ar ôl i Senedd y DU roi'r pwerau iddi wneud hynny. Ceir rhagor o wybodaeth am yr Uned Marchnadoedd Digidol yn y thema Hyrwyddo Cystadleuaeth Effeithiol mewn Marchnadoedd Digidol a ystyrir isod.

Mae'r CMA hefyd wedi bod yn rhan flaenllaw o'r gwaith o sicrhau bod marchnadoedd digidol yn cael eu rheoleiddio mewn modd cydlynol, effeithiol ac effeithlon, yn arbennig fel un o aelodau sylfaenol y Fforwm Cydweithredu Rheoliadau Digidol (DRCF), yr ydym yn ei gydlynu gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom). Arweiniodd cyfranogiad y CMA yn y gwaith hwn dros y flwyddyn ddiwethaf at wybodaeth am faterion fel algorithmau a rôl y CMA a rheoleiddwyr eraill yn goruchwylio'n effeithiol heb gyfyngu ar arloesedd. Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith drwy'r DRCF yn yr astudiaeth achos isod.

Mae system gref ac annibynnol i reoli prosesau uno yn hanfodol i hyrwyddo arloesedd, cynhyrchiant a thwf. Mae hefyd yn hollbwysig i ddiogelu buddiannau pobl – rhywbeth sy'n arbennig o bwysig wrth inni barhau i weld effaith costau byw cynyddol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi ymchwilio i brosesau uno a allai leihau cystadleuaeth yn ein barn ni, gan arwain at brisiau uwch, llai o ddewis a llai o arloesedd a thwf yn y pen draw. Yn 2022/23, o'r miloedd o brosesau uno sy'n effeithio ar y DU bob blwyddyn, gwnaethom ystyried tua 700, adolygu 43 ar y cam cyntaf cychwynnol ac ymchwilio i 13 ar yr ail gam manwl. O'r achosion ail gam hynny, gwnaethom glirio dau, rhwystro tri a gwnaethom naill ai glirio'r gweddill ar ôl derbyn rhwymedïau i fynd i'r afael â'n pryderon ynghylch cystadleuaeth, neu rhoddodd y busnesau y gorau i'r cynigion.

Gall rhai o'r prosesau uno rydym yn ymchwilio iddynt gael effeithiau sylweddol ym mhob rhan o'r economi ac effeithio ar drethdalwyr. Diogelodd y CMA drethdalwyr a gwasanaethau cyhoeddus lleol yn y DU drwy orchymyn y cwmni rheoli gwastraff Veolia i ddad-ddirwyn ei uniad â'r cwmni cystadleuol Suez ar ôl canfod pryderon am gystadleuaeth. Clywsom gan gynghorau lleol a chwsmeriaid a oedd yn pryderu y gallai'r uniad fod wedi arwain at godi prisiau neu at ostyngiad yn ansawdd y gwasanaethau ac, yn y pen draw, y byddai trethdalwyr a busnesau wedi gorfod cario baich unrhyw gynnydd mewn costau.

Gwnaethom hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r cwmni meddalwedd gwasanaethau brys NEC werthu rhai rhannau o'i fusnes SSS ar ôl i ymchwiliad manwl i'r uniad ganfod y gallai gwasanaethau brys a ariennir yn gyhoeddus orfod talu mwy am feddalwedd hanfodol.

Caniateir i'r mwyafrif llethol o brosesau uno yn y DU yr ydym yn eu hystyried fynd rhagddynt. Pan fydd gennym bryderon, rydym yn ymgysylltu â'r partïon i geisio eu datrys. Er enghraifft, gwnaethom glirio'r uniad rhwng y cwmnïau cysylltiadau lloeren Viasat ac Inmarsat ar ôl i'n hymchwiliad ail gam manwl ddatgelu y byddai'r cwmni unedig yn debygol o wynebu cystadleuaeth sylweddol gan gwmnïau sefydledig a rhai sy'n dod i'r amlwg wrth i'r sector y maent yn gweithredu ynddo ehangu.

Rydym yn ymdrechu'n barhaus i sicrhau bod y gyfundrefn uno a'n disgwyliadau o fusnesau sy'n rhyngweithio â hi mor dryloyw ac mor hawdd i'w llywio ag y bo modd. Y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom dorri tir gweithdrefnol newydd drwy ddefnyddio proses unioni 'llwybr carlam' ar ail gam ein ymholiadau i brosesau uno yn ystod ein hymchwiliadau i gaffaeliad Carpenter Co o Recticel a'r uniad rhwng Sika ac MBCC. Galluogodd hyn y cwmnïau a oedd yn uno i awgrymu ffyrdd o fynd i'r afael â'n pryderon ynghylch cystadleuaeth ar gam cynharach nag arfer, gan arbed arian ac amser i'r CMA a'r busnesau sy'n uno.

Gan droi at ein gwaith gorfodi cystadleuaeth, gwnaethom ddiogelu pobl a busnesau ar draws marchnadoedd. Yn y sector adeiladu – un o'r marchnadoedd allweddol ar gyfer twf yr economi – gwnaethom roi dirwyon o £60 miliwn bron i gyd i 10 cwmni am dorri cyfraith cystadleuaeth drwy rigio ceisiadau ar gyfer contractau dymchwel a gwaredu asbestos a oedd yn cynnwys prosiectau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Twyllodd y ceisiadau hyn gwsmeriaid eu bod yn gystadleuol pan nad oedd hynny'n wir. Bu pob un o'r 10 cwmni yn rhan o un achos o leiaf o rigio ceisiadau rhwng mis Ionawr 2013 a mis Mehefin 2018. Mae dau o'r cwmnïau yn apelio yn erbyn y penderfyniad hwn i'r Tribiwnlys Apelau Cystadlu.

### *Anghymhwyso cyfarwyddwyr*

Yn dilyn ein hymchwiliad i 10 cwmni adeiladu a gynllwyniodd i rigio ceisiadau ar gyfer contractau dymchwel a gwaredu asbestos, sicrhaodd y CMA bod pedwar o gyfarwyddwyr y cwmnïau a weithredodd yn anghyfreithlon yn cael eu datgymhwyso.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein pwerau i ddatgymhwyso cyfarwyddwyr mewn achosion gorfodi cystadleuaeth er mwyn sicrhau atebolrwydd unigol dros gamymddwyn ac i atgyfnerthu cymhellion i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith cystadleuaeth. Ers i'r pŵer gael ei ddefnyddio am y tro cyntaf yn 2016 hyd at ddiwedd 2022/23, mae'r CMA wedi sicrhau bod 28 o gyfarwyddwyr yn cael eu datgymhwyso a gododd o ymchwiliadau o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998, a oedd yn cynnwys cyfarwyddwyr mewn amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys y sector adeiladu, y sector fferyllol a'r sector asiantaethau eiddo.

Gallwn hefyd ymgysylltu â chwmnïau i ddatrys ein pryderon mewn ffyrdd eraill, fel drwy ymrwymiadau cyfrwymol, lle bydd busnesau sy'n destun ymchwiliadau yn ymrwymo i newid eu hymddygiad masnachol er mwyn mynd i'r afael â phryderon y CMA ynghylch cystadleuaeth. Gwnaethom dderbyn ymrwymiadau o'r fath mewn perthynas â chytundeb rhannu adnoddau rhwng y gweithredwyr fferi P&O a DFDS. Roeddem yn pryderu y gallai'r cytundeb hwn arwain at lai o deithiau hwylio a phrisiau uwch i fusnesau sy'n defnyddio eu gwasanaethau cludo llwythi ar draws y Sianel. Aeth yr ymrwymiadau i'r afael â'n pryderon gan sicrhau buddiannau'r trefniant, gan gynnwys amseroedd croesi byrrach a gwella cadwyni cyflenwi cludo llwythi.

Mae'r CMA hefyd yn rhoi arweiniad i fusnesau i'w hatgoffa o'u cyfrifoldebau o dan y gyfraith a chanlyniadau peidio â chydymffurfio â hi. Gwnaethom lansio ymchwiliad cyntaf y CMA i achosion a amheuir o gynllwynio mewn marchnadoedd llafur y flwyddyn hon a gwnaethom gyhoeddi canllawiau yn atgoffa cwmnïau o'u rhwymedigaethau yn y maes hwn.

Gwnaethom hefyd ddefnyddio ein pwerau yn y farchnad ym mhob rhan o'r economi ac, ym mis Ebrill 2023, gwnaethom gwblhau ein hymchwiliad i'r farchnad i rwydwaith Airwave Motorola, sy'n darparu'r rhwydwaith symudol penodedig hanfodol y mae'r gwasanaethau brys yn ei ddefnyddio i gyfathrebu'n ddiogel. Canfuom nad oedd y farchnad yn gweithio'n dda ac nad oedd gan y gwasanaethau brys ddewis ond parhau i ddefnyddio'r rhwydwaith. O ganlyniad, llwyddodd Motorola, sy'n berchen ar y cwmni sy'n gweithredu'r rhwydwaith, i godi prisiau ymhell uwchlaw lefelau cystadleuol ar y Swyddfa Gartref (sy'n negodi'r contractau ar ran y gwasanaethau brys), gan arwain at gostau uwch a oedd, yn y pen draw, yn cael eu talu gan drethdalwyr. Gwnaethom bennu cap prisiau i gyfyngu ar y pris y gall Motorola ei godi i lefel a fyddai'n gymwys mewn marchnad gystadleuol sy'n gweithredu'n dda, gan roi diwedd ar y £200m amcangyfrifedig o ordaliadau a godwyd bob blwyddyn. Arweiniodd y gwaith a wnaethom ar hyn hefyd at adroddiad Gwerth am Arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys. Ers hynny, mae Motorola wedi apelio yn erbyn penderfyniad y CMA i'r Tribiwnlys Apelau Cystadlu.

## *Astudiaeth achos: Bancio Agored*

Ym mis Ionawr 2023, gwnaethom gadarnhau bod y chwe darparwr bancio mwyaf yn y DU wedi rhoi'r safonau sy'n ofynnol gan y CMA ar waith yn llawn i gyflawni Bancio Agored, sydd, ers cael ei gyflwyno yn 2017, wedi trawsnewid y ffordd y mae miliynau o bobl yn rheoli eu harian.

Ymchwiliad y CMA i'r farchnad i fancio manwerthol a ysgogodd Fancio Agored i ddechrau, ar ôl i ni nodi problemau ynghylch cystadleuaeth yn y farchnad bancio cyfrifon cyfredol personol a'r farchnad bancio i fusnesau bach a chanolig. Cafodd ei gyflwyno fel rhan o becyn o rwymedïau wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r problemau hyn, gyda'r nod o roi hwb i gystadleuaeth yn y sector hwn.

Cafodd y rhwymedïau hefyd eu gweithredu drwy Orchymyn cyfreithiol a oedd, ymysg pethau eraill, yn ei gwneud yn ofynnol i'r naw darparwr bancio mwyaf ddatblygu ffyrdd o rannu data cwsmeriaid â thrydydd partïon yr ymddiriedir ynddynt mewn modd diogel. Roedd hyn yn golygu y gallai cwmnïau arloesol gynnig cymwysiadau a gwasanaethau i gwsmeriaid presennol y naw darparwr bancio mwyaf a fyddai'n eu galluogi i arbed amser ac arian drwy, er enghraifft, ei gwneud yn haws i gymharu cynhyrchion a siopa o amgylch.

Cyflwyno Bancio Agored yw'r ymyriad mwyaf uchelgeisiol a chymhleth a gyflawnwyd gan y CMA. Ym mis Mai 2022, gwnaethom gyhoeddi canlyniadau adolygiad gan Kirstin Baker, un o gyfarwyddwyr anweithredol annibynnol y CMA. Roedd hwn yn nodi gwersi i'w dysgu o'r profiad o roi rhwymedi Bancio Agored sy'n berthnasol i'r broses o ddylunio, gweithredu, cyflawni a monitro rhwymedïau ymchwiliadau'r CMA i farchnad oedd yn fwy cyffredinol.

Bydd y broses o ddatblygu Bancio Agored yn y dyfodol yn parhau dan oruchwyliaeth y Cyd-bwyllgor Goruchwyliaeth Reoleiddiol, sy'n cynnwys yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, y Rheoleiddiwr Systemau Talu, Trysorlys EF a'r CMA.

Gyda mwy na 7 miliwn o ddefnyddwyr gweithredol yn y DU, caiff Bancio Agored ei gydnabod fel llwyddiant mawr sydd wedi newid y byd bancio manwerthol er budd cwsmeriaid a busnesau bach ac sydd wedi helpu i roi hwb i'r sector technoleg ariannol arloesol sy'n datblygu'n gyflym yn y DU. Mae llawer o wledydd eraill yn ystyried safonau agored tebyg.

## Hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol mewn marchnadoedd digidol

Mae marchnadoedd digidol wedi cael effeithiau cadarnhaol enfawr ar bob un ohonom. Maent wedi trawsnewid y ffordd y gallwn gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, gan roi mynediad i amrywiaeth eang o gynhyrchion a gwasanaethau mewn ffyrdd hynod gyfleus ac wedi agor cyfleoedd gwaith newydd i unigolion a busnesau.

Ar yr un pryd, mae pryderon wedi cynyddu bod y tirwedd digidol wedi dechrau cael ei ddomineiddio gan grŵp bach o gewri technoleg ac nad yw cystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol mor fywiog neu ddynamig ag y gallai fod. Nododd ein hadroddiad diweddaraf ar Y Sefyllfa o ran Cystadleuaeth nodweddion cystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol a all, yn ôl eu natur, arwain at bryderon ynghylch cystadleuaeth.

Os na chaiff y sefyllfa hon ei hadolygu, gall arwain at amrywiaeth o effeithiau andwyol ym mhob rhan o'r economi a chymdeithas. Gall nifer bach o lwyfannau digidol arwain at sefyllfa sefydledig a all fod yn anodd iawn i fusnesau eraill ei herio drwy gystadleuaeth arferol. Gall olygu nad oes gan fusnesau sy'n hysbysebu neu'n gwerthu ar-lein lawer o ddewis ond derbyn y telerau a'r prisiau a bennir iddynt gan y llwyfan dan sylw. Gall arwain at brisiau uwch a llai o ddewisiadau i gwsmeriaid sy'n siopa ar-lein. A gall atal arloesedd, gyda datblygwyr apiau a darparwyr gwasanaethau fel gemau ar y cwmwl yn cael eu cyfyngu yn eu gallu i gyrraedd defnyddwyr terfynol. Yn ogystal â phennu costau ar ddefnyddwyr a busnesau, mae problemau cystadleuaeth o'r fath hefyd yn pennu costau ar gymdeithas: er enghraifft, drwy hwyluso lledaeniad deunydd difrïol a 'newyddion ffug' a chyfryngu ar y refeniw sy'n llifo i'r gwasanaethau cyfryngau sy'n chwarae rhan mor bwysig yn ein democratiaeth.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r CMA wedi parhau i chwarae rhan ganolog yn y drafodaeth ynghylch datblygiad marchnadoedd digidol – a'r rôl y gall, ac y dylai awdurdodau cystadleuaeth ei chwarae yn mynd i'r afael â phryderon sy'n codi o'r pŵer sydd gan rai o'r cwmnïau mwyaf yn y farchnad. Rydym wedi ceisio nodi meysydd allweddol sy'n peri pryder yn ein gwaith ac esbonio pam y mae angen dull newydd. Mae hyn wedi cyfrannu at gyflwyno Bil Marchnadoedd Digidol, Cysadleuaeth a Defnyddwyr yn Senedd y DU ym mis Ebrill 2023. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn paratoi i ymgymryd â'r pwerau newydd a gaiff y CMA o dan y ddeddfwriaeth hon, a fydd yn rhoi'r pwerau i'r CMA weithredu cyfundrefn statudol o blaid cystadleuaeth i farchnadoedd digidol drwy ei Uned Marchnadoedd Digidol. Gallwch ddarllen mwy am y pwerau hyn yn y thema  Cyflawni ein Cyfrifoldebau Newydd.

Ynghyd â pharatoi ar gyfer y ddeddfwriaeth hon, rydym wedi dibynnu ar bwerau presennol y CMA i hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg mewn marchnadoedd digidol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae ein gwaith mewn marchnadoedd digidol eisoes yn cwmpasu ein holl adnoddau, o orfodaeth defnyddwyr a chystadleuaeth i eiriolaeth.

Mae marchnadoedd digidol hefyd yn bwnc ar gyfer system rheoli uno. Yn ôl ei natur, mae'r adolygiad o brosesau uno yn cynnwys dadansoddiad sy'n edrych i'r dyfodol o effeithiau tebygol trafodyn ar

gystadleuaeth. Felly, mae'n bwysig bod gennym y fframwaith dadansoddol cywir ar waith i edrych ar gystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol.

Mae ein hadolygiad o gaffaeliad arfaethedig Activision gan Microsoft yn dangos y mathau o faterion y mae'n rhaid i'r CMA eu hystyried. Roeddem yn arbennig o bryderus am yr effaith y gallai'r trafodyn hwn ei chael ar chwarae gemau yn y cwmwl. Mae chwarae gemau yn y cwmwl yn tyfu'n gyflym gyda'r posibilrwydd o newid y ffordd y caiff gemau eu chwarae, gan gael gwared ar yr angen i ddibynnu ar gonsolau a chyfrifiaduron chwarae gemau drud a rhoi mwy o ddewis iddynt dros sut a ble maent yn chwarae gemau. Felly, roedd yn bwysig diogelu cystadleuaeth yn y farchnad newydd hon.

Canfu ein hymchwiliad manwl bod Microsoft eisoes mewn sefyllfa bwerus a'i fod ar y blaen i'w gystadleuwyr mewn perthynas â chwarae gemau yn y cwmwl. Gwelsom hefyd y byddai caffaeliad Activision, un o'r cyhoeddwyr gemau fideo mwyaf poblogaidd yn y byd, yn atgyfnerthu'r fantais honno, gan roi'r gallu i Microsoft danseilio cystadleuwyr newydd ac arloesol yn y sector pwysig hwn sy'n tyfu'n gyflym. Ymgysylltodd Microsoft yn adeiladol â ni i geisio mynd i'r afael â'r materion hyn ond canfu panel annibynnol y CMA sy'n arwain yr ymchwiliad na fyddai cynigion Microsoft yn effeithiol i leddfu ein pryderon ac y byddai wedi disodli cystadleuaeth â rheoliad parhaus aneffeithiol. Felly, penderfynodd y panel wahardd y broses uno hon rhag mynd rhagddi. Ers hynny, mae Microsoft wedi apelio yn erbyn y penderfyniad hwn i'r Tribiwnlys Apelau Cystadlu.

Hefyd, o dan ein pwerau uno, gwnaethom orchymyn Meta i waredu Giphy ar ôl ailystyried ein penderfyniad gwreiddiol yng ngoleuni dyfarniad a drosglwyddwyd gan y Tribiwnlys ym mis Gorffennaf 2022. Canfu'r panel annibynnol a wnaeth y penderfyniad y gallai proses Meta o drosfeddiannu Giphy alluogi Meta i gyfyngu mynediad llwyfannau cyfryngau cymdeithasol eraill i GIFs, gan wneud y safleoedd hynny'n llai deniadol i ddefnyddwyr ac yn llai cystadleuol. Canfu hefyd fod y cytundeb yn golygu nad oedd Giphy yn heriwr posibl mwyach yn y farchnad hysbysebu arddangos, gan atal busnesau yn y DU rhag manteisio ar arloesedd yn y farchnad hon.

Roedd ein penderfyniadau ar gaffaeliad arfaethedig Microsoft o Activision ac ar gaffaeliad Meta o Giphy ymysg miloedd o brosesau unol sy'n effeithio ar y DU bob blwyddyn. Dim ond llond llaw o'r rhain a gaiff eu hatgyfeirio at ymchwiliad manwl a llai eto a gaiff eu gwahardd yn y pen draw. Yn y lleiafrif o achosion, lle rydym yn nodi pryderon am gystadleuaeth, byddwn bob amser yn ceisio ymgysylltu â'r partïon i nodi a yw'n bosibl mynd i'r afael â'r pryderon hynny. Mae ein hadolygiad o gaffaeliad arfaethedig NortonLifeLock o Avast yn enghraifft arall o ymchwiliad manwl yn y sector digidol. Fel gyda'n hadolygiad o gytundeb Microsoft/Activision, roedd hyn yn cynnwys dadansoddiad manwl o farchnad ddynamig y mae'n debygol y bydd yn datblygu yn y dyfodol. Yn yr achos hwn, canfu'r panel annibynnol a oedd yn ystyried y trafodyn y byddai'r busnesau sy'n uno yn parhau i wynebu cystadleuaeth sylweddol gan wrthwynebwyr sefydledig ac sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys Microsoft fel perchennog system weithredu Windows, y canfu'r ymchwiliad ei fod yn cynnig opsiynau amgen cynyddol bwysig i'r cynhyrchion a werthir gan y partïon sy'n uno.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym hefyd wedi parhau i ymchwilio i amrywiaeth o drefniadau mewn marchnadoedd digidol o dan ein pwerau gorfodi cystadleuaeth.

Ym mis Mai 2022, gwnaethom sefydlu ymchwiliad i bryderon y gallai Google fod wedi camddefnyddio goruchafiaeth mewn perthynas â thechnoleg hysbysebu – cyfres gymhleth o wasanaethau sy'n hwyluso'r broses o werthu gofod hysbysebu ar-lein rhwng gwerthwyr (cyhoeddwyr, fel papurau newydd ar-lein a darparwyr cynnwys eraill) a phrynwyr (hysbysebwyr). Mae'r farchnad hon yn bwysig am fod miliynau o bobl ledled y DU yn defnyddio gwefannau sy'n dibynnu ar refeniw hysbysebu i gynnig cynnwys am ddim o ansawdd uchel. Rydym yn bryderus y gall Google fod yn camddefnyddio ei sefyllfa i ffafrio ei wasanaethau ei hun ar draul ei wrthwynebwyr, ei gwsmeriaid a defnyddwyr yn y pen draw. Mae'r ymchwiliad hwn yn parhau.

Ar wahân, gwnaethom barhau i ymgysylltu â Google i oruchwylio ei waith parhaus i roi'r ymrwymiadau cyfrwymol 'Privacy Sandbox' a wnaeth i'r CMA ym mis Chwefror 2022 ar waith. Cynlluniwyd yr ymrwymiadau hyn i fynd i'r afael â'n pryderon ynghylch y broses o ddileu cwcis trydydd parti o borwr

Chrome Google. Roeddem wedi bod yn pryderu y byddai cynigion gwreiddiol Google yn golygu y byddai gwariant ar hysbysebu ar-lein yn canolbwyntio mwy fyth ar Google, gan wanhau cystadleuaeth ac effeithio ar ddefnyddwyr sy'n talu am gost hysbysebu ar-lein yn y pen draw, ac y gallai'r cynigion danseilio gallu cyhoeddwyr ar-lein, fel papurau newydd, i greu refeniw a pharhau i gynhyrchu cynnwys gwerthfawr yn y dyfodol – gan olygu bod llai o ddewis o ffynonellau newyddion i'r cyhoedd. Aeth ymrwymiadau'r Privacy Sandbox i'r afael â'n pryderon ac mae Google ers hynny wedi dweud y byddant yn cael eu cyflwyno'n fyd-eang.

Gwnaethom hefyd sefydlu ymchwiliad i achosion a amheuir o gamddefnyddio goruchafiaeth gan Amazon mewn perthynas â'r broses o weithredu ei Marketplace. Mae'r ymchwiliad newydd hwn yn dilyn ymchwiliad gan y Comisiwn Ewropeaidd presennol sy'n edrych ar bryderon tebyg, nad yw'n cwmpasu materion parhaus sy'n effeithio ar y DU ers iddi adael yr Undeb Ewropeaidd. Caiff rhai o'r cynhyrchion ar Marketplace Amazon eu cyflenwi drwy ei fusnes manwerthu ei hun. Fodd bynnag, caiff cyfran fawr eu cyflenwi gan werthwyr trydydd parti. Mae Amazon yn darparu gwasanaethau i'r gwerthwyr hyn, gan gynnwys y rheini sy'n hanfodol i wneud gwerthiannau, fel cyfateb gwerthwyr i ddefnyddwyr. Rydym yn ymchwilio i b'un a yw Amazon yn defnyddio data trydydd parti i roi hwb annheg i'w fusnes manwerthu ei hun a ph'un a yw'n ffafrio gwerthwyr sy'n defnyddio logisteg a gwasanaethau dosbarthu Amazon – y gallai'r ddau wanhau cystadleuaeth.

Ar yr un pryd, rydym yn parhau ag ymchwiliad ar wahân i Apple yn dilyn cwynion y gallai ei delerau ac amodau ar gyfer datblygwyr apiau fod yn annheg ac yn wrthgystadleuol. Rydym yn ystyried pryderon bod gan Apple oruchafiaeth mewn perthynas â dosbarthu apiau ar ddyfeisiau Apple yn y DU – ac, os felly, a yw Apple yn pennu telerau annheg neu wrth-gystadleuol ar ddatblygwyr sy'n defnyddio Apple Store, gan arwain yn y pen draw at ddefnyddwyr yn cael llai o ddewis neu'n gorfod talu prisiau uwch am apiau ac ychwanegion.

Mae ein gwaith mewn marchnadoedd digidol yn eang. Er enghraifft, gwnaethom ymyrryd yn y sector addysg a sicrhau ymrwymiadau cyfreithiol gyfrwymol gan ESS ar ôl iddo wthio ysgolion i dderbyn contract newydd tair blwyddyn o hyd ar gyfer meddalwedd hanfodol. Daw hyn ar adeg lle mae sefydliadau addysg ac aelodau o'r cyhoedd yn wynebu costau cynyddol. Mae ein gwaith hefyd wedi cwmpasu pryderon gan artistiaid a chyfansoddwyr caneuon yn y farchnad ffrydio cerddoriaeth sy'n bryderus ynghylch arferion sy'n effeithio ar faint maent yn ei ennill drwy arferion ffrydio. Canfu ein hastudiaeth y gallai artist ddisgwyl ennill tua £12,000 o 12 miliwn o achosion o ffrydio yn y DU yn 2021, ond mai llai nag 1% o artistiaid sy'n cyflawni'r lefel honno mewn gwirionedd. Fodd bynnag, canfu ymchwiliad manwl y CMA i'r farchnad nad yw'r pryderon hyn yn cael eu hysgogi gan lefel y crynodiad yn y farchnad recordio. Er ein bod yn deall pryderon crewyr ynghylch lefel yr incwm y mae llawer yn ei gael, mae'r dadansoddiad yn yr astudiaeth yn awgrymu ei bod yn annhebygol y byddai ymyriad gan y CMA yn rhyddhau arian ychwanegol i'r system i dalu mwy i artistiaid a chyfansoddwyr caneuon. Fodd bynnag, tynnodd yr astudiaeth sylw at y ffaith y gallai'r materion a godwyd gan grewyr gael eu hystyried gan y llywodraeth a llunwyr polisïau fel rhan o'u gwaith parhaus yn dilyn ymchwiliad y Pwyllgor Dethol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i economeg ffrydio cerddoriaeth.

Mae ein rôl mewn marchnadoedd digidol yn rhan o fframwaith cyfreithiol cymhleth a datblygol sy'n llywodraethu'r maes hwn. Rydym wedi bod yn rhan flaenllaw o'r gwaith o sicrhau bod marchnadoedd digidol yn cael eu rheoleiddio mewn modd cydlynol, effeithiol ac effeithlon, yn arbennig fel un o aelodau sylfaenol y Fforwm Cydweithredu Rheoliadau Digidol, yr ydym yn ei gydlynu gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom). Arweiniodd ein cyfranogiad yn y gwaith hwn y flwyddyn ddiwethaf at wybodaeth am faterion fel algorithmau a rôl y CMA a rheoleiddwyr eraill yn goruchwylio'n effeithiol heb gyfyngu ar arloesedd. Ceir rhagor o fanylion am waith y CMA ar algorithmau drwy'r Fforwm Cydweithredu Rheoliadau Digidol yn yr astudiaeth achos isod.

Mae'r CMA hefyd yn gweithio gyda'i bartneriaid rhyngwladol ar waith digidol; mae ymgysylltu'n fyd-eang wedi bod yn nodwedd allweddol o'n rôl, ac mae hynny'n parhau. Cyhoeddwyd ein hymchwiliad i

ddefnydd Meta (Facebook gynt) o ddata hysbysebion ynghyd ag ymchwiliad cyfochrog y Comisiwn Ewropeaidd ac rydym yn parhau i gydweithredu'n agos. Mae nifer mawr o achosion gwrthglymblaid ledled y byd mewn perthynas ag ymddygiad mewn marchnadoedd digidol ac rydym wedi bod yn rhagweithiol yn ymgysylltu â'n partneriaid rhyngwladol ar amrywiaeth o'r materion hyn.

Buom yn gweithio gyda phartneriaid G7 o dan ffrwd gwaith cystadleuaeth ddigidol llywyddiaeth yr Almaen yn 2022 a gan symud ymlaen i lywyddiaeth Japan yn 2023. Roedd hyn yn dilyn llywyddiaeth gynharach y DU pan wnaethom gyhoeddi, ynghyd â'n cydweithwyr G7 a'n gwesteion, gompendiwm o ddulliau gweithredu i wella cystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol, a roddodd drosolwg o'r ffordd mae awdurdodau gwahanol yn gweithio i hyrwyddo cystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol.

Yn ôl yn y DU, gwnaethom gynnal cynhadledd data yn Llundain, lle daeth asiantaethau cystadleuaeth ynghyd o bob cwr o'r byd i ystyried heriau newydd a heriau sy'n dod i'r amlwg yn y diwydiant technoleg a marchnadoedd digidol, a sut mae asiantaethau'n datblygu galluoedd ac arbenigedd technegol i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Gwnaethom hefyd gynnal gweithdy ar gystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol ar gyfer aelod-wladwriaethau Cymdeithas Gwledydd De-ddwyrain Asia.

Fel gyda llawer o waith arall y CMA, yn aml, mae ein hachosion digidol yn wynebu heriau cyfreithiol. Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, rhoddodd y Tribiwnlys Apelau Cystadlu ddyfarniad mewn perthynas â chais Apple am adolygiad o benderfyniad y CMA i wneud atgyfeiriad ar gyfer ymchwiliad i'r farchnad i'r broses o gyflenwi porwyr dyfeisiau symudol a pheiriannau porwyr, a'r broses o ddosbarthu gwasanaethau chwarae gemau yn y cwmwl drwy siopau apiau ar ddyfeisiau symudol yn y DU. Dyfarnodd y Tribiwnlys o blaid Apple. Rydym yn siomedig â'r dyfarniad am ein bod wedi gwneud yr atgyfeiriad hwn ar gyfer ymchwiliad i'r farchnad er mwyn helpu i sicrhau bod defnyddwyr yn y DU yn cael dewis gwell o wasanaethau rhyngrwyd symudol fel y gall datblygwyr yn y DU fuddsoddi mewn apiau newydd arloesol. O ystyried pwysigrwydd y dyfarniad i farchnadoedd digidol a'r gyfundrefn marchnadoedd yn fwy cyffredinol, rydym yn apelio yn erbyn penderfyniad y Tribiwnlys i'r Llys Apêl. Gallwch ddarllen y wybodaeth ddiweddaraf ar dudalen achosion y CMA.

## *Astudiaeth achos: Gwaith y CMA ar algorithmau drwy'r Fforwm Cydweithredu Rheoliadau Digidol*

Mae gwasanaethau digidol wedi cael effeithiau pellgyrhaeddol ar y ffyrdd y mae pobl yn byw eu bywydau a'r ffordd y mae busnesau'n gweithredu, ac maent wedi cael cryn effeithiau ar yr economi. Mae rheoleiddwyr, gan gynnwys y CMA, wedi bod yn ceisio dal i fyny â'r datblygiadau hynny ac mae consensws cynyddol ar yr angen i reoliadau fod yn gydlynus ac yn gydgysylltiedig er mwyn iddynt fod yn effeithiol. Fel un o reoleiddwyr y DU sy'n gyfrifol am reoleiddio agweddau gwahanol ar wasanaethau digidol, mae'r CMA wedi bod yn rhan flaenllaw o'r gwaith i helpu'r DU i arwain y ffordd ar reoleiddio digidol cydgysylltiedig.

Mae rôl y CMA fel un o aelodau'r Fforwm Cydweithredu Rheoliadau Digidol, ynghyd â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, y Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom) a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol wedi helpu i gyflawni model sy'n ceisio hyrwyddo economi digidol sydd o blaid twf ac sy'n croesawu arloesedd, gan ddiogelu pobl rhag amrywiaeth o niweidiau ar-lein a hyrwyddo cystadleuaeth. Mae dull gweithredu o'r fath yn galluogi busnesau i barhau â mwy o sicrwydd ynghyd â sicrhau y gall pobl fod yn hyderus bod eu buddiannau'n cael eu diogelu.

Mae gwaith y Fforwm ar algorithmau – y prosesau awtomataidd sy'n casglu ac yn prosesu data – yn dangos y gwaith sylfaenol y mae'r Fforwm yn ei wneud yn y maes hwn. Roedd uned Data, Technoleg a Dadansoddeg (DaTA) y CMA wedi gwneud gwaith yn flaenorol yn nodi buddiannau a niweidiau posibl defnyddio algorithmau i gystadleuaeth a defnyddwyr. Mae ffrwd gwaith 'Algorithmic Processing' y Fforwm wedi ceisio adeiladu ar y gwaith hwnnw dros y flwyddyn ddiwethaf. Ym mis Medi 2022,

cyhoeddodd y Fforwm ddau bapur trafod ar fuddiannau a niweidiau algorithmau ac archwilio algorithmau, gan edrych ar y sefyllfa bresennol, rôl rheoleiddwyr a'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol. Mae'r rhain yn nodi safbwynt a rennir gan y pedwar rheoleiddiwr digidol, gyda'r nod o annog trafodaeth â rhanddeiliaid yn y maes hwn.

Mae'r papurau hyn yn cydnabod y buddiannau niferus i unigolion a chymdeithas y mae prosesu algorithmig yn ei gyflawni, ac yn cydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â phrosesu o'r fath. Mae nodweddion fel y gallu i nodi gweithgarwch bancio twyllodrus posibl drwy ddysgu peirianyddol neu gyfieithu testun i ieithoedd gwahanol ar gyffyrddiad botwm yn amlwg yn werthfawr iawn. Ar yr un pryd, gall prosesu algorithmig achosi niwed. Er enghraifft, gall waethygu tuedd niweidiol sy'n arwain at benderfyniadau gwahaniaethol neu ganlyniadau annheg, a gellir ei ddefnyddio i gamarwain defnyddwyr a gwyrdroi cystadleuaeth. Mae gwaith y Fforwm yn y maes hwn yn awgrymu, er y gellir defnyddio algorithmau mewn modd maleisus, y gall llawer o'r niwed sy'n deillio o'u defnydd fod yn esgeulus, efallai wedi'i achosi gan ddiffyg dealltwriaeth ar ran y rheini sy'n defnyddio systemau o'r fath. Mae'r papurau hefyd yn nodi camau pendant y gellir eu cymryd i fynd i'r afael â'r risgiau hynny, fel tryloywder cynyddol ar sut mae algorithmau penodol yn gweithio a galluogi prosesau o'r fath i gael eu harchwilio'n annibynnol.

Yn y pen draw, gall pobl, busnesau ac economi'r DU gael budd o arloesedd cyfrifol parhaus ym maes prosesu algorithmig. Mae gwaith y Fforwm yn y maes hwn wedi helpu i sicrhau bod gan fusnesau ddealltwriaeth fwy cynhwysfawr o gyfrifoldebau rheoleiddiol eu haelodau, gan eu galluogi i ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau sy'n cydymffurfio'n gyflym gyda mwy o hyder. Mae'r dull a ddefnyddiwyd gan y Fforwm wedi gosod sylfeini pwysig ar gyfer cydweithrediad a deialog pellach rhwng rheoleiddwyr, busnesau a defnyddwyr terfynol ac mae eisoes yn cael ei efelychu mewn mannau eraill ledled y byd. Mae'n dangos nad oes angen dewis rhwng cyflwyno technoleg arloesol a phwerus ar un llaw; a diogelu buddiannau defnyddwyr ar y llaw arall. Mae profiad yn awgrymu y gall y ddau atgyfnerthu ei gilydd, gyda gallu cynhyrchion a gwasanaethau i ennyn hyder ac ymddiriedaeth defnyddwyr gan sicrhau mantais gystadleuol bosibl.

## Cefnogi'r broses o drawsnewid i dwf carbon isel, gan gynnwys drwy ddatblygu marchnadoedd cystadleuol iach mewn cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy

Y newid yn yr hinsawdd yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu ein cymdeithas. Mae gan y CMA ran bwysig i'w chwarae, yn cynnwys drwy helpu i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth y DU i gyflawni economi sero net erbyn 2050. Gwnaethom barhau i wneud cynnydd yn y maes hwn dros y flwyddyn ddiwethaf, gan esbonio ymhellach gwmpas y rôl y mae'r CMA yn y sefyllfa orau i'w chwarae ac i gymryd camau pan fo'n briodol.

Mae ein blaenoriaethau tymor canolig o dan ein strategaeth ddiwygiedig yn cynnwys helpu i gyflymu proses y DU o drawsnewid yn economi sero net, a helpu sectorau sy'n dod i'r amlwg (fel mathau cynaliadwy ac ecogyfeillgar o ddefnyddio ynni) i ddatblygu'n farchnadoedd arloesol a chystadleuol â thwf uchel. Gosododd y gwaith a wnaethom yn 2022/23 y sylfeini ar gyfer cynnydd pellach yn y flwyddyn i ddod a thu hwnt.

Mae ein gwaith yn y maes hwn dros y flwyddyn ddiwethaf wedi'i gynnwys mewn un o dri maes eang, sef:

1. Helpu i sicrhau bod marchnadoedd ar gyfer cynhyrchion neu wasanaethau cynaliadwy yn datblygu mewn ffyrdd sy'n ffafriol i gystadleuaeth a defnyddwyr.
2. Helpu i sicrhau y gall defnyddwyr wneud dewisiadau hyddysg am effaith y nwyddau a'r gwasanaethau a ddefnyddir ganddynt ar yr amgylchedd.

3. Galluogi busnesau i ymgymryd â mentrau cynaliadwyedd amgylcheddol, gan gynnwys drwy gydweithrediad dilys.

*Helpu i sicrhau bod marchnadoedd ar gyfer cynhyrchion neu wasanaethau cynaliadwy yn datblygu mewn ffyrdd sy'n ffafriol i gystadleuaeth a defnyddwyr*

Mae ein gwaith ar wres gwyrdd ac inswleiddio yn enghraifft o'n gweithgarwch yn y maes hwn. Mae gwresogi cartrefi yn cyfrif am bron i un rhan o bump (17%) o allyriadau carbon y DU[1]. Felly, bydd newid i gynhyrchion gwresogi cartref gwyrdd (fel pympiau gwres, paneli solar a boeleri biomas) ac inswleiddio cartrefi yn hanfodol er mwyn helpu i gyflawni sero net. Bydd y cynhyrchion hyn yn helpu pobl i wresogi eu cartrefi mewn ffyrdd sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol ac yn fwy ynni effeithlon. Gall cynhyrchion gwres gwyrdd ac inswleiddio hefyd fod yn opsiwn apelgar yng nghyd-destun costau byw cynyddol a biliau ynni uchel. Fodd bynnag, heb hyder gan ddefnyddwyr yn sector hwn, mae risg y bydd pobl yn penderfynu peidio â phrynu'r cynhyrchion hyn ac y bydd y cynnydd tuag at sero net yn arafu. Ymhellach, mae angen ymgysylltu â defnyddwyr er mwyn ysgogi cystadleuaeth effeithiol rhwng busnesau yn y sector, sy'n annog mwy o arloesedd a gwell canlyniadau i ddefnyddwyr. Felly, mae'n hanfodol bod pobl sy'n prynu cynhyrchion gwres gwyrdd ac inswleiddio yn gallu ymddiried mewn busnesau i'w trin yn deg ac yn gwybod eu bod wedi'u diogelu rhag arferion busnes niweidiol.

Yn erbyn y cefndir hwn, lansiodd y CMA alwad am wybodaeth ym mis Medi 2022 gan edrych ar ddiogelwch defnyddwyr yn y sector gwres gwyrdd ac inswleiddio yn y DU. Gwnaethom geisio nodi unrhyw broblemau sy'n bodoli, ynghyd â phroblemau a allai godi wrth i'r sector ddatblygu. Gwnaethom gasglu gwybodaeth yn uniongyrchol gan gannoedd o bobl drwy holiaduron a gan fusnesau a chyrff masnach. Gwnaethom hefyd ymgysylltu â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys grwpiau cynrychiolwyr defnyddwyr a gorfodwyr eraill, i lywio ein hadolygiad.

Er y gwnaethom ganfod tystiolaeth o fuddiannau i ddefnyddwyr, gwnaethom nodi pryderon yn y tair thema a ystyriwyd (profiad pobl o brynu'r cynhyrchion hyn, arferion busnes a chynlluniau sicrwydd ansawdd), gan gynnwys:

- Pryderon bod pobl yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r wybodaeth gywir wrth siopa am gynhyrchion gwresogi cartref neu asesu a yw busnes yn ddibynadwy.
- Pryderon bod honiadau camarweiniol posibl yn cael eu gwneud gan rai busnesau a 'gwyrddgalchu' (honiadau ffug neu a gaiff eu gorbwysleisio am rinweddau amgylcheddol cynnyrch).
- Dryswch ynghylch y cyrff sy'n goruchwylio safonau diogelu ansawdd a defnyddwyr ym mhob rhan o'r sector, a meysydd lle gellid atgyfnerthu'r mesurau diogelwch hyn ar gyfer defnyddwyr.

Mae'n hanfodol yr eir i'r afael â'r pryderon hyn yn gynnar cyn iddynt fynd yn sefydledig wrth i'r sector dyfu.

I wneud hyn, rydym wedi cymryd sawl cam gweithredu ein hunain, gan gynnwys cyhoeddi canllaw byr i helpu pobl sy'n ystyried prynu'r cynhyrchion hyn a llunio cyfres o egwyddorion arfer da ar gyfer cyrff safonau i helpu i godi lefel y diogelwch i bobl sy'n prynu cynnyrch gan fusnes sy'n aelod. Bydd y CMA hefyd yn gwneud rhagor o waith ar honiadau camarweiniol yn y sector, gan gynnwys rhoi arweiniad i fusnesau.

Ar wahân, rydym wedi llunio argymhellion ar gyfer y sector – busnesau a chyrff safonau yn benodol – ac ar gyfer llywodraethau ledled y DU, i helpu i sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn deg ac yn cael eu diogelu. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r cyrff hyn er mwyn helpu i ddatblygu'r camau gweithredu hyn.

*Helpu i sicrhau y gall defnyddwyr wneud dewisiadau hyddysg am effaith y nwyddau a'r gwasanaethau a ddefnyddir ganddynt ar yr amgylchedd*

[1] Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd (2022) Progress in reducing emissions 2022.

Mae pobl yn gynyddol ymwybodol o effeithiau amgylcheddol y nwyddau a'r gwasanaethau a ddefnyddir ganddynt. Mewn sawl achos, mae pobl yn barod i dalu premiwm am nwyddau a gwasanaethau sy'n gadael llai o ôl troed carbon. Gall cynhyrchion ailgylchadwy a chynaliadwy chwarae rôl yn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ond dim ond os ydynt yn rhai dilys ac y gall pobl wneud dewisiadau hyddysg yn seiliedig ar honiadau dibynadwy. I'r perwyl hwnnw, mae'r CMA wedi cyhoeddi Cod Hawliadau Gwyrdd gyda'r nod o helpu busnesau i gyfleu eu rhinweddau gwyrdd yn gywir i siopwyr mewn modd gonest a thryloyw. Mae'r canllawiau'n nodi egwyddorion, fel gofyniad bod yn rhaid i honiadau fod yn onest ac yn gywir a bod yn rhaid ystyried cylch oes llawn y cynnyrch neu'r gwasanaeth. Pan gyflwynodd y CMA ei God Hawliadau Gwyrdd, esboniodd y byddai'n craffu ar ymddygiad cwmnïau ac yn ystyried cymryd camau gorfodi yn erbyn busnesau yr amheuir nad ydynt yn bodloni'r gofynion cyfreithiol a nodir yn y Cod.

O ganlyniad i'r gwaith craffu hwnnw, ym mis Gorffennaf 2022, gwnaethom gyhoeddi y byddem yn ymchwilio i honiadau eco-gyfeillgar a chynaliadwyedd a wnaed gan ASOS, Boohoo a George at Asda am eu cynhyrchion ffasiwn, gan gynnwys dillad, esgidiau ac ategolion. Mae ein hymchwiliad yn ystyried a yw'r datganiadau a'r iaith a ddefnyddir gan y busnesau yn rhy eang neu amwys, ac a allent greu'r argraff bod casgliadau dillad – fel y 'Responsible edit' gan ASOS, ystod 'Ready for the Future' presennol Boohoo, a 'George for Good' – yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol nag y maent mewn gwirionedd. Gall y meini prawf a ddefnyddir gan rai o'r busnesau hyn i benderfynu pa gynhyrchion i'w cynnwys yn y casgliadau hyn hefyd fod yn llai beichus nag y byddai cwsmeriaid yn ei ddisgwyl yn rhesymol o'u disgrifiadau a'u cyflwyniad cyffredinol. Ym mis Ionawr 2023, gwnaethom gyhoeddi ein bod yn ehangu cwmpas ein gwaith yn y maes hwn i ystyried hanfodion cartref fel bwyd, diod a nwyddau ymolchi. Mae ein pryderon yn cynnwys y defnydd posibl o ecoddatganiadau amwys ac eang, er enghraifft pecynnu neu farchnata cynnyrch fel ei fod yn 'gynaliadwy' neu'n 'well' i'r amgylchedd heb unrhyw dystiolaeth. Rydym hefyd yn pryderu y gallai'r defnydd o ddeunyddiau naturiol neu wedi'u hailgylchu mewn cynnyrch a pha mor ailgylchadwy ydyw, a bod ystodau cyfan yn cael eu brandio'n 'gynaliadwy' ar gam fod yn gamarweiniol. Mae ein hymchwiliadau'n parhau, a byddwn yn ystyried yr holl dystiolaeth â meddwl agored er mwyn llunio barn ar b'un a yw busnesau'n cydymffurfio â chyfraith defnyddwyr.

Mae gwaith y CMA yn y maes hwn yn dangos ein hymrwymiad i fabwysiadu dull gweithredu integredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a sut y gall defnyddio cyfuniad o adnoddau ein helpu i sicrhau canlyniadau da i bobl, busnesau a'r economi yn y DU. Yn yr achos hwn, arweiniodd proses i godi ymwybyddiaeth ac eiriolaeth at sylfaen gref i ymgymryd â rhagor o waith gan ddefnyddio ein pwerau mwy ffurfiol.

*Galluogi busnesau i ymgymryd â mentrau cynaliadwyedd amgylcheddol, gan gynnwys drwy gydweithrediad dilys*

Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd y CMA gyngor ar sut y gall cyfreithiau cystadleuaeth a defnyddwyr helpu i gyflawni nodau amgylcheddol y DU ac amlinellodd gynlluniau ar gyfer sefydlu Tasglu Cynaliadwyedd. Canfu ein cyngor y byddai cael mwy o eglurder ynghylch beth sy'n gyfreithiol ai peidio, yn helpu cwmnïau i weithio tuag at nodau cynaliadwyedd heb boeni eu bod yn torri'r gyfraith wrth wneud hynny. Er bod y CMA wedi canfod ei bod yn bosibl i gwmnïau gydweithio i leddfu effaith amgylcheddol eu sector, er enghraifft drwy rannu adnoddau neu arbenigedd, heb dorri rheolau cystadleuaeth, nododd y dystiolaeth bod rhai busnesau yn ansicr ynghylch sut i fynd i'r afael â hyn ac y gallai hyn cael effaith ymatal ar y broses o negodi cytundebau a allai helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Ym mis Chwefror 2023, lansiodd y CMA ymgynghoriad ar ganllawiau drafft a gynlluniwyd i helpu cwmnïau i gydweithio tuag at nodau cynaliadwyedd amgylcheddol heb gael eu rhwystro'n ormodol gan bryderon ynghylch torri cyfraith cystadleuaeth yn anfwriadol – ceir rhagor o fanylion yn yr astudiaeth achos isod.

### *Astudiaeth achos: Canllawiau drafft ar gytundebau cynaliadwyedd amgylcheddol*

Ym mis Chwefror 2023, gwnaethom lansio ymgynghoriad ar ganllawiau drafft sydd â'r nod o roi eglurder ar ba fathau o gytundebau sydd â'r nod o hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol sydd y tu hwnt i gwmpas cyfraith cystadleuaeth yn gyfan gwbl, a pha gytundebau sy'n debygol o fod o fewn cwmpas cyfraith cystadleuaeth heb godi pryderon.

Mae'r canllawiau drafft hefyd yn amlinellu'r amgylchiadau lle gall cytundebau gyfyngu ar gystadleuaeth ond cael budd o fod wedi'u heithrio o gyfraith cystadleuaeth am fod y buddiannau amgylcheddol a gyflawnir ganddynt yn drech nag unrhyw gyfyngiad ar gystadleuaeth. Yn benodol, wrth asesu a all cytundebau sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd fod wedi'u heithrio o gyfraith cystadleuaeth, credwn ei bod yn briodol ystyried y buddiannau llawn i gymdeithas yn y DU sy'n deillio o'r cytundeb, nid dim ond y buddiannau i'r defnyddwyr hynny y mae'r cytundeb yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. Rydym yn ystyried bod hyn yn cael ei gyfiawnhau gan y ffaith bod y newid yn yr hinsawdd yn cynrychioli categori arbennig o fygythiad: mae graddau'r risg y mae'r newid yn yr hinsawdd yn ei chynrychioli, graddau pryder y cyhoedd yn ei chylch, a'r ymrwymiadau cenedlaethol a rhyngwladol cyfrwymol y mae llywodraethau olynol y DU wedi ymgymryd â nhw yn ei wneud yn unigryw.

Mae'r canllawiau drafft yn nodi bwriad y CMA i weithredu polisi ‘drws agored’ i alluogi busnesau i geisio arweiniad anffurfiol gan y CMA ar gyfreithlondeb cytundebau sydd â'r nod o hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Mae bwriad y CMA i adlunio ei arferion, o ran y ffordd y mae'n asesu buddiannau cytundebau newid yn yr hinsawdd a'i bolisi ‘drws agored’ i roi cyngor i fusnesau ar gytundebau unigol sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, yn tanlinellu cryfder ein hymrwymiad i gefnogi'r broses o symud i dwf carbon isel, er budd pobl, busnesau ac economi'r DU.

## Cyflawni ein cyfrifoldebau newydd ac atgyfnerthu ein sefyllfa fel awdurdod cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr byd-eang

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r CMA wedi parhau i ymgorffori ei gyfrifoldebau newydd mewn perthynas â marchnad fewnol y DU a chyngor ar gymorthdaliadau, ynghyd â pharatoi i ymgymryd â phwerau newydd, yn benodol mewn perthynas â marchnadoedd digidol.

Mae Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn cefnogi gweithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU. Mae'n cyfrannu at weithrediad effeithiol y farchnad drwy gynnal asesiadau annibynnol o effaith unrhyw wahaniaethau mewn rheolau a rheoliadau rhwng Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Y llywodraethau fydd yn penderfynu beth i'w wneud, gan roi sylw i ystyriaethau polisi ehangach. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cyhoeddodd Swyddfa'r Farchnad Fewnol ei hadroddiad cyfnodol cyntaf ar weithrediad cyfundrefn marchnad fewnol y DU a'i hadroddiad blynyddol cyntaf ar weithrediad marchnad fewnol y DU, ynghyd â map ffordd strategaeth data. Dyma'r tro cyntaf i adolygiad systemataidd o'r farchnad fewnol gael ei gynnal ers i'r DU adael yr UE. Bydd strategaeth data Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn helpu i gydlynu a gwella'r data sydd ar gael ar farchnad fewnol y DU dros amser. Cyhoeddodd Swyddfa'r Farchnad Fewnol hefyd ei hadroddiad cyntaf mewn ymateb i gais gan y llywodraeth.

Mae ein Huned Cyngor ar Gymorthdaliadau yn chwarae rhan bwysig yng nghyfundrefn rheoli cymorthdaliadau'r DU drwy werthuso asesiadau o'r cymorthdaliadau yr ystyrir eu bod fwyaf tebygol o wyrdroi cystadleuaeth a rhoi cyngor arbenigol i'r awdurdod cyhoeddus. Ymgymerodd â'i phwerau

statudol ym mis Ionawr 2023. Mae bellach yn gwbl weithredol a dechreuodd ystyried atgyfeiriadau yn ystod chwarter olaf y flwyddyn adrodd.

Gallwch ddarllen mwy am y ddwy swyddogaeth hyn isod.

## *PROFFIL: Swyddfa'r Farchnad Fewnol*

Gan fod y DU wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae mwy o gyfle i bob un o lywodraethau'r DU fabwysiadu dulliau gweithredu gwahanol i'r rheolau a'r rheoliadau sy'n effeithio ar nwyddau, gwasanaethau a chymwysterau proffesiynol. Gall hyn effeithio ar arferion masnachu rhwng Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (marchnad fewnol y DU).

Os caiff rheolau gwahanol eu cyflwyno mewn rhannau gwahanol o'r DU, gallai ei gwneud yn anoddach i'r farchnad fewnol weithio'n dda. Gallai hyn olygu, er enghraifft, y bydd busnesau'n ei chael hi'n anoddach gwerthu'n rhydd ledled y DU gyfan, gan gynyddu costau a lleihau'r dewis i ddefnyddwyr o bosibl.

Mae Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn cynnal asesiadau annibynnol o effaith unrhyw wahaniaethau yn y rheolau a'r rheoliadau ar y farchnad fewnol, gan gymhwyso arbenigedd economaidd ac arbenigedd technegol arall i roi cyngor i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. Y llywodraethau fydd yn penderfynu beth i'w wneud, gan roi sylw i ystyriaethau polisi ehangach.

Er bod Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn rhan o'r CMA, mae ganddi ei phanel ei hun, dan gadeiryddiaeth Murdoch MacLennan. Rydym yn disgwyl y caiff rhagor o aelodau'r panel, ag amrywiaeth o gefndiroedd ac arbenigedd, eu penodi maes o law. Mae presenoldeb y panel yn adlewyrchu rôl Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn rhoi cyngor arbenigol mewn ffordd deg a diduedd i holl awdurdodau cenedlaethol perthnasol ledled y DU.

Cafwyd carreg filltir ym mis Chwefror 2023 pan gyhoeddodd Swyddfa'r Farchnad Fewnol ei hadroddiad cyntaf i'r modd y gall gwaharddiad arfaethedig yr Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar werthu mawn garddwriaethol yn Lloegr effeithio ar weithrediad effeithiol y farchnad fewnol. Defnyddir mawn garddwriaethol yn bennaf mewn gwrtaith amlbwrpas, marchnad sydd werth tua £400m yn y DU. Nod y gwaharddiad arfaethedig yw mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd drwy ddiogelu mawnogydd sy'n ffynhonnell bwysig o garbon. Gall pob un o'r pedair llywodraeth yn y DU ddatblygu ei dull gweithredu ei hun i werthu mawn gan fod hwn yn fater polisi datganoledig.

Daeth adroddiad Swyddfa'r Farchnad Fewnol i'r casgliad, ers i'r gwaharddiad gael ei gyflwyno, y gallai rhai mathau o gompost sy'n seiliedig ar fawn gael eu mewnforio i Loegr o hyd ac y gallai hynny effeithio ar rai busnesau yn Lloegr na fyddent yn gallu cystadlu â chynnyrch sy'n seiliedig ar fawn eu hunain am fod y gwaharddiad yn gymwys iddyn nhw ond nid i'w cystadleuwyr yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Er hyn, daeth i'r casgliad na fyddai'r effeithiau hyn yn debygol o fod yn sylweddol yng nghyd-destun masnachu cyffredinol ar y farchnad fewnol, ar yr amod bod cyflenwad digonol o gynhyrchion nad ydynt yn cynnwys mawn.

## *Proffil: Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau*

Gall awdurdodau cyhoeddus fel adrannau llywodraethol neu gynghorau lleol roi cymorth i fusnesau, boed ar ffurf grantiau, benthyciadau neu gredydau treth, er mwyn cyflawni blaenoriaethau polisi cyhoeddus pwysig fel ffyniant bro a chyflawni sero net. Cyn i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, byddai cymorthdaliadau o'r fath yn cael eu hasesu gan y Comisiwn Ewropeaidd, ond Llywodraeth y DU sydd bellach yn rheoli cymorthdaliadau. Mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus asesu i ba raddau y mae eu

cymorthdaliadau neu eu cynllun cymorthdaliadau yn cydymffurfio ag egwyddorion, a nodir yn y gyfraith, sydd â'r nod o osgoi gwyrdroi cystadleuaeth.

Mae'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau yn chwarae rhan bwysig yng nghyfundrefn rheoli cymorthdaliadau'r DU drwy werthuso asesiadau o'r cymorthdaliadau hynny yr ystyrir eu bod fwyaf tebygol o wyrdroi cystadleuaeth a rhoi cyngor arbenigol i'r awdurdod cyhoeddus. Mae gan yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau hefyd swyddogaeth monitro a bydd yn adrodd ar weithrediad effeithiol y gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau.

Daeth pwerau'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau yn weithredol ar 4 Ionawr 2023. Yn ystod tri mis cyntaf ei gweithrediad, mae wedi cael atgyfeiriadau gan awdurdodau cyhoeddus sy'n cwmpasu ystod eang o feysydd o ynni, i fynediad i'r celfyddydau, i ddarparu tai i ffoaduriaid.

Ar gyfer y cymorthdaliadau mwyaf, neu'r rheini mewn sectorau sensitif penodol, mae'n ofynnol i awdurdod cyhoeddus geisio cyngor yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau. Mae ail gategori o gymhorthdal lle gall awdurdod ddewis p'un a yw am geisio cyngor. Ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023, cafodd yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau bedwar atgyfeiriad gorfodol ac ni chafodd unrhyw atgyfeiriadau gwirfoddol. Cyhoeddodd ei hadroddiad cyntaf ym mis Chwefror 2023, ynghylch cynllun Contractau ar gyfer Gwahaniaeth yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net.

Mewn perthynas â marchnadoedd digidol, gwnaethom barhau i weithredoli'r Uned Marchnadoedd Digidol ar ffurf gysgodol wrth i ni aros i ddeddfwriaeth fynd drwy'r Senedd i roi'r pwerau sydd ei hangen arni i oruchwylio cyfundrefn marchnadoedd digidol newydd sydd o blaid cystadleuaeth. Buom yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar yr ymgynghoriad ar ddiwygio cyfundrefn cystadleuaeth a defnyddwyr y DU a'r gwaith dilynol yn arwain at y Bil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr.

## *Proffil: Y Bil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr*

Mae gan y ddeddfwriaeth hon y posibilrwydd o fod yn drobwynt yn y ffordd rydym yn sicrhau bod marchnadoedd digidol yn gweithio i economi'r DU, gan gefnogi twf economaidd, buddsoddiad ac arloesedd.

Pan ddaw i rym, bydd yn sefydlu cyfundrefn newydd wedi'i thargedu ar gyfer yr oes ddigidol, a gaiff ei goruchwylio o fewn y CMA gan yr Uned Marchnadoedd Digidol. Bydd yn defnyddio dull cymesur o ddwyn cwmnïau digidol i gyfrif am eu gweithredoedd, gan alluogi busnesau arloesol i gystadlu'n deg. Bydd yn pennu rheolau a fydd yn atal cwmnïau â ‘Statws Marchnad Strategol’ rhag defnyddio eu maint a'u pŵer i gyfyngu ar arloesedd digidol neu fynediad i'r farchnad – gan sicrhau bod y DU yn parhau i fod yn lle deniadol i fuddsoddi a gwneud busnes ynddo i bawb.

Bydd elfennau eraill y ddeddfwriaeth yn atgyfnerthu ein pwerau mewn perthynas â chyfraith diogelu defnyddwyr a chystadleuaeth. Bydd yn grymuso'r CMA i benderfynu pan fydd cyfraith defnyddwyr wedi'i thorri, yn hytrach na gorfod mynd â phob achos i'r llys. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y caiff pobl eu diogelu'n gyflymach, ac na fydd cwmnïau sy'n gweithredu'n deg dan anfantais. Bydd y ddeddfwriaeth hefyd yn galluogi'r CMA i godi dirwy o hyd at 10% o drosiant byd-eang busnesau sy'n torri'r gyfraith.

Mewn perthynas â chyfraith cystadleuaeth, bydd y ddeddfwriaeth yn darparu pwerau ymchwiliadol a gorfodi cryfach a fydd yn golygu y gall y CMA gynnal ymchwiliadau cyflymach a mwy hyblyg i gystadleuaeth, sy'n nodi ac yn atal ymddygiad gwrthgystadleuol anghyfreithlon yn gyflymach. Bydd newidiadau i'r fframwaith cystadleuaeth – gan gynnwys diweddaru trothwyon uno a dirwyo – yn ei

gwneud yn haws i'r CMA gymryd camau gweithredu yn erbyn prosesau uno sy'n niweidio defnyddwyr a busnesau yn y DU. Bydd newidiadau o'r fath yn galluogi'r CMA i barhau i ddiogelu a hyrwyddo marchnadoedd agored a rhydd, gan annog cwmnïau i arloesi a dod â mwy o gynhyrchion i'r farchnad, gan roi mwy o ddewis i gwsmeriaid a chreu sylfaen cryf ar gyfer twf economaidd.

Rydym yn cefnogi'r Bil wrth iddo basio drwy'r broses ddeddfwriaethol a byddwn yn barod i ddefnyddio'r pwerau newydd hyn pan ddaw'r ddeddfwriaeth yn weithredol.

Yn y cyfamser, rydym eisoes wedi dechrau paratoi ar gyfer y gyfundrefn newydd drwy weithredoli'r Uned Marchnadoedd Digidol a datblygu ei galluoedd a'i harbenigedd, gan gynnwys drwy ymgymryd â gwaith achos o dan bwerau cyfraith cystadleuaeth presennol y CMA, y gallwch ddarllen amdanynt mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn.

*Atgyfnerthu ein sefyllfa fel awdurdod cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr byd-eang*

Chwaraeodd y CMA rôl amlwg yn llywio prosesau llunio polisïau a thrafodaethau cyhoeddus yn y DU. Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw ymgysylltu eang i gynyddu ein perthnasedd a'n heffaith i'r eithaf mewn byd newidiol.

Ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2022, gwnaethom gynnal adolygiad cyflym o'r sector tanwydd ffordd ar gais Llywodraeth y DU gan nodi pryderon y gwnaethom ymchwilio iddynt fel rhan o'n hastudiaeth o'r farchnad tanwydd ffordd.

Gwnaethom roi cyngor i Lywodraeth y DU ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys diwygio'r diwydiant rheilffordd, y strategaeth bysiau genedlaethol a chapiau ar brisiau tocynnau, cyflwyno proses ddosbarthu 'prif ganolfan a lloerennau' i fferyllfeydd, adeiladu sicrwydd ar lety mewn adeiladau uchel, adeiladu cartrefi, a chadwyni cyflenwi rhyngwladol.

Gwnaethom hefyd roi cyngor i lywodraethau datganoledig ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys masnachfreinio bysiau, polisi gwisg ysgol a chynlluniau dychwelyd blaendal. Gwnaethom drefnu dau ddigwyddiad bord gron yng Nghaeredin gyda rhanddeiliaid yn yr Alban fel rhan o ymweliad Bwrdd y CMA ym mis Mai, i hyrwyddo rôl a pherthnasedd swyddogaethau'r CMA yn yr Alban. Yng Nghymru, gwnaethom sefydlu ac arwain cyfarfod cyntaf Rhwydwaith Rheoleiddwyr Cymru. Gwnaethom fanteisio ar y ffaith bod gennym swyddfeydd yn Darlington a Manceinion Fwyaf bellach i ehangu ein prosesau ymgysylltu â rhanddeiliaid rhanbarthol ledled gogledd Lloegr, gan gynnwys cynnal digwyddiad bord gron â Siambr Masnach Manceinion Fwyaf er mwyn llywio ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023/24. Yn ogystal â'r digwyddiad ym Manceinion, clywsom gan randdeiliaid mewn digwyddiadau yr aeth aelodau ein Bwrdd iddynt yng Nghaerdydd, Belfast a Chaeredin fel rhan o ymgynghoriad eang ar ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2022/23.

Yn ogystal â rhoi cyngor i lywodraethau ar amrywiaeth o faterion, mae aelodau seneddol wedi craffu ar ein gwaith. Rydym yn ymgysylltu'n barhaus â Phwyllgor Dethol yr Adran Busnes a Masnach (yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol gynt), ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cadeirydd a'r clercod ar gyhoeddiadau a all fod o ddiddordeb iddynt. Ar lefel fwy ffurfiol, ym mis Ionawr 2023, gwnaethom anfon ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar Gymorth Gwladwriaethol a Pholisi Cystadleuaeth ar ôl Brexit, ar ôl ymddangos gerbron y pwyllgor yn y flwyddyn flaenorol. Yn ei adroddiad, roedd y Pwyllgor yn canmol gwaith a staff y CMA, a nododd ei enw da cryf.

Ymysg y pwyllgorau eraill y gwnaethom ymgysylltu â nhw y flwyddyn hon mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar reoleiddio ar ôl gadael yr UE a'r Pwyllgor Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ddylanwadwyr cyfryngau cymdeithasol. Rydym hefyd wedi ymgysylltu'n fwy anffurfiol â'r Pwyllgor Iechyd

a Gofal Cymdeithasol, er enghraifft ar ein gwaith sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr IVF, a Phwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar faterion yn ymwneud â phrisiau bwyd, fel prisiau unedau.

Buom hefyd yn trafod y camau y bydd llywodraethau'n eu cymryd mewn ymateb i argymhellion astudiaeth y CMA ar y farchnad, fel ein hastudiaeth o'r farchnad ar Ofal Cymdeithasol i Blant. Derbyniodd yr Adran Addysg yr holl argymhellion a wnaed gan y CMA i fynd i'r afael â phryderon yn Lloegr ynghylch y prinder lle sydd ar gael mewn cartrefi plant a gyda gofalwyr maeth a phrisiau uchel. Roedd y rhain yn cynnwys datblygu cyrff rhanbarthol i gefnogi awdurdodau lleol i gael lleoliadau addas a chyflwyno cyfundrefn goruchwylio ariannol. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban i symud oddi wrth y model darpariaeth er elw mewn gofal cymdeithasol i blant.

We sought to deepen our insight into issues across the UK economy through engagement with third sector organisations as part of our Getting Closer to the Third Sector project, hearing from a wider variety of third sector organisations and, through them, the consumers they interact with. Our areas of focus include race, poverty and inequality, climate change, and mental health and well-being. This year we have further expanded the project to include the experiences of children and younger people, and older people. We will continue to develop these important stakeholder relationships and use the insight from the third sector organisations we engage with to help inform our prioritisation of our casework. We will use the network of contacts we have established through this work in the third sector to understand more about how the rising cost of living is impacting consumers and how that might be able to inform our work in consumer protection and competition more generally.

Buom hefyd yn cydweithio'n agos â Cyngor ar Bopeth i ddatblygu rhaglen ymweld â chanolfannau cyswllt cyngor i ddefnyddwyr, fel bod staff y CMA yn cael dealltwriaeth well o brofiad y defnyddiwr, yn enwedig pan aiff pethau o chwith. Cynhaliwyd naw ymweliad yn 2022/23, gan alluogi mwy na 50 o aelodau o staff y CMA i gymryd rhan. Mae wyth ymweliad arall wedi'u cynllunio ar gyfer 2023/24, ynghyd â rhaglen ategol o hyfforddiant mewn swydd, gyda'r nod o gynnig profiad tebyg i amrywiaeth ehangach o staff y CMA.

Mae ein gwaith i hyrwyddo cydymffurfiaeth wedi cynyddu'n sylweddol ers i gyfyngiadau COVID-19 ddod i ben. Gwnaethom gynnal mwy nag 20 o ddigwyddiadau gyda thimau caffael yn y sector cyhoeddus i adeiladu adnoddau a gallu i ganfod achosion o rigio cynigion ac ymddygiad gwrthgystadleuol arall. Ymysg y gweithgarwch cydymffurfiaeth sylweddol eraill mae naw honiad gwyrdd camarweiniol ac ymgysylltu â'r sectorau adeiladu, llwythi ffordd a manwerthu.

Mae'r CMA hefyd wedi parhau i gydweithio'n agos â rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys y rheoleiddwyr sector y mae'n rhannu pwerau gorfodi cyfraith cystadleuaeth â nhw o dan gyfundrefn gydredol y DU. Er mwyn cynnal ein hymchwiliad i'r farchnad ar Airwave bu'n rhaid i ni gydweithio â'r Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom), sy'n rheoleiddio'r gwasanaethau a'r rhwydweithiau a gwmpesir gan ein hymchwiliad. Gwnaethom hefyd barhau i gydweithio â Thrysorlys EF, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Rheoleiddiwr Systemau Talu mewn perthynas â sefydlu'r Cydbwyllgor Goruchwyliaeth Reoleiddiol sy'n goruchwylio'r broses o ddatblygu Bancio Agored yn dilyn rhwymedïau Bancio Agored y CMA. Rydym hefyd yn cydweithio'n eang â rheoleiddwyr eraill drwy Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU a Rhwydwaith Cystadleuaeth y DU.

Ym mis Ebrill 2022, gwnaethom gyhoeddi ail fersiwn ein hadroddiad ar Y Sefyllfa o ran Cystadleuaeth yn y DU, sy'n archwilio i ba raddau y mae cystadleuaeth yn gweithio ym mhob rhan o economi'r DU. Canfu'r adroddiad fod marchnadoedd y DU yn dod yn fwy crynodedig, bod busnesau'n codi prisiau uwch a bod y cwmnïau mwyaf yn cynnal eu safleoedd arweiniol am gyfnod hwy. Er mwyn helpu i ddeall tueddiadau o'r fath yn well ac i roi hwb i arloesedd a chynhyrchiant yn y DU, cyhoeddodd Uned Microeconomeg y CMA ei Strategaeth Ymchwil Economaidd ym mis Mawrth 2023.  Mae ein Huned Microeconomeg wedi'i lleoli yng Nghampws Economaidd Darlington, sy'n ganolfan drawslywodraethol newydd. Ym mis Mawrth 2023, gwnaethom gyhoeddi papur trafod ar Gadernid y Farchnad, sy'n ystyried y ffactorau sy'n ysgogi

cadernid y farchnad, rôl y CMA a pholisïau ehangach i atal a mynd i'r afael ag achosion o darfu ar gyflenwad, mater arbennig o amserol o ystyried profiad pandemig COVID-19 a'r rhyfel yn Wcráin.

Gwnaeth y CMA waith sylweddol yn y flwyddyn ddiwethaf yn cynghori Llywodraeth y DU ar ddisodli sawl esemptiad bloc yr UE rhag cyfraith cystadleuaeth a gadwyd ar ôl i'r DU adael yr UE. Fel gyda Swyddfa'r Farchnad Fewnol a'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau, bu'n rhaid i'r CMA gymryd meysydd gwaith a arferai fod wedi'u cadw i'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae esemptiadau bloc yn golygu bod categorïau cytundeb wedi'u hesemptio'n awtomataidd rhag cyfraith cystadleuaeth, os caiff amodau penodol eu bodloni. Maent yn chwarae rhan bwysig yn rhoi sicrwydd cyfreithiol i fusnesau. Rhoddodd y CMA gyngor i Lywodraeth y DU ar ddisodli'r Esemptiad Bloc Cerbydau Modur a gadwyd, yr Esemptiad Bloc Cytundebau Llorweddol a gadwyd, a'r Esemptiad Bloc Cytundebau Fertigol a gadwyd. Gwnaethom ymgynghori'n helaeth â busnesau a rhanddeiliaid eraill ar ein hargymhellion arfaethedig i Lywodraeth y DU. Rhoddodd ymadawiad y DU â'r UE fwy o hyblygrwydd i gyflwyno rheoliadau newydd wedi'u teilwra i gyd-destun y DU a dylai ein cynigion roi sicrwydd y gall busnesau gynllunio o'i amgylch.

Mae'r CMA yn parhau i ymgysylltu mewn cydweithrediad rhyngwladol ffurfiol ac anffurfiol â rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys drwy sefydliadau amlochrog fel y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Ewropeaidd y Rhwydwaith Cystadleuaeth Rhyngwladol, y Fframwaith Cydweithrediad Cydgynorthwyo a Chydweithio Amlochrog, Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Fasnach a Datblygiad, a'r Rhwydwaith Diogelu Defnyddwyr a Gorfodi Rhyngwladol.

Mae ymgysylltu rhyngwladol wedi bod yn nodwedd allweddol o'n gwaith digidol, ac mae hynny'n parhau. Cyhoeddwyd ein hymchwiliad i ddefnydd Meta (Facebook gynt) o ddata hysbysebion ynghyd ag ymchwiliad cyfochrog y Comisiwn Ewropeaidd ac rydym yn parhau i gydweithio'n agos. Mae nifer mawr o achosion gwrthglymblaid ledled y byd mewn perthynas ag ymddygiad mewn marchnadoedd digidol ac rydym wedi bod yn rhagweithiol yn ymgysylltu â'n partneriaid rhyngwladol ar amrywiaeth o'r materion hyn.

## **Edrych i'r dyfodol** – cyfleoedd, heriau a risgiau

Gan fyfyrio ar 2022/23, ein prif ffocws oedd cyflawni ar gyfer pobl, busnesau ac economi'r DU, a bydd hynny'n parhau wrth i ni edrych ymlaen i'r dyfodol. P'un a yw hynny drwy'r gwaith a wnawn i helpu i reoli pwysau costau byw cynyddol o ran tanwydd ffordd a bwyd; datblygu ein gwaith ar gynaliadwyedd a chystadleuaeth neu helpu deallusrwydd artiffisial i ddatblygu mewn ffyrdd sy'n sicrhau marchnadoedd agored a chystadleuol a diogelwch effeithiol i ddefnyddwyr, mae'r CMA yn cyflawni ar gyfer y rheini y mae yma i'w gwasanaethu.

Wrth gwrs, mae heriau hefyd a byddaf yn tynnu sylw at bedair ohonynt yma:

**Yr her gyntaf**: Mae'n bwysig o hyd ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar ein cyfrifoldebau craidd: ymchwilio i brosesau uno gwrthgystadleuol, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgystadleuol a diogelu pobl rhag ymddygiad annheg ynghyd ag asesu materion marchnad gyfan drwy ein hastudiaethau a'n hymchwiliadau i'r farchnad. Yr her sy'n parhau yn yr holl waith hwn yw cyflawni canlyniadau ar gyflymder wrth gynnal proses a thrylwyrdeb.

**Yr ail her:** Wrth i ni barhau i ymgorffori swyddogaethau newydd fel Swyddfa'r Farchnad fewnol a'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau a chynyddu ein paratoadau ar gyfer swyddogaethau newydd o'r Bil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr, bydd heriau gweithredol mewnol yn codi ynghyd â heriau allanol. Bydd rhanddeiliaid ac aelodau seneddol yn cymryd mwy o ddiddordeb ac yn disgwyl mwy o atebolrwydd dros yr hyn rydym yn ei wneud, a hynny'n ddigon cywir.

Fel y soniodd Marcus, ein Cadeirydd, yn ei ragair, mae'n hanfodol ein bod yn atebol am y gwaith a wnawn, er enghraifft, drwy ein hymddangosiadau ger bron pwyllgorau dethol a'r llysoedd. Mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hwn yn ffordd arall lle cawn ein dwyn i gyfrif, wrth iddo gael ei gyflwyno ym mhedair senedd y DU, ynghyd â'n Cynllun Blynyddol. Rydym yn croesawu'r holl waith craffu a fydd yn ein dwyn i gyfrif ac yn ein helpu i nodi meysydd pellach ar gyfer twf a gwelliant. Yn ogystal â Senedd y DU a ddeddfwrfeydd datganoledig, rydym yn gwerthfawrogi'n fawr y gydberthynas adeiladol â'n hadran nawdd, yr Adran dros Fusnes a Masnach, a gwnaethom groesawu ei harweiniad strategol ddrafft, sy'n cyd-fynd yn agos â'r strategaeth ddiwygiedig a nodir yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023/24.

**Y drydedd her:** Drwyddi draw, rydym yn ymwybodol o'r sefyllfa allanol ddatblygol rydym yn gweithredu ynddi a'r pwysau lluosog ar bobl a busnesau. Mae hyn yn creu amrywiaeth cynyddol o ffactorau y mae angen i ni weithredu arnynt. Mae angen i ni ddeall y pryderon hyn yn y ffordd orau posibl; blaenoriaethu ble y gallwn gyflawni'r effaith fwyaf, gan ddefnyddio ein hadnoddau mor hyblyg â phosibl; ac esbonio ein dewisiadau.

**Yn olaf**, er mwyn cyflawni hyn oll mae angen i ni gynnal cadernid sefydliadol y CMA.
O ystyried maint ac ehangder ein cyfrifoldebau, mae'n hollbwysig ein bod yn defnyddio'r adnodau sydd ar gael i ni yn y ffordd fwyaf effeithiol. Mae ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023/24 yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau hynny, yn benodol drwy hyrwyddo'r broses o ddatblygu proses flaenoriaethu fwy effeithiol sydd â mwy o ffocws a gwella ein datganiad gwerth i gyflogeion.

Mae hefyd angen i ni barhau i ddenu a chadw pobl o'r radd flaenaf sy'n meddu ar amrywiaeth o sgiliau a phrofiad ac rydym yn gweithio'n galed tuag at gyflawni hynny. Yn gyffredinol, ni all y CMA roi'r un cyflogau a gynigir gan fusnesau'r sector preifat sy'n recriwtio o'r un gronfa o staff, felly mae darparu profiad ansawdd uchel i gyflogeion a datganiad gwerth sy'n ystyried ffactorau y tu hwnt i gyflog yn hollbwysig.

Yn y pen draw, ein cydweithwyr yw sail ein llwyddiant ac rwy'n ddiolchgar i bob un ohonynt am eu gwaith dros 2022/23. Diolch i'w hymdrechion, rydym wedi sicrhau gwelliannau enfawr o ran cystadleuaeth a diogelwch i ddefnyddwyr er budd y cyhoedd, ac rydym bellach mewn sefyllfa gryfach nag erioed i barhau i gyflawni canlyniadau da i bobl, busnesau a'r economi yn y DU.

# Adegau allweddol y flwyddyn hon

**Ebrill**

***Gwelliannau i danysgrifiadau chwarae gemau Sony a Nintendo***

Yn dilyn ymchwiliad ar draws y sector i danysgrifiadau ar gyfer gwasanaethau chwarae gemau ar-lein – lle roedd taliadau'n dal i gael eu cymryd gan lawer o bobl yn awtomataidd nes iddynt gymryd camau i ddirwyn eu contract i ben – gwnaethom sicrhau ymgymeriadau gan Sony i ddiogelu cwsmeriaid nad ydynt wedi defnyddio eu haelodaeth ers cryn amser ond sy'n dal i dalu. Newidiodd Nintendo ei arferion busnes hefyd yn ystod ein hymchwiliad.

***Cyhoeddi'r ail Adroddiad ar y Sefyllfa o ran Cystadleuaeth***

Gwnaethom gyhoeddi ein hail adroddiad ar ba mor dda y mae cystadleuaeth yn gweithio yn y DU a beth mae hynny'n ei olygu i bobl a busnesau. Canfu'r asesiad bod marchnadoedd yn mynd yn fwy crynodedig, gyda'r cartrefi tlotaf yn debygol o ddioddef yr effeithiau i raddau anghymesur.

**Mai**

***Cannoedd o gartrefi'n cael eu rhyddhau o gontractau nwy anghyfreithlon***

Ar ôl i bryderon gael eu codi ynghylch y ffaith bod cwsmeriaid yn cael eu cloi yn awtomataidd i mewn i 'gontractau cyfyngu' ar gyfer nwy petrolewm hylifedig (LPG), canfuom fod BDS Fuels wedi bod yn defnyddio cymal a adnewyddodd gontractau mwy na 700 o gartrefi yng Ngogledd-orllewin Lloegr heb eu cydsyniad penodol, a hynny'n anghyfreithlon. Yn dilyn ein hymchwiliad, cytunodd BDS i ddileu cymalau adnewyddu o'r fath o'i gontractau ar gyfer LPG, gan ryddhau cartrefi o delerau a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i newid darparwr nwy.

***Ymchwilio i Google dros achos posibl o gamddefnyddio goruchafiaeth mewn technoleg hysbysebu***

Gwnaethom lansio ymchwiliad i bryderon y gall Google fod wedi torri'r gyfraith drwy gyfyngu ar gystadleuaeth yn y farchnad technoleg hysbysebu ddigidol. Rydym yn pryderu y gall Google fod yn camddefnyddio ei sefyllfa mewn technoleg hysbysebu i ffafrio ei wasanaethau ei hun ar draul ei wrthwynebwyr, ei gwsmeriaid a defnyddwyr ehangach yn y pen draw.

**Mehefin**

***Gorchymyn CHC i ddad-ddirwyn ei gytundeb gwasanaethau hofrenyddion***

Penderfynodd y CMA, yn dilyn ymchwiliad manwl, bod yn rhaid i CHC ddad-ddirwyn ei gaffaeliad a gwblhawyd o wasanaethau olew a nwy hofrenyddion Babcock ar y môr er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynghylch cystadleuaeth. Bydd y gwerthiant yn cefnogi cystadleuaeth mewn tendrau yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaethau pwysig hyn.

**Gorffennaf**

***Cynnal adolygiad brys o'r farchnad tanwydd ffordd***

Canfu adolygiad brys, ar gais yr Ysgrifennydd Busnes, achos o bryder yn y bwlch cynyddol rhwng pris olew crai pan fydd yn cyrraedd purfeydd, a'i bris pan fydd yn gadael fel petrol neu ddiesel. Arweiniodd hyn at gynnal astudiaeth o'r farchnad, yr ydym wedi'i chwblhau bellach, a chanfuwyd pryderon ynghylch y graddau y mae cystadleuaeth yn gweithio yn y sector manwerthu tanwydd ffordd. Rydym wedi gwneud argymhellion i'r llywodraeth i gymryd camau i fynd i'r afael â'r pryderon hyn ac edrychwn ymlaen at gynorthwyo'r llywodraeth wrth iddi ystyried ein hargymhellion.

***Cwmnïau fferyllol a fu'n codi gormod ar y GIG yn cael dirwy o £70 miliwn***

Yn dilyn ymchwiliad manwl, a ganfuwyd bod Pfizer a Flynn wedi bod yn codi prisiau rhy uchel am gyffur epilepsi a all achub bywydau ers dros bedair blynedd. Ar ôl ailasesu rhan o'ch achos yn dilyn her gyfreithiol, gwnaethom godi dirwy o £63 miliwn ar Pfizer a £6.7 miliwn ar Flynn. Mae'r penderfyniad yn destun apêl.

**Awst**

***Miloedd yn fwy o gartrefi yn cael eu rhyddhau o delerau prydles costus***

Aeth naw cwmni a brynodd rydd-ddaliadau gan ddatblygwr tai amlwg Taylor Wimpey ati i ddileu telerau costus i ddyblu rhenti tir o'u contractau prydles. Cytunodd y cwmnïau hefyd i ad-dalu lesddeiliaid preswyl a oedd eisoes wedi talu arian o dan y telerau i ddyblu rhenti tir. Mae'n golygu bod ein gweithredoedd yn y farchnad brydles, hyd yma, wedi rhyddhau mwy na 20,000 o bobl o faterion fel telerau costus i ddyblu rhenti tir.

***Uniad Veolia / Sues yn cael ei ddad-ddirwyn yn y DU***

Yn dilyn ymchwiliad manwl, canfuom fod y cytundeb rhwng dau o gwmnïau rheoli gwastraff mwyaf y DU yn debygol o olygu y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol yn y DU dalu mwy a chael gwasanaeth o ansawdd is. Gwnaethom orfodi Veolia i werthu tri busnes, sy'n cyfrif am yr holl orgyffwrdd bron rhwng gweithrediadau cystadleuol Veolia a Suez yn y DU.

**Medi**

***Cydymffurfiaeth clinigau ffrwythlondeb â chyfraith defnyddwyr: cyhoeddi canfyddiadau***

Ar ôl i adolygiad cydymffurfiaeth ganfod darlun cymysg o ran cydymffurfiaeth clinigau IVF â chyfraith defnyddwyr, gwnaethom ymgysylltu'n uniongyrchol â chlinigau a gwnaeth pawb y cysylltwyd â nhw newidiadau i fynd i'r afael â'n pryderon.

***Cwmnïau yn cael dirwy am osod y prisiau y mae cefnogwyr yn eu talu am nwyddau Clwb Pêl-droed Rangers***

Canfuom fod Elite Sports a JD Sports wedi torri cyfraith cystadleuaeth drwy osod prisiau manwerthu copi o gitiau â brand Rangers a chynhyrchion dillad eraill. Roedd Clwb Pêl-droed Rangers yn rhan o'r cydgynllwynio hefyd ond dim ond mor bell â gosod pris manwerthu copi o grysau llewys byr cartref i oedolion. Cydgynllwyniodd y tri chwmni i atal JD Sports rhag codi pris manwerthu is am y crys yn siop Gers Online Elite Sports. Gwnaethom roi dirwyon o fwy na £2 filiwn i Elite Sports, JD Sports a Chlwb Pêl-droed Rangers.

**Hydref**

***Gorchymyn Meta i werthu Giphy***

Ar ôl ailystyried ein penderfyniad ail gam yn dilyn apêl, gwnaethom gadarnhau y dylai Meta werthu Giphy oherwydd byddai'r pryniant yn cyfyngu ar y dewis i ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol yn y DU ac yn lleihau arloesedd o ran hysbysebu arddangos yn y DU.

**Tachwedd**

***Defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol yn cael budd o fesurau diogelwch newydd ar hysbysebu cudd***

Gan gydweithio â'r Awdurdod Safonau Hysbysebu, Ofcom, cwmnïau cyfryngau cymdeithasol a chrewyr cynnwys, gwnaethom lunio cyfres o adnoddau gyda'r nod o helpu'r rheini sy'n cyhoeddi ac yn rhannu deunydd hyrwyddo a rennir i gydymffurfio â chyfraith diogelu defnyddwyr. Roedd y gwaith hwn yn adeiladu ar yr ymrwymiadau a wnaed gan Instagram yn 2020 i fynd i'r afael â hysbysebu cudd ar ei safle.

***Cyhoeddi adroddiad ar ffrydio cerddoriaeth***

Clywodd ein hastudiaeth o'r farchnad i'r farchnad cerddoriaeth a ffrydio bryderon gan artistiaid ac eraill ynghylch pa mor anodd ydyw iddynt wneud bywoliaeth da o'r gwasanaethau hyn. Mae'r rhain yn bryderon dealladwy, ond mae ein canfyddiadau'n dangos nad canlyniad cystadleuaeth aneffeithiol yw hyn – ac na fyddai ymyriad gan y CMA yn rhyddhau mwy o arian i'r system a fyddai'n help artistiaid neu gyfansoddwyr caneuon.

**Rhagfyr**

***Angen gwerthu busnesau meddalwedd gwasanaethau brys i ddiogelu trethdalwyr yn y DU***

Mae NEC ac SSS ymysg nifer bach o ddarparwyr meddalwedd hanfodol a ddefnyddir gan wasanaethau brys golau glas yn ogystal â darparwyr gwasanaethau trafnidiaeth. Yn dilyn ymchwiliad manwl i'r uniad a gwblhawyd rhwng y ddau, gwnaethom orchymyn NEC i werthu rhai rhannau o'i fusnes ar ôl canfod y gallai'r gwasanaethau brys orfod talu mwy am feddalwedd hanfodol.

**Ionawr**

***Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau wedi agor ar gyfer busnes***

Mae'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau yn un o swyddogaethau newydd y CMA a grëwyd gan Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022. Agorodd ar gyfer busnes ar 4 Ionawr 2023, yn barod i roi cyngor i awdurdodau cyhoeddus sydd am ddefnyddio cymorthdaliadau i gyflawni amcanion cyhoeddus pwysig.

***Cytundeb toes yn cael ei ddad-ddirwyn i ddiogelu perchenogion siopau a siopwyr yn y DU***

Canfu ein ymchwiliad manwl y gallai'r ffaith bod Céréila wedi prynu Jus-Rol olygu bod manwerthwyr a siopwyr yn y DU yn wynebu prisiau uwch a chynhyrchion o ansawdd is ac mai'r unig ffordd o warchod graddau cystadleuaeth a dewis i ddefnyddwyr yw bod busnes Jus-Rol yn cael ei werthu i brynwr annibynnol, a gaiff ei gymeradwyo gan y CMA. Mae'r penderfyniad hwn yn destun apêl.

**Chwefror**

***Ymchwiliad i adeiladu cartrefi a rhentu er mwyn helpu prynwyr a thenantiaid***

Gyda phryderon eang ynghylch argaeledd a chostau tai, rydym wedi lansio astudiaeth o'r farchnad ar adeiladu tai a phrosiect ar wahân i ystyried hawliau defnyddwyr ar gyfer y rheini sydd mewn cartrefi ar rent.

***Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn cyhoeddi ei hadroddiad cyntaf***

Cyhoeddodd Swyddfa'r Farchnad Fewnol ei hadroddiad cyntaf, a ganfu na fyddai cynnig Llywodraeth y DU i wahardd mawn garddwriaethol rhag cael ei werthu yn Lloegr o 2024 yn cael effaith sylweddol ar fasnach o fewn y DU.

**Mawrth**

***Cwmnïau adeiladu'n cael dirwy o £60 miliwn bron am dorri cyfraith cystadleuaeth drwy rigio ceisiadau***

Gwnaethom roi dirwyon i 10 cwmni adeiladu am gynllwynio'n anghyfreithlon i rigio ceisiadau ar gyfer contractau dymchwel a gwaredu asbestos sy'n cynnwys prosiectau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae dau o'r cwmnïau yn apelio yn erbyn y penderfyniad hwn. Rydym ers hynny wedi sicrhau bod pedwar cyfarwyddwr yn cael eu datgymhwyso mewn perthynas â'r ymchwiliad hwn.

## *Cyhoeddi Cynllun Blynyddol 2023/24*

Roedd ein Cynllun Blynyddol presennol yn cynnwys strategaeth ddiwygiedig ar gyfer y CMA, yn gynnwys diben a dyhead diwygiedig i'r sefydliad sy'n rhoi pobl, busnesau ac economi gyfan y DU yn gyntaf.

# Crynodeb o berfformiad

**Lle y gwnaethom wario ein harian yn 2022/23**

Gwariwyd £112.73 miliwn yn erbyn ein cyllidebau a roddwyd inni gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. Ymhlith ein meysydd gwariant sylweddol a gofnodwyd mae'r canlynol:

- £99.94 miliwn ar ein gweithgareddau gweithredol craidd i ddiogelu defnyddwyr drwy weithgarwch gorfodi effeithiol, gweithredu cyfundrefn uno effeithlon ac effeithiol, sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n well a bod yn llais cryf o blaid cystadleuaeth ac ar gyfer arferion busnes teg.
- £6.53 miliwn ar wariant cyfalaf wrth inni roi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn prosiectau Technoleg Gwybodaeth (TG) er mwyn sicrhau cadernid ein seilwaith TG ac ehangu ein presenoldeb ledled y DU fel rhan o fentrau 'Places for Growth' a Ffyniant Bro ehangach y Llywodraeth.
- £6.26 miliwn fel rhan o dwf parhaus y CMA, i gwmpasu gwariant ar adeiladu ac integreiddio swyddogaethau newydd fel yr Uned Marchnadoedd Digidol, Swyddfa'r Farchnad Fewnol a'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau.

Rydym wedi llwyddo i gyflawni o fewn ein cyllidebau seneddol ym mlwyddyn ariannol 2022/23, gyda phenderfyniadau rheolaeth ariannol effeithiol yn sicrhau ein bod yn tanwario o ran ein holl gyllidebau.

Nodir ac esbonnir y gwahaniaethau sylweddol rhwng ein cyllideb a'n gwariant gwirioneddol yn adroddiad y Cyfarwyddwyr: adolygiad ariannol ar dudalen 37. Cyfeiriwch at y Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol 2022/23 ar dudalen 82 i gael rhagor o wybodaeth am wariant cyfalaf a Nodyn 2, Elfennau Gweithredu yn y Datganiadau Ariannol ar dudalen 104 i gael rhagor o wybodaeth am wariant yn y swyddogaethau newydd.

**Twf y CMA**

Mae'r CMA wedi parhau i ehangu ei gyrhaeddiad ledled y pedair gwlad yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r CMA yn parhau i atgyfnerthu a gwella'r modd y mae'n gweithio ac mae'n mynd i'r afael â heriau fel recriwtio mewn marchnad gystadleuol iawn ar gyfer y sgiliau proffesiynol ac arbenigol sydd eu hangen arno.

Fel yr amlinellwyd yn fanylach yn Adroddiad y Prif Weithredwr, mae Swyddfa'r Farchnad Fewnol wedi cael ei sefydlu'n llwyddiannus ac mae'n cynnal asesiadau annibynnol o effaith unrhyw wahaniaethau mewn rheolau a rheoliadau ledled y pedair gwlad ar y farchnad fewnol, gan roi cyngor economaidd i Lywodraeth a gweinyddiaethau'r DU. Daeth pwerau'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau yn weithredol ar 4 Ionawr 2023. Mae'n gwerthuso asesiadau awdurdodau cyhoeddus o gymorthdaliadau yr ystyriwyd eu bod fwyaf tebygol o wyrdroi cystadleuaeth ac mae'n rhoi cyngor arbenigol i'r awdurdodau hynny.

Mae deddfwriaeth yn mynd drwy Senedd y DU ar hyn o bryd i roi mwy o bwerau diogelu defnyddwyr a chystadleuaeth i'r CMA, ynghyd â sefydlu cyfundrefn marchnadoedd digidol newydd wedi'i thargedu ar gyfer yr oes ddigidol, dan oruchwyliaeth yr Uned Marchnadoedd Digidol. Gallwch ddarllen mwy am y ddeddfwriaeth hon a'r hyn y mae'n ei olygu i'r CMA yn Adroddiad y Prif Weithredwr.

Gwnaethom sefydlu Uned Microeconomeg, sydd wedi'i lleoli yn Darlington. Bydd yr Uned Micro-economeg yn dadansoddi ac yn cynnig arbenigedd ar faterion cystadleuaeth yn y DU, hawliau defnyddwyr, arloesi, cynhyrchiant a diwygiadau i'r ochr gyflenwi.

Mae'r CMA yn ymrwymedig i gyflawni agendâu Mannau Twf a Ffyniant Bro y Llywodraeth. Gwneir hyn drwy'r Prosiect Trawsnewid Eiddo. Gwnaed cynnydd sylweddol ac mae gan y CMA bellach swyddfeydd yng Nghaerdydd, Caeredin a Belfast, sydd wedi'u lleoli yng nghanolfannau'r Llywodraeth, ynghyd â gofod swyddfa ym Manceinion a Darlington (ar gyfer y tymor canolig), gyda'r bwriad o symud i mewn i'r canolfannau hyn pan fyddant yn weithredol.

### Incwm o ddirwyon a chosbau

Rydym wedi cyfrif am £43.59 miliwn o ddirwyon a chosbau a roddwyd yn dilyn ein hymchwiliadau Deddf Cystadleuaeth 1998 yn y sectorau adeiladu a manwerthu, gan dynnu sylw at yr effaith amlwg y mae'r CMA wedi'i chael yn mynd i'r afael ag arferion gwrthgystadleuol yn 2022/23. Yn unol â'n polisi cyfrifyddu, nid ydym yn cyfrif am ddirwyon sy'n destun apêl. O dan reolau Deddf Cystadleuaeth 1998, mae gennym caniatâd i wrthbwyso ein holl gostau ymgyfreitha cymwys (gan gynnwys costau cyfreithiol croes) gan ddefnyddio arian parod a gasglwyd o ddirwyon a chosbau. Adroddir ar hyn ar wahân yn Natganiad Ymddiriedolaeth y CMA ar dudalen 123.

Oherwydd nifer yr achosion ymgyfreitha yn ystod y flwyddyn a'r risg yn sgil costau ymgyfreitha uwch, ni fyddai'r trefniant sy'n galluogi'r CMA i ddefnyddio incwm cosbau i wrthbwyso'r costau hyn wedi cwmpasu'r risg, felly cytunodd Trysorlys EF i gyllideb DEL Adnoddau ychwanegol o £2.50 miliwn yn yr amcangyfrifon Ategol ym mis Ionawr 2023.

# Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

***Pwerau statudol***

Mae'r CMA yn adran anweinidogol. Rydym yn cael ein pwerau o Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013.[2]

Mae ein swyddogaethau yn cynnwys:

- Ymchwilio i gynlluniau uno a gallai leihau cystadleuaeth yn sylweddol. Os bydd cynllun uno yn lleihau cystadleuaeth, gall y CMA ei atal neu osod rhwymedïau er mwyn mynd i'r afael â phryderon o'r fath.
- Ymchwilio i fusnesau ac unigolion er mwyn nodi a ydynt wedi torri cyfraith cystadleuaeth y DU ac, os felly, roi terfyn ar y fath achosion o dor-cyfraith neu eu hatal rhag codi, gan gynnwys dirwyo busnesau a cheisio sicrhau bod cyfarwyddwyr y cwmnïau dan sylw yn cael eu datgymhwyso, yn ogystal ag erlid unigolion sy'n cyflawni trosedd y cartel anghyfreithlon.
- Gorfodi amrywiaeth o ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr, gan fynd i'r afael â materion sy'n awgrymu bod problem systemig yn y farchnad neu sy'n effeithio ar allu defnyddwyr i wneud dewisiadau.
- Cynnal astudiaethau neu ymchwiliadau neu wneud gwaith arall i farchnadoedd penodol lle yr amheuir bod problemau o ran cystadleuaeth a defnyddwyr. Gall y CMA gymryd camau – ac argymell bod camau yn cael eu cymryd gan eraill – mewn marchnadoedd lle mae'n bosibl nad yw cystadleuaeth yn gweithio'n dda.
- Hyrwyddo cystadleuaeth gref yn y diwydiannau a reoleiddir (nwy, trydan, dŵr, hedfanaeth, rheilffyrdd, cyfathrebu ac iechyd), gan weithio gyda rheoleiddwyr y sectorau.
- Cynnal apeliadau ac atgyfeiriadau rheoleiddiol mewn perthynas â systemau rheoli prisiau, telerau trwyddedau neu drefniadau rheoleiddio eraill o dan ddeddfwriaeth sector-benodol.
- Rhoi gwybodaeth neu gyngor mewn perthynas â materion sy'n ymwneud ag unrhyw un o swyddogaethau'r CMA i'r cyhoedd, llunwyr polisi a Gweinidogion am sut y gallant lunio polisi a'i roi ar waith mewn ffordd sy'n sicrhau manteision cystadleuaeth ac sy'n diogelu ac yn hyrwyddo buddiannau defnyddwyr.
- Rhoi cyngor technegol, adrodd a monitro mewn perthynas â marchnad fewnol y DU, trwy Swyddfa'r Farchnad Fewnol.
- O 4 Ionawr 2023 ymlaen, rhoi cyngor, adrodd a monitro mewn perthynas â chymorthdaliadau'r llywodraeth, drwy'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau.

Mae ein swyddogaethau yn y dyfodol yn cynnwys yr Uned Marchnadoedd Digidol, a sefydlwyd ar ffurf anstatudol ym mis Ebrill 2021. Bydd yr Uned yn goruchwylio cyfundrefn reoleiddio newydd ar gyfer y cwmnïau digidol mwyaf pwerus, i ddiogelu a galluogi mwy o gystadleuaeth ac arloesedd yn y marchnadoedd lle mae'r cwmnïau hyn yn gweithredu, ac yn diogelu defnyddwyr a busnesau rhag arferion annheg. Caiff pwerau i weithredu'r gyfundrefn reoleiddiol eu rhoi i'r CMA o dan y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr sy'n mynd drwy Senedd y DU ar hyn o bryd.

[2] Caiff grymoedd Swyddfa'r Farchnad Fewnol, a lansiwyd yn swyddogol ar 21 Medi 2021, eu hamlinellu yn Neddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020. Mae gan y CMA hefyd rymoedd sy'n gysylltiedig â'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau, sy'n deillio o Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022.

### *Archwilwyr*

Mae Cyfrifon Adnoddau a Chyfrifon Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA wedi'u harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac wedi'u hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, a benodwyd o dan

statud ac sy'n atebol i'r Senedd. Nodir cost dybiannol yr archwiliad yn Nodyn 4 (tudalen 104) o Ddatganiadau Ariannol y CMA ac mae'n ymwneud â gwaith archwilio statudol yn unig. Ni wnaeth yr archwilwyr unrhyw waith nad oedd yn waith archwilio yn ystod blwyddyn 2022/23.

Mae Cyfarwyddwyr y CMA, gan gynnwys y Prif Weithredwr, wedi cymryd yr holl gamau sydd eu hangen i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr y CMA hefyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwyddom, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, gyda chymorth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, yn ymwybodol ohoni.

### *Swyddog Cyfrifyddu*

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, mae Sarah Cardell, Prif Weithredwr y CMA, Andrea Coscelli, yn parhau i fod yn gyfrifol, gyda chyngor gan Fwrdd y CMA, am sicrhau bod y CMA yn gweithredu'n effeithiol ac i safon uchel o uniondeb mewn perthynas â llywodraethu, gwneud penderfyniadau a rheolaeth ariannol. Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu'r CMA yn cyflawni rolau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am reoleidd-dra a phriodoldeb y cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, a'r cyfrifoldeb am gadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r CMA, fel y nodir ym mhennod 3 o Managing Public Money a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Erik Wilson, y Prif Swyddog Gweithredu, yw'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol â chyfrifoldeb penodol am wasanaethau corfforaethol a chymorth.

Ar gyfer cyfnod blwyddyn adrodd 2022/23 cyn 26 Gorffennaf 2022, Andrea Coscelli oedd y Prif Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y CMA. Erik Wilson oedd y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol drwy gydol cyfnod adrodd 2022/23. O 26 Gorffennaf 2022 ymlaen, bu Sarah Cardell yn gweithredu fel Prif Swyddog Cyfrifyddu dros dro, ar ôl iddi gael ei phenodi'n Brif Weithredwr dros dro. Cafodd Sarah Cardell ei phenodi'n Brif Weithredwr yn ffurfiol yn weithredol o 19 Rhagfyr 2022, ac mae wedi parhau i fod yn Brif Swyddog Cyfrifyddu'r CMA. Mae Sarah Cardell wedi dibynnu ar broses drosglwyddo gydag Andrea Coscelli, ar y wybodaeth a gafodd yn ei rôl flaenorol fel Cwnsler Cyffredinol y CMA, ac ar fewnbwn gan Erik Wilson fel Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol fel sicrwydd mewn perthynas â chyfnod blwyddyn adrodd 2022/23, o 1 Ebrill 2022 hyd at 26 Gorffennaf 2022, pan nad hi oedd y Prif Swyddog Cyfrifyddu.

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr: adolygiad ariannol

### *Gwariant*

*Cyflwyno gwariant*

Adroddir ar wariant y CMA ar ddwy sail wahanol yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratoir o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i'r CMA baratoi Datganiad Cyflenwi Seneddol (SoPS) a nodiadau ategol. Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE) (tudalen 9292) yn nodi gwariant net cynhwysfawr y CMA, sef £105.33 miliwn yn 2022/23 o gymharu â £105.89 miliwn yn 2021/22. Cyfrifir y gwariant hwn yn unol â safonau cyfrifyddu (IFRS) a chanllawiau a esbonnir yn fanylach yn nodyn 1 (tudalen 96) ac ar sail debyg i'r rheolau hynny a ddefnyddir gan fusnesau yn y sector preifat.

Mae'r Datganiad Cyflenwi Seneddol (tudalen 79) yn cyflwyno cyfanswm gwariant o £112.73 miliwn ac yn ei gymharu â'r gyllideb a gyflwynwyd i'r Senedd, sef £148.31 miliwn. Cyfrifir y ffigurau hyn yn unol â Chanllawiau Trysorlys EF ar Gyllidebu Cyfunol, sy'n wahanol i'r sail gyfrifyddu uchod mewn sawl ffordd.

*Trosolwg o'n gwariant*

Cyfanswm ein Gwariant a Reolir oedd £112.73 miliwn, wedi'i ddadansoddi yn ôl categorïau gwario Trysorlys EF fel y nodir yn y tabl isod:

| | **Alldro 2022/23** | **Cyllideb 2022/23** | **Alldro 2021/22** |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** |
| Cyfanswm y Gwariant a Reolir | **112,725** | **148,313** | **108,487** |
| • **DEL Adnoddau** | 115,349 | 123,582 | 97,937 |
| • **DEL Cyfalaf** | 6,528 | 8,731 | 2,675 |
| **Cyfanswm DEL**[3] | **121,877** | **132,313** | **100,612** |
| • **AME Adnoddau** | (8,979) | 15,000 | 7,875 |
| • **AME Cyfalaf** | (173) | 1,000 | - |
| **Cyfanswm AME**[4] | **(9,152)** | **16,000** | **7,875** |

Rydym yn atebol i'r Senedd am ein gwariant. Ceisir cymeradwyaeth y Senedd ar gyfer ein cynlluniau gwariant drwy'r [Amcangyfrifon Cyflenwi]() a gyflwynir i Dŷ'r Cyffredin, gan nodi cyfansymiau rheoli cyllidebau dirprwyedig y CMA a gofyn am bleidlais ar y cyllid angenrheidiol. Rydym yn hawlio'r cyllid hwn gyda phleidlais yn ystod y flwyddyn o'r Gronfa Gyfunol yn ôl y gofyn

Mae'r Amcangyfrif Cyflenwi yn cynnwys disgrifiad ffurfiol o'r gwasanaethau (‘cwmpas’) sydd i'w cyllido Ni ellir defnyddio cyllid gyda phleidlais i gyllido gwasanaethau nad ydynt o fewn y cwmpas. Ein cyllideb DEL Adnoddau ar gyfer 2022/23 yw £123.58 miliwn, y mae £12.10 miliwn o'r swm hwnnw wedi'i glustnodi ar gyfer dibrisiant nad yw'n cynnwys arian parod.

Ein cyllideb DEL Cyfalaf ar gyfer 2022/23 oedd £10.23 miliwn, y gwnaethom gais iddo gael ei leihau £1.50 miliwn i £8.73 miliwn er mwyn galluogi cyfnewid cyllideb (BX) ar Amcangyfrifon Ategol. Mae hyn yn galluogi'r CMA i gario symiau cyfalaf wedi'u tanwario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf i gwmpasu llinellau amser estynedig ar gyfer nwyddau i gael eu cyflenwi, yn benodol mewn perthynas â phrosiectau TG.

[3] DEL yw cyfanswm y gyllideb y gellir ei rheoli, a roddir gan Drysorlys EF ar ran y Senedd, y mae'r adran yn ei defnyddio i ariannu'r gwaith o gyflawni ei hamcanion strategol.
[4] Mae cyllidebau gwariant a reolir yn flynyddol (AME) yn anwadal neu'n seiliedig ar alw mewn ffordd na all yr adran ei rheoli. Nid yw Trysorlys EF yn pennu cyllidebau AME pendant mewn adolygiadau o wariant ond mae'r adran yn monitro rhagolygon AME yn ofalus a chânt eu diweddaru'n flynyddol.

Yn 2022/23, cawsom gyllideb AME Cyfalaf o £1.00 miliwn i gwmpasu gwariant sy'n deillio o ddarpariaethau dadfeiliad o fabwysiadu IFRS 16 – Prydlesau. Ceir rhagor o wybodaeth am IFRS 16 yn Nodyn 1.6 ar dudalen 98.

### *Alldro*

Mae'r CMA yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd i hyrwyddo cystadleuaeth, i ddiogelu defnyddwyr ac i helpu busnesau i ffynnu ledled y DU, yn ogystal ag ymgorffori ei swyddogaethau newydd. Mae ein halldro DEL Adnoddau ar gyfer 2022/23 yn £115.35 miliwn o gymharu â chyllideb o £123.58 miliwn, sy'n danwariant o £8.23 miliwn, er ein bod wedi hyrwyddo a gweithredoli swyddogaethau newydd yn y sefydliad.

Y prif ffactor sy'n cyfrannu at y tanwariant yw gwariant ar staff, oherwydd anawsterau mewn recriwtio ar gyfer swyddi gwag a grëwyd gan rolau arbenigol sy'n anodd eu llenwi.

Cafodd y CMA hefyd drafferth i gadw staff ac mae prosesau recriwtio'n cymryd mwy o amser, sy'n golygu nad yw swyddi gwag wedi eu llenwi am gyfnod hwy.

Ein halldro DEL Cyfalaf ar gyfer 2022/23 oedd £6.53 miliwn, o gymharu â chyllideb o £8.73 miliwn Roedd y tanwariant cyfalaf o £2.20 miliwn yn bennaf oherwydd problemau yn y gadwyn gyflenwi fyd-eang gyda gwariant ar dechnoleg gwybodaeth ac oedi cyn dechrau gosod offer yn rhai o'r swyddfeydd newydd.

Mae ein gwariant o'r gyllideb cyfalaf yn bennaf fel a ganlyn:

- £4.94 miliwn ar gyfer prosiectau Technoleg Gwybodaeth ac eitemau cyfalaf eraill (i sicrhau cadernid ein seilwaith TG ac i ddatblygu systemau i gefnogi prosiectau llinell flaen); ac
- £1.59 miliwn ar gyfer ein Prosiect Trawsnewid Eiddo a oedd yn cynnwys gosod offer yn ein gofod swyddfa yn ein swyddfeydd newydd.

Ein halldro DEL Adnoddau (RAME) anariannol ar gyfer 2022/23 yw -£9.00 miliwn (negatif), o gymharu â chyllideb o £15.00 miliwn. Mae hyn oherwydd natur darpariaethau ac AME anariannol, h.y. tebygolrwydd ynghylch ansicrwydd, darpariaethau a adferwyd, darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn a dad-ddirwyn disgowntiau.

Mae'r alldro RAME negatif yn bennaf yn sgil taliadau a wnaed gennym i ddau barti mewn achos cyfreithiol. Felly, gwnaethom wrthdroi'r ddarpariaeth a gafodd ei chydnabod mewn blynyddoedd ariannol blaenorol gan nad oedd y rhwymedigaeth yn ofynnol mwyach oherwydd y taliadau arian parod a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Mae'r ffigur RAME hefyd yn cynnwys darpariaethau dadfeiliadau, pensiynau etifeddol, a chostau anariannol eraill.

Ein halldro AME Cyfalaf (CAME) anariannol ar gyfer 2022/23 yw -£0.18 miliwn (negatif), o gymharu â chyllideb o £1.00 miliwn. Mae hyn yn sgil disgowntio darpariaeth dadfeiliadau, y cyfrifir amdano o dan IFRS 16 Prydlesau ac IAS 17 Prydlesau, gan ragori ar yr ychwanegiadau asedau dadfeiliadau yn ystod y flwyddyn y cyfrifir amdanynt o dan IFRS 16. Rydym wedi defnyddio cyfradd disgowntio Trysorlys EF sydd wedi'i chyhoeddi ym mhapurau'r System Gwariant Cyhoeddus.

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu'r CMA, wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol imi gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac, yn arbennig:

- cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson.
- Llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol.
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon.
- Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

O dan adran 5 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EF wedi cyfarwyddo'r CMA i baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gan roi manylion yr adnoddau a gafaelwyd, a ddaliwyd, neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan yr adran yn ystod y flwyddyn. Paratoir y cyfrifon hyn ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r CMA a'i alldro adnoddau net, y defnydd o adnoddau, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Rwyf wedi cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o wybodaeth sy'n berthnasol i'r cyfrifon a gyflwynir gyda'r Adroddiad Blynyddol hwn a sicrhau bod fy archwilwyr yn cael eu hysbysu amdani. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth berthnasol nad yw fy archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Cadarnhaf fod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac fy mod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Llofnodwyd dros ac ar ran y CMA

Sarah Cardell
Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
6 Gorffennaf 2023

# Datganiad Llywodraethu'r CMA 2022/23

Yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF, mae'r Datganiad Llywodraethu yn nodi trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y CMA.

# Bwrdd a Phwyllgorau'r CMA

Bwrdd y CMA yw prif gorff gwneud penderfyniadau'r CMA. Mae'n sefydlu cyfeiriad strategol cyffredinol y CMA ac yn sicrhau bod dyletswyddau a swyddogaethau statudol y CMA yn cael eu cyflawni. Mae gan y CMA nifer o bwyllgorau Bwrdd, gan gynnwys y pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, y Pwyllgor Enwebiadau a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth, Pwyllgor yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau (pwyllgor statudol sy'n cwmpasu'r swyddogaeth hon), a phwyllgor sydd â swyddogaeth gyflawni ar wahân (y Pwyllgor Bancio Agored). Mae gan y CMA hefyd ddau Bwyllgor Bwrdd sy'n rheoli ac yn goruchwylio perfformiad a chyflawniad swyddogaethau ac amcanion y CMA (y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Achosion a Pholisi, a gefnogir ymhellach gan isbwyllgorau'r Pwyllgor Gweithredol (y Pwyllgor Adnoddau, Portffolio a Phrosiectau Arfaethedig a'r Pwyllgor Gweithrediadau). Mae'r Pwyllgor Cynghori yn gweithio gyda'r Pwyllgor Gweithredol a'i isbwyllgorau i gynnig syniadau amrywiol er mwyn llywio a chefnogi penderfyniadau a wneir ar lefel uwch yn y CMA a'u herio mewn ffordd adeiladol.

**Y Bwrdd**

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd, Cyfarwyddwyr Anweithredol (y mae dau ohonynt hefyd yn aelodau o'r Panel Cystadleuaeth, [5]ac y mae un ohonynt yn Gadeirydd Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol[6]) a Chyfarwyddwyr Gweithredol (gan gynnwys y Prif Weithredwr).

Dan arweiniad y Cadeirydd, mae'r Bwrdd yn pennu cyfeiriad strategol cyffredinol y CMA o fewn y fframwaith polisi a osodwyd o dan Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013. Mae'n sicrhau bod y CMA yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau statudol, yn cynnal ei annibyniaeth fel adran anweinidogol o'r Llywodraeth ac mae'n sicrhau ei fod yn dilyn egwyddorion llywodraethu corfforaethol da. Bydd y Bwrdd yn ystyried barn ac adroddiadau Prif Swyddog Cyfrifyddu'r CMA a'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ac mae'n sicrhau bod y CMA yn gwneud defnydd priodol o arian cyhoeddus.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am nifer o faterion gwahanol, gan gynnwys gwneud penderfyniadau ar faterion a gedwir yn ôl, fel y nodir yn y Ddeddf a Rheolau Gweithdrefnau'r CMA a gyhoeddir ar wefan y CMA. Mae'r rheolau hyn yn nodi pwerau a swyddogaethau'r Bwrdd ac yn cynnwys Awdurdodiadau'r Bwrdd, y Polisi Gwrthdaro Buddiannau a Chylch Gorchwyl pwyllgorau'r Bwrdd (a ddiweddarwyd ddiwethaf gan y Bwrdd ym mis Chwefror 2022).

Caiff y Bwrdd ei ddiweddaru ar hynt achosion y CMA drwy adroddiadau rheolaidd am wybodaeth reoli. Mae hefyd yn cael gwybodaeth gan y Pwyllgor Gweithredol er mwyn galluogi'r Bwrdd i rannu ei safbwyntiau ar gyfeiriad strategol y CMA.Hefyd, mae'r Bwrdd yn cael data o nifer o ffynonellau o fewn y CMA, gan gynnwys asesiad o'r ffordd y mae'r CMA yn cyflawni ei flaenoriaethau strategol a'r ffordd y mae'n defnyddio ei adnoddau ariannol a'i adnoddau staff.

Cyfarfu'r Bwrdd 15 gwaith yn 2022/23. Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Bwrdd ym mhob mis heblaw ym mis Awst, gyda chyfarfodydd eithriadol yn cael eu cynnal yn ychwanegol at ei gyfarfodydd misol rheolaidd er mwyn ymdrin â materion sy'n codi mewn ffordd fwy amserol a hyblyg. Cyhoeddir cofnodion cyfarfodydd

[5] O dan baragraff 1(4) o Atodlen 4 i Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013, mae'n ofynnol i o leiaf un o aelodau o Fwrdd y CMA hefyd fod yn aelod o Banel y CMA.
[6] Mae Paragraff 1b(4) o Atodlen 4 i Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r CMA benodi cadeirydd i banel Swyddfa'r Farchnad Fewnol ac aelodau i Fwrdd y CMA.

Bwrdd y CMA ar wefan y CMA. Nodir presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau ar dudalennau 46-50.

Yn unol â pholisi Gwrthdaro Buddiannau'r CMA, cynhelir cofrestr o fuddiannau aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys aelodau agos o'u teuluoedd ac fe'i cyhoeddir ar wefan y CMA. Caiff unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau a nodir, ac unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau, sy'n ymwneud ag aelodau'r Bwrdd, eu rheoli yn unol â'r polisi Gwrthdaro Buddiannau; a chaiff unrhyw achosion lle mae'n ofynnol i aelod o'r Bwrdd adael cyfarfod eu nodi yn y cofnodion cyhoeddedig

**Bwrdd y CMA**

Prif gorff gwneud penderfyniadau'r CMA. Mae'n rhoi cyfeiriad strategol ac yn sicrhau y caiff dyletswyddau a swyddogaethau statudol eu cyflawni. Y Bwrdd sy'n penderfynu a ddylid cynnal astudiaethau ac ymchwiliadau o'r farchnad.

**Pwyllgorau'r Bwrdd**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg** Mae'n rhoi cyngor i'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr ar brosesau rheolaeth fewnol, archwilio a sicrwydd risg | **Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth** Mae'n adolygu perfformiad Uwch-Weision Sifil ac mae'n dyfarnu tâl a bonysau. Mae hefyd yn rhoi cyngor i'r Bwrdd ar faterion cydnabyddiaeth staff nad ydynt yn Uwch-Weision Sifil | **Y Pwyllgor Enwebiadau** Mae'n cynghori'r Bwrdd ar gynllunio olyniaeth ar gyfer aelodau gweithredol ac anweithredol o'r Bwrdd. Mae hefyd yn rhoi cyngor i'r Llywodraeth ar benodiadau i Fwrdd y CMA | **Pwyllgor yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau** Mae'n ystyried materion strategol sy'n gysylltiedig â swyddogaethau rheoli cymorthdaliadau'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau | **Y Pwyllgor Bancio Agored** Mae'n rhoi arweiniad ynghylch yr Endid Gweithredu Bancio Agored ac mae'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch y broses o drawsnewid i endid yn y dyfodol a ph'un a ddylid cynnal adolygiad o Orchymyn Ymchwilio i'r Farchnad Bancio Manwerthol 2017 | **Y Pwyllgor Gweithredol** Mae'n canolbwyntio ar faterion strategol, perfformiad a chyflawniad | **Y Pwyllgor Achosion a Pholisi** Mae'n goruchwylio achosion a phrosiectau, gan sicrhau dull gweithredu cyson |

| Fforymau gwneud penderfyniadau annibynnol | | Isbwyllgorau'r Pwyllgor Gweithredol | |
|---|---|---|---|
| **Panel y CMA (Cystadleuaeth)** Unigolion annibynnol sy'n gwneud penderfyniadau sy'n cynnal ymchwiliadau uno cam dau ac ymchwiliadau i farchnadoedd ac apeliadau rheoleiddiol.<br>Gall aelodau'r panel hefyd wasanaethu ar Grwpiau Penderfynu ar Achosion ar gyfer achosion troseddol | **Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol** Bydd y Panel yn cynorthwyo Swyddfa'r Farchnad Fewnol i gyflawni ei swyddogaethau, fel y nodir yn Neddf Marchnad Fewnol y DU | **Y Pwyllgor Adnoddau, Portffolio a Phrosiectau Arfaethedig** Mae'n ystyried cynigion ar gyfer cynnal ymchwiliadau ac adnoddau ar gyfer achosion | **Y Pwyllgor Gweithrediadau** Mae'n goruchwylio materion Gwasanaethau Corfforaethol, gan gynnwys TGCh, diogelwch gwybodaeth, gwasanaethau cymorth busnes, risg, parhad busnes a rhaglen Llunio CMA y Dyfodol |

**Grwpiau Llywio a Chynghori:** Maent yn ystyried syniadau cychwynnol ac yn goruchwylio datblygiadau prosiectau

**Y Pwyllgor Cynghori**

Corff cynghori staff sy'n rhoi cyngor i'r Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Adnoddau, Portffolio a Phrosiectau Arfaethedig a'r Pwyllgor Gweithrediadau ar faterion strategol a gweithredol allweddol ac ar ddewis prosiectau ac achosion

***Aelodau'r Bwrdd***

Mae'r rhestr isod yn amlinellu aelodaeth y Bwrdd rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Bydd aelodaeth y Bwrdd yn parhau i ddatblygu yn ystod 2023/24 wrth i gyfnodau aelodau'r Bwrdd ddod i ben.

*Marcus Bokkerink (Cadeirydd)*

Penodwyd Marcus yn Gadeirydd Bwrdd y CMA ym mis Medi 2022. Mae Marcus yn aelod o Bwyllgor Enwebiadau, Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phwyllgor Bancio Agored y CMA.

*Sarah Cardell (Prif Weithredwr)*

Penodwyd Sarah Cardell yn Brif Weithredwr y CMA ym mis Rhagfyr 2022, ar ôl gwasanaethu fel y Prif Weithredwr Dros Dro ers mis Gorffennaf 2022. Fe'i penodwyd yn Gwnsler Cyffredinol o fis Medi 2013. Sarah yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r CMA ac mae'n cadeirio nifer o bwyllgorau bwrdd, gan gynnwys y Prif Bwyllgor Gweithredu, y Pwyllgor Achosion a Pholisi, Pwyllgor yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau a'r Pwyllgor Bancio Agored. Mae hefyd yn aelod o Bwyllgor Enwebiadau'r CMA.

*Dr Andrea Coscelli CBE*

Penodwyd Andrea Coscelli yn Brif Weithredwr y CMA ym mis Gorffennaf 2017, ar ôl gwasanaethu fel y Prif Weithredwr Dros Dro ers mis Gorffennaf 2016. Andrea oedd Prif Swyddog Cyfrifyddu'r CMA ac roedd yn aelod o Bwyllgor Enwebiadau'r CMA a'r Pwyllgor Bancio Agored. Ymddiswyddodd Andrea fel Prif Weithredwr a gadawodd y CMA ym mis Gorffennaf 2022.

*Jonathan Scott (Cadeirydd)*

Penodwyd Jonathan Scott yn Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Hydref 2016. Ym mis Hydref 2020, fe'i penodwyd yn Gadeirydd am gyfnod o hyd at flwyddyn neu nes y gellid penodi Cadeirydd parhaol; Ailbenodwyd Jonathan yn Gadeirydd ym mis Hydref 2021 am gyfnod o hyd at flwyddyn. Bu'n gadeirydd Pwyllgor Bancio Agored y CMA ac roedd yn aelod o'r Pwyllgor Enwebiadau a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Pan benodwyd Marcus Bokkerink fel Cadeirydd parhaol, camodd Jonathan i lawr fel Cadeirydd ym mis Medi 2022.

*Kirstin Baker CBE (Cadeirydd Ymchwiliadau ar y Panel Cystadleuaeth, Cyfarwyddwr Anweithredol)*

Penodwyd Kirstin Baker yn aelod o'r Panel Cystadleuaeth ac yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol y Bwrdd ym mis Medi 2018. Mae hefyd yn gwasanaethu fel Cadeirydd Ymchwiliadau. Mae'n aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y CMA, y Pwyllgor Achosion a Pholisi, y Pwyllgor Bancio Agored a Phwyllgor yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau.

*Martin Coleman (Cadeirydd y Panel Cystadleuaeth, Cyfarwyddwr Anweithredol)*

Penodwyd Martin Coleman yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Bwrdd y CMA ym mis Hydref 2017, a chafodd ei gyfnod ei ymestyn yn 2022. Fe'i penodwyd yn Gadeirydd y Panel Cystadleuaeth ym mis Medi 2018. Mae hefyd yn gwasanaethu fel Cadeirydd Ymchwiliadau. Mae'n aelod o Bwyllgor Cydnabyddiaeth y CMA a'r Pwyllgor Achosion a Pholisi.

*Cynthia Dubin (Cyfarwyddwr Anweithredol)*

Penodwyd Cynthia Dubin yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Bwrdd y CMA ym mis Ionawr 2019. Daeth yn Gadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y CMA ym mis Gorffennaf 2020 a daeth yn Gadeirydd Pwyllgor Enwebiadau'r CMA ym mis Mawrth 2021. Roedd Cynthia hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Bancio Agored hyd at fis Hydref 2022.

*Yr Athro Amelia Fletcher CBE (Cyfarwyddwr Anweithredol)*

Penodwyd Amelia Fletcher yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Bwrdd y CMA ym mis Hydref 2016. Fe'i penodwyd yn Uwch-Gyfarwyddwr Annibynnol ym mis Rhagfyr 2020. Mae'n cadeirio Pwyllgor Cydnabyddiaeth y CMA a Grŵp Llywio Llesiant, Cynhwysiant, Amrywiaeth a Chydraddoldeb.

*Murdoch MacLennan (Cyfarwyddwr Anweithredol)*

Penodwyd Murdoch MacLennan yn Gadeirydd Swyddfa'r Farchnad Fewnol ac yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Bwrdd y CMA ym mis Ebrill 2022. Mae hefyd yn aelod o Bwyllgor Cydnabyddiaeth y CMA a Phwyllgor yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau.

*David Stewart (Cyfarwyddwr Gweithredol, Marchnadoedd ac Uno)*

David Stewart was appointed in January 2022 as Executive Director, Markets and Mergers, a role in which he leads the CMA's activities in the merger control and market regimes, including the Office for the Internal Market and Subsidy Advice Unit.  He is an Executive member of the CMA Board.

*Dr Michael Grenfell (Cyfarwyddwr Gweithredol, Gorfodi)*

Penodwyd Michael Grenfell yn Gyfarwyddwr Gweithredol, Gorfodi, ym mis Gorffennaf 2015, rôl lle mae'n arwain gweithgareddau'r CMA ym maes gorfodi cyfraith defnyddwyr a chyfraith diogelu defnyddwyr.  Mae'n aelod Gweithredol o Fwrdd y CMA.

*Erik Wilson CBE (Prif Swyddog Gweithredu)*

Penodwyd Erik Wilson yn Brif Swyddog Gweithredu ym mis Mehefin 2020, ar ôl iddo fod yn Gyfarwyddwr Gweithredol, Gwasanaethau Corfforaethol ers mis Medi 2013. Mae'n arwain prosiectau sefydliadol ac yn sicrhau bod gan y CMA swyddogaethau cymorth o'r radd flaenaf. Erik yw Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol y CMA. Mae'n aelod Gweithredol o Fwrdd y CMA.

*Dr Mike Walker (Prif Gynghorydd Economaidd)*

Penodwyd Mike Walker yn Brif Gynghorydd Economaidd ac yn un o gynghorwyr y Bwrdd ym mis Medi 2013. Mae'n rhoi cyngor ar achosion cymhleth ac yn sicrhau cyngor sydd bob amser o ansawdd uchel gan Swyddfa Prif Economegydd y CMA, gan gynnwys yr Uned Microeconomeg ac Uned Data, Technoleg a Dadansoddeg y CMA.

*Stuart Hudson (Uwch-Gyfarwyddwr Strategaeth, Cyfathrebu ac Eiriolaeth)*

Penodwyd Stuart Hudson yn Uwch-Gyfarwyddwr Strategaeth, Cyfathrebu ac Eiriolaeth ym mis Tachwedd 2019, gyda chyfrifoldeb gweithredol am ddatblygu strategaeth y CMA, ei swyddogaeth eirioli statudol, ei gyfathrebu allanol, yn ogystal â'i waith yn y gwledydd datganoledig. Arferai fod yn un o gynghorwyr Bwrdd y CMA. Gadawodd Stuart y CMA ym mis Mawrth 2023.

*Chris Prevett (Cwnsler Cyffredinol Dros Dro)*

Penodwyd Chris Prevett yn Gwnsler Cyffredinol Dros Dro ac yn un o gynghorwyr Bwrdd y CMA ym mis Gorffennaf 2022. Mae'n sicrhau gwaith cyfreithiol sydd bob amser o ansawdd uchel yn y CMA, gan arwain Gwasanaeth Cyfreithiol y CMA a'r Gyfarwyddiaeth Polisi a Rhyngwladol.

*Lucy Robbins (Uwch-Gyfarwyddwr Pobl, Gallu a Diwylliant)*

Penodwyd Lucy Robbins yn Uwch-Gyfarwyddwr Pobl, Gallu a Diwylliant ym mis Tachwedd 2018. Mae'n arwain y broses o gynllunio a chyflawni strategaeth pobl y CMA. Daeth Lucy yn un o gynghorwyr Bwrdd y CMA ym mis Medi 2022.

*Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd 2022/23*

| Aelod o'r Bwrdd | **Presenoldeb mewn cyfarfodydd** (Ar gyfer y cyfarfodydd hynny yr oedd aelodau'n gymwys i fod yn bresennol ynddynt) |
|---|---|
| **Kirstin Baker** | 14/15 |
| **Marcus Bokkerink** | 9/9 |
| **Sarah Cardell** | 9/9 |
| **Martin Coleman** | 15/15 |
| **Andrea Coscelli** | 6/6 |
| **Cynthia Dubin** | 12/15 |
| **Amelia Fletcher** | 15/15 |
| **Michael Grenfell** | 15/15 |
| **Murdoch MacLennan** | 14/15 |
| **Jonathan Scott** | 6/6 |
| **David Stewart** | 15/15 |
| **Erik Wilson** | 13/15 |

***Pwyllgorau'r Bwrdd***

Rydym yn adolygu effeithiolrwydd y Bwrdd bob blwyddyn, a'i bwyllgorau bob dwy neu dair blynedd. Cyflwynwyd adolygiad effeithiolrwydd y Bwrdd ar gyfer 2021/22, a oedd yn cwmpasu'r Bwrdd a'i Bwyllgorau Anweithredol, i'r Pwyllgor Enwebiadau ym mis Gorffennaf 2022 a chafodd ei ddosbarthu i'r Bwrdd hefyd. Ymysg yr argymhellion roedd prosiect i adolygu hyd a dosbarthiad papurau pwyllgorau; ystyried y ffordd orau o feithrin cydberthnasau â rhwydweithiau staff a grwpiau staff eraill; a datblygu rhaglen dreigl o adolygiadau portffolio.

*Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg*

Cadeirir y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gan Gyfarwyddwr Anweithredol, Cynthia Dubin, ac mae ganddo ddau aelod arall, sef: Kirstin Baker (sy'n gyfrifydd cymwysedig, Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd Ymchwiliadau ar y Panel Cystadleuaeth) a Frances McLeman, (aelod o Banel Cystadleuaeth y CMA).

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a/neu'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol (y Prif Weithredwr a/neu y Prif Swyddog Gweithredu yn y drefn honno), Cadeirydd y CMA, y Cyfarwyddwr Cyllid, Pennaeth Risg ac aelod o'r uwch-dîm arwain yn y Gwasanaeth Cyfreithiol hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Cafodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth eu cynrychioli yn y cyfarfodydd hyn.

Mae cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cwmpasu pob agwedd ar lywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol o fewn y CMA. Mae'n rhoi cyngor i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a Bwrdd y CMA ar briodoldeb y datganiadau ariannol, a ydynt yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a digonolrwydd trefniadau archwilio (mewnol ac allanol). Mae hefyd ganddo rôl allweddol ar oblygiadau sicrwydd a roddir mewn perthynas â risg a rheolaeth, gyda'r bwriad o alluogi'r Bwrdd i roi sicrwydd i'w hun ynghylch effeithiolrwydd system rheoli risg a gweithdrefnau a rheoliadau mewnol y CMA gan gynnwys parhad busnes a thechnoleg gwybodaeth. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn

canolbwyntio ar risg drwy gydol
pob cyfarfod, yn aml gan ystyried yn fanylach faterion a allai beri risgiau penodol i'r CMA.

Yn 2022/23, cydweithiodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn agos gyda Chyfarwyddwr Cyfreithiol, Llywodraethu, Cydymffurfiaeth a Risg a Phennaeth Risg y CMA er mwyn sicrhau y bod asesu risgiau ac ymdrin â nhw yn briodol yn parhau i fod yn rhan annatod o drefniadau llywodraethu'r CMA. Arweiniodd y gwaith penodol hwn at wella prosesau adrodd ar risgiau i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, gyda risgiau corfforaethol a strategol yn cael eu hystyried ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Cytunodd y Bwrdd ar fframwaith awydd i fentro diwygiedig ym mis Chwefror 2023.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg bedair gwaith yn 2022/23.

*Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 2022/23*

| Aelod o'r Bwrdd | Presenoldeb mewn cyfarfodydd (Ar gyfer y cyfarfodydd hynny yr oedd aelodau'n gymwys i fod yn bresennol ynddynt) |
|---|---|
| Kirstin Baker | 4/4 |
| Cynthia Dubin | 4/4 |
| Frances McLeman | 4/4 |

*Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth*

Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yw'r Cyfarwyddwr Anweithredol, Amelia Fletcher, gyda thri aelod Anweithredol eraill, sef: Marcus Bokkerink, Cadeirydd y CMA, (Jonathan Scott yn flaenorol), Martin Coleman, Cadeirydd y Panel Cystadleuaeth a Murdoch MacLennan, Cadeirydd Swyddfa'r Farchnad Fewnol.

Fel Prif Weithredwr, bu Sarah Cardell yn bresennol ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ynghyd â'r Prif Swyddog Gweithredu, Erik Wilson. Gall yr Uwch-Gyfarwyddwr Pobl, Gallu a Newid a Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol hefyd fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar bob agwedd ar gydnabyddiaeth i bob aelod o staff sy'n Uwch-Weision Sifil, gan gynnwys goruchwylio pob elfen ar reoli perfformiad SET a chymeradwyo dyfarniadau cyflog a bonysau yn unol â rheolau Swyddfa'r Cabinet.Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth hefyd yn rhoi arweiniad strategol ar faterion cyflogau dirprwyedig. Cyfarfu'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth bedair gwaith yn ystod 2022/23.

*Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth 2022/23*

| Aelod o'r Bwrdd | Presenoldeb mewn cyfarfodydd (Ar gyfer y cyfarfodydd hynny yr oedd aelodau'n gymwys i fod yn bresennol ynddynt) |
|---|---|
| Amelia Fletcher | 4/4 |
| Jonathan Scott | 1/1 |
| Marcus Bokkerink | 2/2 |
| Martin Coleman | 4/4 |

| | |
|---|---|
| **Murdoch MacLennan** | 3/4 |

*Y* Pwyllgor Enwebiadau

Cadeirir y Pwyllgor Enwebiadau gan Gyfarwyddwr Anweithredol, Cynthia Dubin. Mae Marcus Bokkerink, Cadeirydd y CMA (Jonathan Scott yn flaenorol) a Sarah Cardell, Prif Weithredwr (Andrea Coscelli yn faenorol) hefyd yn aelodau.

Gall yr Uwch-Gyfarwyddwr Pobl, Gallu a Newid, Cyfarwyddwr y Swyddfa Weithredol, Diogelwch a Pherfformiad a Throsglwyddo Eiddo hefyd fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Enwebiadau.

Diben y Pwyllgor Enwebiadau yw rhoi cyngor i'r Adran Busnes a Masnach ar gynllunio ar gyfer olyniaeth ar gyfer aelodau gweithredol ac anweithredol o'r Bwrdd a rhoi cyngor ar benodiadau i Fwrdd y CMA yn y dyfodol. Cyfarfu'r Pwyllgor Enwebiadau ddwywaith yn 2022/23 gan ganolbwyntio ar gynllunio ar gyfer olyniaeth ar gyfer Uwch-dîm Gweithredol y CMA a chyngor i'r Llywodraeth mewn partneriaeth ag ymgyrchoedd recriwtio parhaus ac arfaethedig ar gyfer rolau yn y CMA sy'n cael eu cynnal gan yr Adran Busnes a Masnach.

*Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Enwebiadau 2022/23*

| **Aelod o'r Pwyllgor Enwebiadau** | **Presenoldeb mewn cyfarfodydd** (Ar gyfer y cyfarfodydd hynny yr oedd aelodau'n gymwys i fod yn bresennol ynddynt) |
|---|---|
| **Andrea Coscelli** | 1/1 |
| **Cynthia Dubin** | 2/2 |
| **Jonathan Scott** | 1/1 |
| **Sarah Cardell** | 2/2 |
| **Marcus Bokkerink** | 1/1 |

*Pwyllgor yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau*

Sefydlwyd yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau ar 4 Ionawr 2023. Mae'n ystyried materion strategol fel y maent yn berthnasol i swyddogaethau rheoli cymorthdaliadau'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau. Mae'r rhain yn cynnwys, yn benodol, strategaeth ac amcanion cyffredinol yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau, cyflawniad a pherfformiad, cynllunio ar gyfer atgyfeiriadau, materion o ran cyfundrefn ac enw da a pholisïau a gweithdrefnau. Caiff y pwyllgor ei gadeirio gan y Prif Weithredwr, Sarah Cardell, ac mae ei aelodaeth yn cynnwys Cyfarwyddwyr Anweithredol, Cyfarwyddwyr Gweithredol, Uwch-Gyfarwyddwyr a Chyfarwyddwr. Mae Pwyllgor yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau yn cwrdd bob yn ail wythnos

*Presenoldeb yng nghyfarfodydd pwyllgor yr Uned Cyngor ar Gydnabyddiaeth 2022/23*

| **Aelod o Bwyllgor yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau** | **Presenoldeb mewn cyfarfodydd** (Ar gyfer y cyfarfodydd hynny yr oedd aelodau'n gymwys i fod yn bresennol ynddynt) |
|---|---|
| **Sarah Cardell** | 4/7 |
| **Murdoch MacLennan** | 6/7 |
| **Kirstin Baker** | 6/7 |
| **David Stewart** | 7/7 |
| **Chris Prevett** | 5/7 |
| **Mike Walker** | 4/7 |
| **Rachel Merelie** | 7/7 |
| **Anthony Wright** | 2/2 |

*Y Pwyllgor Bancio Agored*

Sefydlwyd y Pwyllgor Bancio Agored yn wreiddiol ym mis Mehefin 2021 ac mae'n rhoi arweiniad ar yr Endid Gweithredu Bancio Agored ac, yn benodol, monitro gwaith llywodraethu corfforaethol yr Endid, y trefniadau ar ei gyfer yn y dyfodol a'r broses o drawsnewid i endid newydd. Caiff y Pwyllgor Bancio Agored ei gadeirio gan Sarah Cardell. Penodwyd Marcus Bokkerink (Cadeirydd) a Kirstin Baker (Cyfarwyddwr Anweithredol) yn aelodau o'r pwyllgor ym mis Medi 2022, pan ymddiswyddodd Jonathan Scott o'r pwyllgor hwn; ymddiswyddodd Cynthia Dubin hefyd o'r Pwyllgor Bancio Agored ar ddiwedd mis Hydref 2022. Cyfarfu'r Pwyllgor Bancio Agored 16 o weithiau yn 2022/23.

*Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Bancio Agored 2022/23*

| Aelod o'r Pwyllgor Bancio Agored | **Presenoldeb mewn cyfarfodydd** (Ar gyfer y cyfarfodydd hynny yr oedd aelodau'n gymwys i fod yn bresennol ynddynt) |
|---|---|
| **Marcus Bokkerink** | 8/8 |
| **Andrea Coscelli** | 3/6 |
| **Kirstin Baker** | 5/6 |
| **Sarah Cardell (ers dod yn Brif Weithredwr)** | 9/9 |
| **Jonathan Scott** | 10/10 |
| **Cynthia Dubin** | 10/11 |

*Pwyllgor Gweithredol*

Y Pwyllgor Gweithredol yw'r corff gwneud penderfyniadau cyffredinol ar gyfer perfformiad a chyflawni. Fel y nodir yn ei gylch gwaith, mae'r Pwyllgor Gweithredol yn goruchwylio ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch strategaeth, cyflawni a pherfformiad, portffolio a phrosiectau arfaethedig, cyllid a risg, staffio, trawsnewid sefydliadol, materion sy'n ymwneud â chyfundrefnau ac enw da. Mae hefyd yn gwneud penderfyniadau ynghylch materion sy'n ymwneud â'r Bwrdd, gan gynnwys paratoi ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a'u hadolygu.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cwrdd bob wythnos a chaiff ei gadeirio gan y Prif Weithredwr, Sarah Cardell, ac mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol Gorfodi a Marchnadoedd ac Uno, y Prif Swyddog Gweithredu, y Cwnsler Cyffredinol, y Prif Gynghorydd Economaidd, yr Uwch-Gyfarwyddwr Pobl, Gallu a Diwylliant a'r Uwch-Gyfarwyddwr Strategaeth, Cyfathrebu ac Eirioli hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol hefyd yn ystyried ac yn cymeradwyo argymhellion gan ei isbwyllgorau – y Pwyllgor Gweithrediadau a'r Pwyllgor Adnoddau, Portffolio a Phrosiectau Arfaethedig.

*Pwyllgor Achosion a Pholisi*

Mae'r Pwyllgor Achosion a Pholisi yn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi'r CMA mewn perthynas â phob dull cyflawni ac yn goruchwylio achosion a phrosiectau, gan sicrhau dull gweithredu cyson, ac yn rhoi cyngor ar faterion cyfreithiol, economaidd neu bolisi lefel uchel wrth iddynt godi.

Mae'r Pwyllgor Achosion a Pholisi yn cwrdd o leiaf unwaith y mis a chaiff ei gadeirio gan y Prif Weithredwr, Sarah Cardell, ac mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol Gorfodi a Marchnadoedd ac Uno, dau aelod o'r Panel (y Cadeiryddion Ymchwiliadau mae'n debyg), y Cwnsler Cyffredinol, y Prif Gynghorydd Economaidd, yr Uwch-Gyfarwyddwr Rhwymedïau, Busnes a Dadansoddi Ariannol, yr Uwch-Gyfarwyddwr Marchnadoedd a'r Uwch-Gyfarwyddwr Cyfreithiol, Polisi a Rhyngwladol hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd.

### *Isbwyllgorau'r Pwyllgor Gweithredol*

*Pwyllgor Gweithrediadau*

Mae'r Pwyllgor Gweithrediadau yn sicrhau bod gan y CMA bolisïau, gweithdrefnau a phrosesau busnes priodol, effeithiol a chadarn, gan gynnwys mewn perthynas â pharhad busnes, diogelwch gwybodaeth, cyllid a materion staff. Cadeirir y Pwyllgor Gweithrediadau gan y Prif Swyddog Gweithredu, Erik Wilson; mae ei aelodaeth graidd yn cynnwys Uwch-Gyfarwyddwyr o bob rhan o'r CMA a nifer o Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Corfforaethol. Ym mis Ionawr 2022, adolygodd y Pwyllgor Gweithrediadau ei Gylch Gorchwyl i adlewyrchu ei gylch gwaith ehangach yn goruchwylio'r broses o gyflawni rhaglen Trawsnewid Eiddo'r CMA a Rhaglen Llywio'r Dyfodol y CMA. Mae'r Pwyllgor Gweithrediadau'n cwrdd bob chwe wythnos.

*Pwyllgor Adnoddau, Portffolio a Phrosiectau Arfaethedig*

Mae'r Pwyllgor Adnoddau, Portffolio a Phrosiectau Arfaethedig (y Grŵp Llywio Prosiectau Arfaethedig gynt) yn adolygu ac yn rhoi cyfeiriad strategol mewn perthynas â defnydd y CMA o'i adnoddau a'i allu yn ei waith parhaus a'i waith arfaethedig, ynghyd ag adolygu a rhoi cyfeiriad strategol i gydbwysedd a blaenoriaethau portffolio gwaith parhaus y CMA ac mae'n ystyried ac yn gwneud argymhellion ar brosiectau arfaethedig y CMA. Caiff y Pwyllgor Adnoddau, Portffolio a Phrosiectau Arfaethedig ei gadeirio gan y Prif Weithredwr, Sarah Cardell, ac mae ei aelodaeth yn cynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch-Gyfarwyddwyr o bob rhan o'r CMA. Mae'r Pwyllgor Adnoddau, Portffolio a Phrosiectau yn cwrdd bob mis.

### *Y Pwyllgor Cynghori*

Ym mis Medi 2021, sefydlodd y CMA Bwyllgor Cynghori fel rhan o'i waith ehangach ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a Chynllun Gweithredu ar Hil 2020. Mae'r Pwyllgor Cynghori yn gweithredu mewn rhinwedd gynghorol ac nid oes ganddo unrhyw bwerau i wneud penderfyniadau. Mae'r Pwyllgor Cynghori yn gweithio i wella profiadau amrywiol a syniadau amrywiol ar lefelau uwch o'r CMA, gan roi gwybodaeth a chyngor i lywio, cefnogi a herio penderfyniadau a wneir ar lefel uwch mewn modd adeiladol. Mae hefyd yn rhoi cyngor ar faterion strategol allweddol penodol a ystyrir gan y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Gweithrediadau cyn iddynt gael eu hystyried gan y Bwrdd, megis datblygu Cynllun Blynyddol y CMA; mae'n rhoi cyngor pellach ar ddewis a blaenoriaethu achosion a phrosiectau a ystyrir gan y Pwyllgor Adnoddau, Portffolio a Phrosiectau Arfaethedig. Rhaid i'r pwyllgorau hyn ystyried cyngor ac argymhellion y Pwyllgor Cynghori. Mae'r Pwyllgor Cynghori'n cwrdd bob wythnos.

Mae gan y Pwyllgor Cynghori Gadeirydd allanol ac Annibynnol o'r Gwasanaeth Sifil. Penodwyd y Cadeirydd hwn ym mis Medi 2021. Cafodd ei gyfnod presennol ei ehangu 18 mis o fis Medi 2022.Daw aelodau'r Pwyllgor Cynghori o wahanol feysydd a phroffesiynau ym mhob rhan o'r CMA, ac o gefndiroedd a grwpiau a dangynrychiolir ar lefel uwch.

### *Panel Cystadleuaeth y CMA*

Fel y nodir yn y Ddeddf,[7] gwneir penderfyniadau ynghylch ymchwiliadau uno cam 2, ymchwiliadau i farchnadoedd ac apeliadau rheoleiddiol gan grwpiau annibynnol sy'n cynnwys aelodau o Banel Cystadleuaeth y CMA. Mae gan bob grŵp o leiaf dri aelod ac fe'i harweinir gan Gadeirydd Ymchwiliadau. Gall aelodau'r Panel Cystadleuaeth hefyd gael eu penodi i grwpiau penderfynu ar achosion Deddf Cystadleuaeth 1998.

Mae'r grwpiau yn gwneud eu penderfyniadau yn annibynnol ar Fwrdd y CMA. Nid yw'r gofyniad i'r Grŵp weithredu'n annibynnol yn atal Bwrdd y CMA rhag rhoi gwybodaeth briodol yn ei feddiant i Grŵp ac fel arall.[8] Caiff y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am adnoddau, effeithlonrwydd, y ffordd y cymhwysir polisi'r CMA a'r prosesau staff sy'n cefnogi gwaith y Panel Cystadleuaeth. Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol bod o leiaf un aelod o'r Panel Cystadleuaeth yn eistedd ar Fwrdd y CMA, ac mae Cadeirydd y Panel Cystadleuaeth[9] ac un o'r Cadeiryddion Ymchwiliadau yn aelodau o'r Bwrdd ar hyn o bryd.[10]

Penodir Cadeirydd y Panel Cystadleuaeth ac aelodau'r Panel Cystadleuaeth drwy gystadleuaeth agored oherwydd eu profiad, eu gallu a'u sgiliau amrywiol ym meysydd economeg cystadleuaeth, y gyfraith, cyllid a busnes, a pholisi cyhoeddus. Fel sy'n ofynnol o dan y gyfraith, penodir unigolion i Banel Cystadleuaeth y CMA gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach am hyd at wyth mlynedd. Mae Cadeirydd Ymchwiliadau yn dibynnu ar fod yn aelod o Banel Cystadleuaeth y CMA.

[7] Rhan 3, Atodlen 4 i Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013.

[8] Paragraff 49(2) o Atodlen 4 i'r Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio.

[9] Mae'r CMA yn penodi aelod o'r panel i fod yn Gadeirydd ar y Panel a chyflawni swyddogaethau penodol ar ran Cadeirydd y CMA (sy'n cynnwys sefydlu un o grwpiau'r CMA) drwy bŵer dirprwyedig o dan baragraff 48(4) o Atodlen 4 i'r Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio.

[10] Nid yw aelodau'r panel sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr Anweithredol yn cymryd unrhyw ran yn yr ystyriaeth a roddir gan y Bwrdd i b'un a ddylid cyfeirio at ymchwiliadau i farchnadoedd ar gyfer unrhyw ymchwiliad lle y rhagwelir y gallent ffurfio rhan o grŵp cam 2.

Ceir rhagor o wybodaeth am bob un o aelodau'r Panel Cystadleuaeth ar ein gwefan. Datgelir buddiannau aelodau'r panel fel rhan o'r broses benodi. Cynhelir gwiriad gwrthdaro, ar sail achosion unigol, pan gaiff aelodau'r Panel Cystadleuaeth eu penodi i gynnal ymchwiliadau.

***Aelodau Panel Cystadleuaeth y CMA***

*Cadeiryddion Ymchwiliadau*

*Martin Coleman (Cadeirydd y Panel Cystadleuaeth, Cadeirydd Ymchwiliadau a Chyfarwyddwr Anweithredol)*

Gweler bywgraffiad Martin ar dudalen 44.

*Kirstin Baker CBE (Cadeirydd Ymchwiliadau a Chyfarwyddwr Anweithredol)*

Gweler bywgraffiad Kirstin ar dudalen 44.

*Margot Daly (Cadeirydd Ymchwiliadau)*

Penodwyd Margot yn Gadeirydd Ymchwiliadau ym mis Medi 2021, ar ôl gwasanaethu fel aelod o'r Panel Cystadleuaeth ers mis Mai 2020.

*Richard Feasey (Cadeirydd Ymchwiliadau)*

Penodwyd Richard yn Gadeirydd Ymchwiliadau ym mis Ebrill 2021, ar ôl gwasanaethu fel aelod o'r Panel Cystadleuaeth ers mis Hydref 2017. Mae'n aelod o banel cyfleustodau arbenigol y CMA.

*Stuart McIntosh (Cadeirydd Ymchwiliadau)*

Penodwyd Stuart yn Gadeirydd Ymchwiliadau ym mis Ebrill 2018, ar ôl gwasanaethu fel aelod o'r Panel Cystadleuaeth ers mis Hydref 2017. Mae'n aelod o banel cyfleustodau arbenigol y CMA.

*Kip Meek (Cadeirydd Ymchwiliadau)*

Penodwyd Kip yn Gadeirydd Ymchwiliadau ym mis Tachwedd 2018.

Ar gyfer y cyfnod 2022/23, aelodau'r Panel Cystadleuaeth oedd:

| Jo Armstrong | Humphrey Battcock | Robin Cohen |
|---|---|---|
| Maria da Cunha | Anne Fletcher | Robin Foster |
| Roland Green | Ashleye Gunn | Susan Hankey |
| Dr Ulrike Hotopp | Paul Hughes | Colleen Keck |
| Juliet Lazarus | Sheila McClelland | Frances McLeman |
| Cyrus Mehta | Paul Muysert | Jeremy Newman |
| Syr Kenneth Parker | Keith Richards | Stephen Rose |
| Karthik Subramanya | Yr Athro John Thanassoulis | Yr Athro Mark Thatcher |
| David Thomas | Claire Whyley | Crispin Wright |

## Rheoli risg

Mae trefniadau rheoli risg cadarn yn helpu'r CMA i wneud penderfyniadau gwell. Mae dull y CMA o reoli risg yn gadarnhaol ac yn ei helpu i gyflawni ei nodau a'i amcanion heriol i hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg. Trafodir risgiau mewn ffordd agored a thryloyw. Mae

hyn yn galluogi'r CMA i nodi risgiau ac ymdrin â nhw yn gyflym ac yn creu diwylliant o berchenogaeth o faterion risg ar bob lefel yn y sefydliad, lle y caiff risgiau eu nodi a'u huwchgyfeirio.

Yn 2022/23, adeiladodd y CMA ar y gwaith a oedd wedi'i wneud yn y flwyddyn flaenorol i roi'r fframwaith rheoli risg ar waith, er mwyn sicrhau yr asesir risgiau ac yr ymdrinnir â nhw yn briodol am fod hyn yn parhau i fod yn rhan annatod o drefniadau llywodraethu'r CMA. Mae'r fframwaith risg hyblyg hwn hefyd yn sicrhau cysondeb o ran y ffordd y caiff risgiau eu nodi, eu rheoli a'u cofnodi ac yn ymateb i ansicrwydd a all effeithio ar allu'r CMA i gyflawni ei flaenoriaethau strategol.

Mae'r fframwaith rheoli risg yn galw am gynnal asesiad o broffil presennol y risg a bod y risg weddilliol yn cael ei nodi'n glir. Risg weddilliol yw asesiad o'r risg ar ôl i'r holl gamau gweithredu a ragwelir gael eu rhoi ar waith i ddileu'r risg gynhenid. Mae'r gofyniad hwn yn golygu y rhoddir ystyriaeth weithredol i gamau lliniaru a beth fydd eu heffaith ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith. Mae gan y lefelau risg weddilliol gydberthynas uniongyrchol ag Awydd y Bwrdd i Fentro (a ddiwygiwyd ym mis Ionawr 2023) oherwydd y nodir lefel dderbyniol o risg weddilliol ar gyfer pob un o'i chwe thema allweddol gan gynnwys strategol, ymgyfreitha, cyllid/gwerth am arian, gweithredol, cydymffurfiaeth gyfreithiol ac enw da. Mae'r Awydd i Fentro yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd mewn amgylchiadau cyfyngedig, yn amodol ar brosesau uwchgyfeirio a chymeradwyo priodol. Mae cofrestr risgiau corfforaethol y CMA yn rhoi asesiad strwythuredig o effaith, tebygolrwydd a chyflymder ac mae Pennaeth Risg yn gweithio gyda'r Cyfarwyddiaethau i reoli cofrestrau risgiau lleol, sy'n bwydo i mewn i'r gofrestr risgiau corfforaethol ganolog bob mis. Mae'r gofrestr risgiau wedi'i rhannu'n ddwy haen o risgiau corfforaethol a strategol. Caiff y gofrestr risgiau ei hadolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd.

Mae gan y CMA system sefydledig o reolaethau mewnol, a chaiff y swyddogaeth risg ei harwain gan y Pennaeth Risg a'r Cyfarwyddwr Cyfreithiol dros Lywodraethu, Risg a Chydymffurfiaeth (sydd yn ei dro yn adrodd i'r Cwnsler Cyffredinol). Fel rhan o'r systemau rheolaeth fewnol mae'r Cyfarwyddiaethau yn diweddaru eu cofrestrau risgiau lleol bob mis; yn cynnal adolygiad o'r cofrestrau lleol a llunio cofrestr risgiau corfforaethol ganolog ar gyfer risg haen 1 a haen 2 gan y swyddogaeth risg; ac yn cynnal adolygiad a thrafodaeth o'r gofrestr risgiau corfforaethol ganolog a gweithrediad y fframwaith risgiau gan y Pwyllgor Gweithredol bob mis. Hefyd, mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cynnal adolygiad o'r portffolio risg yn erbyn Awydd y Bwrdd i Fentro bob chwarter. Mae'r pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnal adolygiad o'r gofrestr risgiau ac effeithiolrwydd y fframwaith risgiau ac mae'n rhoi adborth bob chwarter. Mae hyn yn cynnwys ystyried risgiau gweddilliol yn erbyn yr Awydd i Fentro ac mae hyn yn sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu'n unol â'r Awydd i Fentro ac y cymerir camau priodol i gyd-fynd â'r Awydd i Fentro. Arweiniodd adolygiad 2022/23 o'r fframwaith risgiau at ei wella drwy gyflwyno asesiad o gydgysylltedd risgiau bob chwarter gan y Pwyllgor Gweithredol ac yna bod yr asesiad hwnnw hefyd yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg bob chwarter, a chyflwyno rhagor o ganllawiau i staff ar gwblhau cofrestrau risg lleol. Mae'r Bwrdd hefyd yn adolygu risgiau haen 1 bob mis, gan ystyried, yn benodol, risgiau wedi'u huwchgyfeirio, gan adolygu portffolio risg cyffredinol a herio lle y bo'n briodol, gan gynnwys y camau lliniaru. Mae risgiau'n rhan allweddol o'r diweddariad a roddir gan y Prif Weithredwr ym mhob cyfarfod Bwrdd, pan gaiff y risgiau pwysicaf sy'n wynebu'r sefydliad eu codi gyda'r Bwrdd.

Hyrwyddir y dull o ymdrin â risg i'r staff ym mhob rhan o'r sefydliad, gan gynnwys drwy dudalennu mewnrwyd y CMA a thrwy hyfforddiant. Mae'r gwaith penodol hwn ar risg wedi sicrhau bod risgiau yn cael eu cofnodi a'u rheoli'n well ym mhob rhan o'r CMA. Nodir crynodeb o risgiau allweddol yn adroddiad y Prif Weithredwr ar dudalen 28 (Edrych i'r dyfodol – cyfleoedd, heriau a risgiau).

### Llunio CMA y dyfodol

Pan benodwyd Cadeirydd newydd ym mis Medi 2022 a Phrif Weithredwr dros dro ym mis Gorffennaf 2022, gwnaethom sefydlu rhaglen i gynnal adolygiad sylfaenol o sawl agwedd ar y modd y mae'r CMA yn gweithredu. Gyda newidiadau i'n cylch gwaith, ein harweinyddiaeth a'n ffyrdd o weithio, gwelsom gyfle i uno a symud y sefydliad y tu ôl i uchelgais, strategaeth a model gweithredu newydd a chadarn dros y tymor canolig.

Roedd rhaglen Llywio CMA y Dyfodol yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

- Ein gwerthoedd – pam rydym yn bodoli a pha werthoedd sy'n arwain popeth a wnawn?
- Ein diben, ein dyheadau a'n blaenoriaethau tymor canolig – beth rydym am ei gyflawni a beth y byddwn yn canolbwyntio arno (a beth na fyddwn yn ei wneud)?
- Ein model busnes ar gyfer y dyfodol a'n galluoedd – sut y byddwn yn trefnu ac yn arfogi ein hunain i gyflawni'r dyhead hwnnw a gwneud y gorau o effeithiolrwydd ein pobl:
  a. Y gwaith a wnawn a sut rydym yn ei wneud
  b. Sut rydym wedi ein trefnu a pha sgiliau sydd eu hangen arnom
  c. Gwneud penderfyniadau
  d. Trawsnewidiad digidol
- Ein datganiad gwerth i gyflogeion – sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i ddenu a chadw'r bobl fwyaf talentog ac amrywiol y mae llwyddiant y CMA yn dibynnu arnynt? Sut y byddwn yn grymuso cydweithwyr?

Yn ystod gaeaf 2022/23, gwnaethom gynnal cam cychwynnol y rhaglen, gyda darpariaeth yn cael ei thrawsnewid yn weithgarwch busnes fel arfer o fis Ionawr 2023 ymlaen. Mae'r gweithgarwch hwn bellach yn cael ei reoli drwy ein sianelau llywodraethu a goruchwylio arferol gan gynnwys yr Uwch-Dîm Gweithredol, y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd.

### Rhoi Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth ar Waith

Mae Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth yn cyfeirio at gyfres a gyhoeddwyd o safonau rheoli a ddatblygwyd gan Swyddfa'r Cabinet, ac sydd wedi'u mandadu i'w defnyddio ym mhob rhan o lywodraeth ganolog ers mis Medi 2021, gan gynnwys swyddogaethau fel cyflawni prosiectau, masnachol a chyllid. Diben Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth yw creu dull gweithredu cydlynol, effeithiol a safonedig i ymgymryd â busnes o fewn gwaith llywodraethu ac i roi sylfaen sefydlog ar gyfer adeiladu gallu a gwelliant parhaus.

Mae ein fframwaith sicrwydd yn rhoi rolau ac atebolrwydd clir i'r sawl sy'n ymgymryd â gwaith cyflawni llinell flaen a gwaith goruchwylio corfforaethol cysylltiedig, ac mae'r defnydd o bob Safon wedi'i ymgorffori yn y sefydliad.

Yn 2022/23, cynhaliodd Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth adolygiad goruchwylio i roi sicrwydd annibynnol a gwrthrychol o effeithiolrwydd a digonolrwydd prosesau llywodraethu, risg a rheoli ymdrechion y CMA i sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â holl Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth a bod rheolaethau gwario Swyddfa'r Cabinet yn cael eu cymhwyso'n briodol.

Yn adroddiad archwiio Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth a gyhoeddwyd i'r CMA ym mis Ebrill 2023, nodwyd ei bod wedi arsylwi ar arferion da yn y model llywodraethu sy'n rhoi goruchwyliaeth glir i uwch-reolwyr, gan gynnwys y Prif Swyddog Gweithredu ac ARAC, ar ein proses o reoli cydymffurfiaeth â Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth a rheolaethau gwario. Mae'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer cefnogi'r CMA i gyflawni cydymffurfiaeth â Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth ac i gydymffurfio â rheolaethau gwario wedi'u diffinio, eu dogfennu a'u cyfathrebu a'u deall yn glir.

Er ein bod yn fodlon bod ein fframwaith llywodraethu, risg a rheoli ar gyfer cydymffurfio â Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth yn gweithredu fel y'i bwriedir, mae cyfleoedd i wella ar hyn ac atgyfnerthu'r amgylchedd rheoli mewn perthynas â Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio dros yr hirdymor. Rydym yn bwriadu rhoi holl argymhellion rheoli Asiantaeth Archwilio mewnol y Llywodraeth ar waith yn 2023/24 a byddwn yn adrodd ar ein cynnydd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg bob chwarter.

**Cydymffurfiaeth**

***Cydymffurfiaeth â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol[11]***

Mae'r CMA wedi cydymffurfio ag egwyddorion a darpariaethau'r Cod Arferion Da ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol yn Adrannau Llywodraeth Ganolog, i'r graddau sy'n briodol ac yn unol â'i ddyletswyddau statudol.

***Nodi a rheoli gwrthdaro buddiannau – buddiannau allanol***

Mae polisi Gwrthdaro Buddiannau[12] y CMA yn nodi'r broses ar gyfer datgan buddiannau allanol a rheoli unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau a allai godi ar gyfer y Bwrdd, y Panel Cystadleuaeth ac aelodau o staff o ganlyniad i fuddiannau allanol. Yn unol â'r polisi hwn, mae holl aelodau'r Bwrdd, y Panel ac aelodau o staff yn datgan buddiannau allanol a allai achosi risg o wrthdaro â'u rheolwyr a/neu'r Swyddog Cydymffurfiaeth er mwyn iddynt asesu a oes unrhyw wrthdaro buddiannau yn codi o ganlyniad i fuddiannau allanol ac, os felly, sut y dylid ei reoli. Mae'r polisi hwn yn gadarn ac mae'n cadw at ofynion perthnasol Cod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

Ym mis Mai/Mehefin 2023, cynhaliwyd ymarfer sicrwydd[13] i sicrhau bod unrhyw gyflogaeth a delir yn allanol a ddelir gan Uwch-Weision Sifil yn y CMA yn wrthdaro buddiannau. Canfu'r ymarfer hwn, y mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y CMA wedi craffu arnynt, nad oedd yr un o Uwch Weision Sifil y CMA yn dal swyddi â thâl na buddiannau ehangach a allai wrthdaro â'u rhwymedigaethau o dan bolisi Gwrthdaro Buddiannau'r CBA na Chod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil. Yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet ar Ddatgan a rheoli buddiannau allanol yn y Gwasanaeth Sifil, cytunwyd ar fanylion tri Gwas Sifil a gafodd gydnabyddiaeth y tu allan i'w cyflogaeth yn unol â pholisi Gwrthdaro Buddiannau y CMA.

***Cymhwyso'r Rheolau Penodiadau Busnes***

Mae polisi Gwrthdaro Buddiannau'r CMA yn nodi'n glir, pan fydd staff yn gadael y sefydliad, fod yn rhaid iddynt gydymffurfio â gofynion y Rheolau Penodiadau Busnes ("BARs") cyn iddynt dderbyn penodiad newydd y tu allan i'r Gwasanaeth Sifil. Hefyd, mae gan y CMA bolisi BARs sy'n nodi'n fanylach y broses sydd ar waith ar gyfer ymdrin â cheisiadau a wneir ar raddau gwahanol o dan y Rheolau Penodiadau Busnes. Mae'r CMA wedi cymryd camau i sicrhau bod y ddau bolisi'n cael cyhoeddusrwydd da yn y sefydliad, drwy ddulliau cyfathrebu mewnol, cyflwyniadau i dimau a phroses gadarnhau flynyddol a nodir yn y polisi Gwrthdaro Buddiannau.

Mae adran Adnoddau Dynol y CMA yn dilyn proses sydd wedi'i diffinio'n glir i sicrhau y caiff ceisiadau BARs eu cwblhau gan bob aelod o staff cyn iddynt adael y Gwasanaeth Sifil a bod pob cais gan uwch-aelod o staff yn cael ei ystyried gan y Swyddog Cydymffurfiaeth.

[11] Cod Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer Adrannau Llywodraeth Ganolog, a luniwyd ar y cyd gan Drysorlys EF a Swyddfa'r Cabinet.

[12] Mae polisi Gwrthdaro Buddiannau y CMA wedi'i atodi (Atodiad D) i Reolau Gweithdrefnau Bwrdd y CMA.

[13] Cynhelir yr ymarfer sicrwydd hwn bob blwyddyn, fel sy'n ofynnol gan bolisi Gwrthdaro Buddiannau'r CMA, a chanllawiau Swyddfa'r Cabinet ar Ddatgan a rheoli buddiannau allanol yn y Gwasanaeth Sifil .

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y CMA wedi adolygu'r broses ar gyfer cydymffurfio â BARs i roi sicrwydd, yn y cyfnod adrodd diwethaf, bod y CMA wedi cymhwyso'r BARs i bob aelod o staff sy'n gadael y Gwasanaeth Sifil, a bod y CMA wedi bod yn dryloyw o ran y penderfyniad a wnaed mewn ceisiadau unigol gan uwch-aelodau o staff, mewn cydymffurfiaeth â gofynion adrodd tryloyw BARs (mae penderfyniadau a gyhoeddwyd ar gyfer y cyfnod adrodd diwethaf i'w gweld ar ein gwefan).

***Ceisiadau BARs 2022/23***

Cafwyd 11 o geisiadau gan staff sy'n Uwch-Weision Sifil y mae angen BARs arnynt, a dau gais gan staff sy'n Uwch-Weision Sifil a oedd yn trosglwyddo i Adrannau Eraill o'r Llywodraeth.

Cyfanswm nifer y ceisiadau BARs a gafwyd gan staff o bob gradd a aseswyd gan yr adran dros y flwyddyn (yn ôl gradd)

| | |
|---|---|
| **AO** | 12 |
| **EO** | 10 |
| **HEO** | 33 |
| **SEO** | 12 |
| **G7** | 20 |
| **G6** | 25 |
| **PB1** | 11 |
| **PB2** | 2 |

Cyfanswm nifer y ceisiadau BARs gan staff o bob gradd lle pennwyd amodau (yn ôl gradd):

| | |
|---|---|
| **AO** | 0 |
| **EO** | 0 |
| **HEO** | 2 |
| **SEO** | 1 |
| **G7** | 3 |
| **G6** | 6 |
| **PB1** | 4 |
| **PB2** | 2 |

Ni chafwyd unrhyw geisiadau a oedd yn anaddas i'r ymgeisydd, ac ni chafwyd unrhyw achosion o dorri'r Rheolau.

***Chwythu'r chwiban yn fewnol***

Mae polisi chwythu'r chwiban mewnol y CMA, a elwir yn ‘Speaking Out’, yn nodi'r broses i'w dilyn os bydd aelod o staff yn ymwybodol o gamymddwyn canfyddedig yn y CMA, gan gynnwys rhywbeth y mae'n credu ei fod yn mynd yn groes i werthoedd craidd Cod y Gwasanaeth Sifil (h.y. uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd a didueddrwydd). Mae'r polisi ar gael i bob aelod o staff ar y fewnrwyd a thynnir sylw aelodau newydd o staff ato yn ystod eu rhaglen sefydlu. Mae rhaglen gyfathrebu yn rhedeg drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys blogiau a chymryd rhan yn wythnos 'Speak Up' sy'n cwmpasu pob rhan o'r Gwasanaeth Sifil. Mae grŵp o Gynghorwyr 'Speaking Out' hyfforddedig ar gael i staff sydd am godi pryder ond nad ydynt yn siŵr sut i wneud hynny. Mae'r polisi yn rhan o fframwaith rheolaeth fewnol

y CMA ac fe'i hadolygir bob blwyddyn. Ni chafodd y CMA unrhyw gwynion chwythu'r chwiban yn ystod 2022/23.

***Cwynion corfforaethol***

Mae'r CMA yn cymryd cwynion a wneir yn ei erbyn o ddifrif. Mae gweithdrefn gwyno'r CMA yn darparu ar gyfer datrys cwynion yn gyflym mewn modd anffurfiol, er enghraifft drwy alwad ffôn, os bydd hynny'n foddhaol i'r achwynydd, neu drwy eu huwchgyfeirio at uwch-aelod annibynnol o staff os yw'n briodol. Mae'r CMA yn ymrwymedig i ymchwilio'n drylwyr i unrhyw gwynion sy'n codi materion difrifol sy'n ymwneud â'i ymddygiad.

Yn 2022/23, cafodd y CMA saith eitem o ohebiaeth a gododd faterion yn ymwneud â'i ymddygiad ac yr ymdriniwyd â nhw fel cwynion corfforaethol (2020/21: naw). O'r saith cwyn, ni chafodd yr un ohonynt eu cadarnhau.

Ni wnaed unrhyw gwynion yn erbyn y CMA i'r Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd yn ystod 2022/23 (2021/22: dim un).

***Gohebiaeth gyffredinol***

Yn 2022/23, ymdriniodd y CMA â 4,781 o eitemau o ohebiaeth ysgrifenedig gan y cyhoedd, a oedd yn cynnwys llawer o adroddiadau gan ddefnyddwyr a busnesau am ymddygiad gwrthgystadleuol neu broblemau mewn marchnadoedd ac a allai beri inni graffu ar farchnadoedd neu ymchwilio i fusnesau a all fod yn torri'r gyfraith (2021/22: 7,341). Mae gennym darged i ymateb i'r ohebiaeth hon o fewn 10 diwrnod gwaith. Gwnaethom ymateb i'r holl ohebiaeth hon o fewn y targed hwn (2021/22: 100%).

Yn ystod 2022/23, cafodd y CMA 110 o lythyrau gan ASau (heb gynnwys gohebiaeth adrannol gweinidogol) (2021/22: 152). Gwnaethom ymateb i 68.8% o'r llythyrau hyn o fewn ein targed o 15 diwrnod gwaith (2021/22: 79%).

***Ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth***

Yn 2022/23, ymatebodd y CMA i 89% o'r ceisiadau am wybodaeth a gafodd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn y cyfnod statudol o 20 diwrnod gwaith. Mae achosion o oedi o fewn y cyfnod statudol yn deillio'n bennaf o rinweddau cais penodol pob cais, yn arbennig lle roedd angen mewnbwn o bob rhan o'r sefydliad ar gyfer achosion mwy cymhleth.

*Ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023*

| **Cyfanswm y ceisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.** ***O'r rhain:*** | **149** |
|---|---|
| **Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yn llawn** | 47 |
| **Nifer y ceisiadau a wrthodwyd yn llwyr am nad yw'r CMA yn dal unrhyw wybodaeth y gofynnwyd amdani** | 20 |
| **Nifer y ceisiadau a wrthodwyd am y byddai cost yr ymateb yn fwy na'r trothwy cost** | 4 |
| **Nifer y ceisiadau a wrthodwyd am fod y cais yn un blinderus** | 0 |

| | |
|---|---|
| **Nifer y ceisiadau lle y gwrthododd y CMA ddarparu rhywfaint o'r wybodaeth** | 50 |
| **Nifer y ceisiadau lle y gwrthododd y CMA ddarparu'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani** | 28 |

Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd y CMA bedwar cais am adolygiad mewnol o benderfyniadau a wnaed o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac ymatebodd iddynt. Cafodd ei benderfyniad gwreiddiol ei gadarnhau yn nhri o'r adolygiadau hyn a'i gadarnhau'n rhannol yn un ohonynt.

Yn ystod y cyfnod hwn, ni wnaeth unrhyw unigolyn a oedd yn gwneud cais am wybodaeth gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y ffordd yr ymdriniodd y CMA â'i gais.

***Ceisiadau GDPR y DU***

Yn ystod yr un cyfnod, cafodd y CMA ddeg cais o dan GDPR y DU. Gwnaed chwech o'r ceisiadau hyn gan unigolion a oedd am gael copi o'u data personol a ddelir gan y CMA. Atebwyd naw o'r deg cais hyn o fewn y cyfnod statudol o fis.

***Digwyddiadau a oedd yn ymwneud â data personol a adroddwyd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth***

Ni chafodd unrhyw ddata personol mewn perthynas â digwyddiadau eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod 2022/23.

**Archwilio Mewnol**

Mae Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn darparu adroddiad blynyddol a barn ar y systemau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth sydd ar waith yn y CMA yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, gwybodaeth am yr amgylchedd busnes a gwaith eraill megis y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Yn 2022/23, rhoddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol farn ‘gymedrol’ gyffredinol ar y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn y CMA. Er bod y brif farn hon yr un fath â'r flwyddyn ddiwethaf, mae dadansoddiadau o ganfyddiadau ac argymhellion yn parhau i ddangos amgylchedd llinell gyntaf ac ail linell o reoli risg sy'n aeddfedu a chyflawnwyd hyn er gwaethaf maint a chymhlethdod y CMA, newid mewn arweinyddiaeth a phwysau allanol.

Arsylwyd cynnydd parhaus o ran ymgorffori'r fframwaith rheoli risg gan wella prosesau cofnodi risgiau fel rhan o'r broses uwchgyfeirio risgiau a chynnwys swyddogaethau newydd y CMA fel rhan annatod o drefniadau llywodraethu'r CMA. Fodd bynnag, erys meysydd lle mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod trefniadau rheoli risg yn cael eu hymgorffori'n llawn ar lefel weithredol.

Mae'r CMA yn parhau i weithredu mewn amgylchedd sy'n newid yn barhaus, gan adlewyrchu heriau ychwanegol i gyflawni gweithgareddau busnes fel arfer, gan gynnwys rhoi dull gweithio hybrid ar waith ers i gyfyngiadau COVID-19 gael eu codi, mewn amgylchedd gwleidyddol lle gwelwyd nifer o Brif Weinidogion, argyfwng costau byw, cyfyngiadau recriwtio yn gynnar yn y flwyddyn, camau diwydiannol a marchnad gweithlu cynyddol gystadleuol. Er hyn, mae'r CMA wedi parhau i ehangu ei bresenoldeb ledled Lloegr a'r Gwledydd Datganoledig, mae'n cynyddu gweithgareddau drwy sefydlu'r Uned Marchnadoedd Digidol, yn ogystal ag ymgorffori swyddogaethau craidd newydd fel Swyddfa'r Farchnad Fewnol a'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau.

Caiff ymrwymiad y CMA i welliant parhaus ac i gyflawni ei amcanion strategol ei adlewyrchu yn ei waith ar ‘Lywio CMA y Dyfodol’ i ddeall y modd y gall esblygu i gyflawni ei weledigaeth a thrwy'r Prosiect Systemau Corfforaethol y Dyfodol ar sut y gall ei systemau corfforaethol craidd barhau i gefnogi

gweithgareddau busnes yn effeithiol yn y dyfodol. Ar yr un pryd, mae'r CMA wedi cynnal adolygiad mewnol o'i werthoedd er mwyn pwyso a mesur ac addasu'r mynegiant presennol i adlewyrchu gweledigaeth diwylliant y CMA yn y dyfodol.

Awgrymodd y Pennaeth Archwilio Mewnol bod recriwtio a chadw staff yn debygol o barhau i fod yn faes risg allweddol ar gyfer y CMA yn 2023/24, gyda chystadleuaeth gynyddol gyda sefydliadau ehangach y llywodraeth a'r sector preifat mewn marchnad swyddi cystadleuol ar gyfer sgiliau arbenigol, gan nodi y bydd hyn yn galw am ddulliau arloesol i gystadlu â'r sector preifat wrth i'r CMA barhau i dyfu. Caiff y risg hon ei chydnabod gan y CMA a'i hadlewyrchu mewn sawl risg yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Daeth y Pennaeth Archwilio Mewnol i'r casgliad bod ei argymhellion yn cynrychioli cyfle i wella rheolaethau ac i roi rhagor o arferion da ar waith y mae'r CMA yn eu croesawu, gan adlewyrchu ei ymrwymiad i welliant parhaus. Mae hefyd wedi nodi ymrwymiad cryf i sicrhau amgylchedd rheoli cymesur, sy'n cyd-fynd ag arferion da ac anghenion busnes.

**Adrodd ar well rheoleiddio**

Mae rhan 4 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i'r CMA adrodd ar ei gydymffurfiaeth â'i ddyletswydd o dan y Ddeddf i osgoi gosod neu gynnal beichiau diangen ar fusnesau wrth gyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio. Pan fydd ein gwaith yn arwain at swyddogaethau rheoleiddio, mae'n gwneud hynny o dan gyfraith cystadleuaeth neu uno, sydd wedi'u hepgor yn benodol o reolaethau adrodd ar well reoleiddio. Nid oes gennym unrhyw bŵer i wneud rheolau nac ychwaith osod beichiau sy'n effeithio ar fusnesau yn gyffredinol. Mae ein hymyriadau yn digwydd mewn perthynas â busnesau neu farchnadoedd penodol a dim ond os oes tystiolaeth glir o fethiant marchnad a/neu achosion a amheuir o dorri'r gyfraith sy'n peryglu gweithrediad cywir marchnadoedd y byddwn yn ymyrryd.

## Adroddiad Cynaliadwyedd

Mae'r CMA yn ymrwymedig i gyflawni targedau'r Ymrwymiadau Gwyrddu Llywodraeth a nodwyd i leihau'r defnydd o ddŵr, allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwastraff a sicrhau bod cynhyrchion yn cael eu caffael mewn ffordd gynaliadwy.

Mae'r Ymrwymiadau Gwyrddu Llywodraeth yn nodi fframwaith i leihau eu heffeithiau ar yr amgylchedd erbyn 2025. Mae gennym raglen ar waith i sicrhau bod targedau'r Ymrwymiad Gwyrddu Llywodraeth yn cael eu cyrraedd yn ein swyddfeydd eraill ynghyd â'n swyddfeydd newydd sy'n agor ym Manceinion a Darlington, a chaiff cynnydd yn erbyn targedau'r Ymrwymiad Gwyrddu Llywodraeth ar ddefnydd o ynni eu nodi'n chwarterol i'r Adran Busnes a Masnach.

Fel sefydliad llywodraethol, rydym yn ymrwymedig i gyflawni targed o allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050. Mae'r CMA wedi cychwyn ar ei daith i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd a gwneud newidiadau i'w weithrediadau a'r ffordd y mae'n gweithio fel sefydliad.

Mae gennym swyddfeydd ledled y DU yn Llundain (Canary Wharf), Caeredin, Manceinion, Darlington, Caerdydd a Belfast. Oherwydd ehangu, byddwn yn symud i eiddo mwy newydd ym Manceinion a Darlington yn ystod haf 2023. Ac eithrio Canary Wharf, darperir y rhan fwyaf o'r gwasanaethau yn ein swyddfeydd eraill gan landlordiaid sy'n rhoi gwybodaeth i'r tenantiaid unigol. Rydym wedi cynyddu nifer ein staff dros y flwyddyn ddiwethaf, sydd wedi effeithio ar y ffigurau cyffredinol ar gyfer allyriadau.

## Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd

Mae gennym brif darged i leihau cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr o linell sylfaen 2018. Rydym wedi adolygu a diweddaru polisi teithio'r CMA er mwyn sicrhau bod opsiynau carbon isel yn cael eu hystyried ac mae proses lywodraethu bellach ar waith i adrodd ar y gostyngiad mewn allyriadau.

Mae'r tabl isod yn dangos dull teithio, pellter teithio ac allyriadau ar gyfer y CMA yn 2022/23. Mae'n bwysig nodi bod y cynnydd yn nifer ein staff wedi arwain at ffigurau uwch o gymharu â blynyddoedd blaenorol.  Rydym yn parhau i annog teithio ar y trên yn lle gyrru ac rydym yn gweithio i leihau'r angen i deithio. Rydym wedi cyflwyno system gweithio hybrid lle mae staff yn rhannu eu hamser rhwng y swyddfa a gweithio o bell. Mae hyn yn seiliedig ar ofyniad presenoldeb o 40% o leiaf. Rydym yn defnyddio'r dechnoleg sydd ar gael, gan gynnwys Microsoft Teams, i wneud gwaith hybrid yn effeithiol. Bydd y ffordd newydd hon o weithio yn helpu i leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau nwyon.

Mae'n bwysig nodi bod pandemig COVID-19 wedi effeithio ar lefelau teithio yn y CMA yn ystod 2022. Disgwylir y byddwn yn gweld gostyngiad yn 2023/24 oherwydd y newidiadau mewn ffyrdd o weithio.

| | Blwyddyn | Pellter (milltiroedd) | Allyriadau (kg CO2) |
|---|---|---|---|
| Teithiau Awyr | 2022/23 | 412,560 | 53.65 |
| Teithiau ar Drên | 2022/23 | 122,400 | 4.34 |
| Eurostar | 2022/23 | 640 | 22.4 |
| Teithiau mewn Car | 2022/23 | 8,288 | 1.16 |

## Cyfleustodau a rheoli gwastraff

Gan fod y CMA yn meddiannu adeiladau aml-denant, mae'r landlordiaid fel arfer yn darparu gwasanaethau cyfleustodau gan gynnwys rheoli gwastraff. Mae'r cynnydd yn nifer ein staff wedi effeithio ar ein defnydd o ynni a dŵr a'n prosesau rheoli gwastraff.  Cyfrifwyd y ffigur ar gyfer dŵr ar sail arwynebedd sgwâr plât llawr y CMA gyda gwerthoedd nwy a thrydan ar sail fesul llawr. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda'r landlord i osod is-fesuryddion yn ein swyddfa yn Canary Wharf er mwyn i ni allu cael data mwy cywir mewn ffordd fwy effeithlon. Maer gofyniad hwn hefyd yn rhan o'r fanyleb pan fyddwn yn caffael adeiladau newydd.

Mae'r holl wastraff a reolir gennym yn mynd drwy raglen ailgylchu ac mae hyn yn helpu i leihau faint o wastraff y mae'r busnes yn ei gynhyrchu, gan gynnwys gwastraff bwyd y caffi yn ein swyddfa yn Canary Wharf sy'n cael ei fesur a'i nodi fel yn nodir unrhyw fwyd a gaiff ei daflu yn y bin yn awtomatig ac y caiff y data ei adrodd. Nodir ein defnydd yn y tabl isod ac mae'n seiliedig ar ddosraniad rhwng pob tenant yn ein prif swyddfeydd.

| | Blwyddyn | Defnydd (KWh) | Tunelli ($CO_2e$) |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Trydan** | 2022/23 | 571,949 | 121 |
| **Nwy** | 2022/23 | 194,137 | 35 |

| | **Blwyddyn** | **Defnydd ($m^3$)** |
|---|---|---|
| **Dŵr** | 2022/23 | 6,706 |

| | **Blwyddyn** | **Tunelli** |
|---|---|---|
| **Dŵr wedi'i Ailgylchu'n Allanol** | 2022/23 | 11.25 |

We have a target to cut paper usage in our offices and are dedicated to implementing sustainable measures to reduce paper usage. We encourage staff to adopt digital alternatives and reduce printing wherever possible, also discouraging staff from printing unless absolutely necessary. The default setting of our central printers is double sided and monochrome to reduce printing costs and our carbon footprint. All our paper is certified by the Forest Stewardship Council, confirming that our paper is made from recycled materials and is elemental chlorine free. Our paper also complies with ISO9706 accredited certification. Our supplier is ISO14001 accredited, meaning that it has an effective environmental management system in place.

Dengys y tabl isod nifer y rimau o bapur a archebwyd gan y cyflenwr.

| | **Blwyddyn** | **Nifer y Rimau** |
|---|---|---|
| **Y Defnydd o Bapur** | 2022/23 | 437 |

Yn ein swyddfa yn Canary Wharf, rheolir y systemau gwresogi, awyru ac aerdymheru gan System Rheoli Adeilad sy'n cyd-fynd â safon adeiladu WELL. Mae'r system hon yn rheoli ac yn monitro'r defnydda wneir o ynni gan wneud y swyddfa'n fwy effeithlon.  Rydym hefyd wedi gosod goleuadau synhwyro symudiadau sy'n helpu i leihau'r defnydd o ynni, yn ogystal â synwyryddion tapiau i reoli dŵr drwy ddefnyddio solenoidau ac amserydd.

**Caffael cynaliadwy**

Mae ein gweithgarwch prynu yn cydymffurfio â chyfarwyddeb gyhoeddus yr UE er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf posibl am arian a lleihau gwastraff ym mhob rhan o'n cadwyn gyflenwi. Mae'n hanfodol ein bod yn cydweithio â'n cyflenwyr i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'n hamcanion cynaliadwyedd ac yn cefnogi ein mentrau i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a lleihau allyriadau carbon.

***Gwasanaethau Arlwyo***

Mae ein swyddfa yn Canary Wharf yn cynnig gwasanaeth o fath caffi sy'n darparu bwyd ffres a choffi barista. Gwneir dewisiadau cynaliadwy wrth gaffael ac mae gan ein darparwr arlwyo presennol gategorïau o fwyd a diod â blaenoriaeth lle mae angen gwneud cynnydd o ran cynaliadwyedd, fel osgoi

pysgod â sgôr o 5 gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol, osgoi wyau ffres o ieir mewn cewyll, defnyddio te/coffi Masnach Deg neu Organig yn unig a sicrhau nad yw cynhyrchion bwyd nac olewau ffrïo/coginio yn cynnwys olew palmwydd.

Rydym yn ymrwymedig i leihau plastigau defnydd untro drwy ddefnyddio cynhyrchion amgen fel cwpanau coffi Vegware, deunydd pecynnu gwasanaethau bwyd sydd wedi'i wneud o blanhigion ac y gellir eu compostio. Rydym wedi ymrwymo i gael gwared ar yr holl ddeunydd plastig yn y caffi yn Canary Wharf fel llwyau, platiau, poteli a gwellt.

Dengys y tabl isod faint o ddarnau o blastig a ddefnyddiwyd yn y CMA yn 2022/23.

| | Blwyddyn | Darnau a ddefnyddiwyd |
|---|---|---|
| **Plastig Defnydd Untro** | 2022/23 | 3,602 |

Cyflawnwyd gwobr achrediad Arian WELL gan ein swyddfa yn Canary Wharf yn Llundain.  Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i greu amgylcheddau cynaliadwy ac iach. Mae manteision ardal ag achrediad Arian WELL yn cynnwys ansawdd aer a dŵr gwell, goleuadau ac acwsteg gwell ac opsiynau bwyd a diod iach.

**Llety**

Mae ein swyddfa yn Canary Wharf, Llundain wedi'i dylunio i safon ‘Ardderchog’ Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM).

**Ein data**

Darperir y cyfleustodau a'r rhan fwyaf o'n gwasanaethau i ni drwy ein landlordiaid a thrwy daliadau gwasanaeth sy'n ymwneud â'n cytundebau prydlesu. Gan nad ydym wedi cael unrhyw wybodaeth fanwl gan ein landlordiaid, rydym wedi defnyddio'r wybodaeth ariannol sydd ar gael. Mae'r symiau a nodir wedi'u cyfrifo ar sail y wybodaeth gyfyngedig sydd ar gael i denantiaid mewn eiddo aml-denant.

# Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff

## Adroddiad ar Gydnabyddiaeth

***Uwch-reolwyr – un cyfanswm ar gyfer cydnabyddiaeth (archwiliwyd)***

| Uwch-reolwyr | Cyflog | | Lwfansau | | Bonysau[14] | | Buddiannau pensiwn | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2021/22 | 2022/23 | 2021/22 | 2022/23 | 2021/22 | 2022/23 | 2021/22 | 2022/23 | 2021/22 |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Andrea Coscelli CBE[15]** | 70-75 | 200-205 | - | - | - | 15-20 | 12 | 37 | 80-85 | 255-260 |
| **Chris Prevett[16]** | 140-145 | - | - | - | 10-15 | - | 40 | - | 195-200 | - |
| **David Stewart[17]** | 170-175 | 40-45 | - | - | - | - | 66 | 16 | 235-240 | 55-60 |
| **Erik Wilson CBE** | 140-145 | 135-140 | - | | 15-20 | 15-20 | (55) | 5 | 100-105 | 155-160 |
| **Lucy Robbins[18]** | 125-130 | - | 5-10 | - | 15-20 | - | 27 | - | 175-180 | - |
| **Michael Grenfell** | 170-175 | 165-170 | - | - | 15-20 | 15-20 | 26 | 25 | 210-215 | 205-210 |
| **Mike Walker** | 185-190 | 180-185 | - | - | 15-20 | 15-20 | 70 | 70 | 270-275 | 270-275 |
| **Sarah[19] Cardell** | 205-210 | 200-205 | - | - | 15-20 | 15-20 | 31 | 31 | 250-255 | 250-255 |

[14] Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, nid yw'r canllawiau ar daliadau bonws ar gyfer staff sy'n Uwch-Weision Sifil mewn perthynas â pherfformiad yn ystod blwyddyn perfformiad 2022/23 wedi'u cymeradwyo gan y llywodraeth eto. Mae'r ffigurau ar gyfer blwyddyn perfformiad 2021/22, a dalwyd yn 2022/23, wedi'u defnyddio.

[15] Gadawodd Andrea Coscelli y CMA ar 27 Gorffennaf 2022. Ei chyflog am flwyddyn lawn oedd £200k-£205k.

[16] Daeth rôl Chris Prevett fel Cwnsler Cyffredinol dros dro yn weithredol o 27 Gorffennaf 2022, felly nid oedd data cydnabyddiaeth yn adroddadwy ar gyfer 2021/22.

[17] Ymunodd David Stewart â'r CMA ar 4 Ionawr 2022. Ei gyflog blynyddol am flwyddyn lawn yn 2021/22 oedd £165k-£170k.

[18] Daeth rôl Lucy Robbins fel cynghorydd i'r Bwrdd yn weithredol o fis Medi 2022, felly nid oedd data cydnabyddiaeth yn adroddadwy ar gyfer 2021/22.

[19] Cafodd Sarah Cardell ei dyrchafu dros dro o fod yn Gwnsler Cyffredinol i fod yn Brif Weithredwr dros dro rhwng 27 Gorffennaf ac 18 Rhagfyr 2022. Cafodd ei phenodi'n Brif Weithredwr o 19 Rhagfyr 2022.

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Stuart Hudson** [20] | 135-140 | 135-140 | - | - | 15-20 | 10-15 | 54 | 54 | 205-210 | 200-205 |

***Datganiadau cyflog teg (archwiliwyd)***

*Newid canrannol mewn cyflog*

Ar gyfer y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf[21], gwelwyd cynnydd o 2.5% i ganol y band ar gyfer cyflog a lwfansau o gymharu â 2021/22. Mae hyn am fod yr unigolyn yn y sefyllfa hon wedi cael taliadau anghyfunol fel rhan o ddyfarniad cyflog 2022/23 am fod ei gyflog eisoes uwchlaw terfyn uchaf ei fand cyflog. Ni chafwyd unrhyw newid i dâl perfformiad a bonysau.

Ar gyfer pob cyflogai, heb gynnwys y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf, bu cynnydd canrannol cyfartalog o 2.3% i gyflog a lwfansau ers 2021/22. Bu gostyngiad canrannol cyfartalog o 5.20% i dâl perfformiad a bonysau.

Mae'r newid i gyflog a lwfansau i'w briodoli i'r cyfraniad cyflog ar gyfer 2022/23, sydd wedi cynyddu'r cyflog cyfartalog.

Mae'r gostyngiad mewn tâl perfformiad a bonysau wedi digwydd am fod y gyllideb ar gyfer y taliadau hyn wedi aros y debyg i 2021/22 ond roedd mwy o staff yn 2022/23, sy'n arwain at daliad cyfartalog is.

*Cymarebau cyflog*

Mae'r cymarebau cyflog yn dangos y gydberthynas rhwng cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf a chydnabyddiaeth gweithlu'r sefydliad.

Band cydnabyddiaeth cyfwerth ag amser llawn y cyfarwyddwr a gafodd y cyflog mwyaf yn y CMA yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 oedd £220-£225 (2021/22: £220k-£225k).

Yn 2022/23, ni chafodd unrhyw gyflogeion gydnabyddiaeth a oedd yn fwy na'r hyn a gafodd y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf (2021/22: dim). Roedd cydnabyddiaeth, heb gynnwys y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf, yn amrywio o £23.2k i £202.6k (2021/22: £22.5k-£217.9k).

Dengys y tabl isod y cymarebau rhwng cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf a chyflog a buddiannau'r cyflogai yn y 25$^{ain}$ ganradd, y canolrif a'r 75$^{ain}$ ganradd.

| | **2022/23** | | | **2021/22** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm cyflog a buddiannau (£) | Cyflog (£) | Cymhareb dâl | Cyfanswm cyflog a buddiannau (£) | Cymhareb dâl |
| **Y 25$^{ain}$ ganradd** | 39,193 | 38,259 | 5.68:1 | 38,628 | 5.78:1 |
| **Canolrif** | 58,947 | 58,047 | 3.77:1 | 57,616 | 3.86:1 |

[20] Gadawodd Stuart Hudson y CMA ar 26 Mawrth 2023. Ei gyflog blynyddol am flwyddyn lawn yn 2022/23 oedd £140k-£145k.
[21] Ar gyfer y CMA, y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf yw'r cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf ar y Pwyllgor Gweithredol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y 75ain ganradd** | 78,038 | 76,632 | 2.85:1 | 76,561 | 2.91:1 |

Cafwyd gostyngiad yn y cymarebau cyflog yng nghymarebau'r 25ain ganradd, y canolrif a'r 75ain ganradd. Gellir priodoli'r gwahaniaethau hyn i ddyfarniad cyflog 2022/23 a arweiniodd at y ffaith bod y cyfanswm cyflog a'r lwfansau yn y 25ain ganradd, y canolrif a'r 75ain ganradd i gyd yn uwch na 2021/22. Fodd bynnag, ni welwyd unrhyw newid yng nghanol y band cydnabyddiaeth ar gyfer y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf yn dilyn dyfarniad cyflog 2022/23, ac felly mae'r cymarebau wedi lleihau.

Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog a ffioedd, tâl cysylltiedig â pherfformiad anghyfunol a buddiannau mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na'r Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod pensiynau.

***Uwch-reolwyr – buddiannau pensiwn (archwilwyd)***

| | Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2023 | Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn | CETV ar 31 Mawrth 2023 | CETV ar 31 Mawrth 2022 | Cynnydd / (gostyngiad) gwirioneddol yn CETV | Cyfraniad y cyflogwr at y cyfrif pensiwn partneriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Andrea Coscelli CBE** | - | - | - | - | - | 12 |
| **Chris Prevett** | 20-25 | 0-2.5 | 246 | 215 | 16 | - |
| **David Stewart** | 0-5 | 2.5-5 | 62 | 12 | 36 | - |
| **Erik Wilson CBE** | 95-100 | - | 1,889 | 1,744 | (76)[22] | - |
| **Lucy Robbins** | 15-20 | 0-2.5 | 200 | 181 | 15 | - |
| **Michael Grenfell** | - | - | - | - | - | 26 |

[22] Gan ystyried chwyddiant, mae'r CETV a ariennir gan y cyflogwr wedi gostwng mewn termau real.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mike Walker** | 40-45 | 2.5-5 | 580 | 497 | 43 | - |
| **Sarah Cardell** | - | - | - | - | - | 31 |
| **Stuart Hudson** | 10-15 | 2.5-5 | 101 | 68 | 19 | - |

***Cydnabyddiaeth aelodau Anweithredol o'r Bwrdd (archwiliwyd)***

| | **2022/23** | | **2021/22** | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyflog | Buddiannau mewn nwyddau | Cyflog | Buddiannau mewn nwyddau |
| | £000 | £100 agosaf | £000 | £100 agosaf |
| **Amelia Fletcher** | 25-30 | - | 25-30 | - |
| **Cynthia Dubin** | 25-30 | - | 25-30 | - |
| **Jonathan Scott**[23] | 45-50 | - | 105-110 | - |
| **Kirstin Baker**[24] | 25-30 | - | 25-30 | - |
| **Marcus**[25] **Bokkerink** | 60-65 | - | - | - |
| **Martin Coleman**[26] | 25-30 | - | 25-30 | - |

[23] Gadawodd Jonathan Scott y CMA ar 6 Medi 2022. Ei gyflog am flwyddyn lawn oedd £105k-£110k.
[24] Mae a wnelo'r cyflog uchod ar gyfer Kirstin Baker â'i rôl fel un o Gyfarwyddwyr Anweithredol y CMA yn unig. Yn 2022/23, roedd Kirstin hefyd yn cael ei chyflogi fel un o Gadeiryddion Ymchwiliadau'r CMA ac yn 2022/23 enillodd gyfanswm gydnabyddiaeth o £110k-£115k am ei gwaith ar Fwrdd a Phanel y CMA.
[25] Ymunodd Marcus Bokkerink â'r CMA ar 7 Medi 2022. Ei gyflog am flwyddyn lawn oedd £105k-£110k.
[26] Mae a wnelo'r cyflog uchod ar gyfer Martin Coleman â'i rôl fel un o Gyfarwyddwyr Anweithredol y CMA yn unig. Yn 2022/23, roedd Martin hefyd yn cael ei gyflogi fel Cadeirydd Panel y CMA ac yn 2022/23 enillodd gyfanswm gydnabyddiaeth o £135k-£140k am ei waith ar Fwrdd a Phanel y CMA.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Murdoch[27] MacLennan** | 25-30 | - | - | - |

Roedd holl aelodau Anweithredol y Bwrdd yn cael eu cyflogi ar sail 30 diwrnod y flwyddyn ar wahân i Jonathan Scott a Marcus Bokkerink a benodwyd i gyflawni o leiaf ddau ddiwrnod yr wythnos.

Nid yw'r Cadeirydd na'r Aelodau Anweithredol yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac nid oes ganddynt unrhyw hawliau eraill i bensiwn gyda'r CMA (2021/22: dim).

***Polisi cydnabyddiaeth***

Pennir cydnabyddiaeth Uwch Weision Sifil (SCS) gan y Prif Weinidog gan ddilyn cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion.

Mae'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion yn rhoi cyngor i'r Prif Weinidog o bryd i'w gilydd ar gyflog, pensiynau a lwfansau gweinidogion ac eraill y pennir eu cyflog gan Ddeddf Cyflogau Gweinidogion a Chyflogau Eraill 1975 (fel y'i diwygiwyd).

Wrth lunio ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion yn ystyried y canlynol:

- Yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl â gallu a chymwysterau priodol i arfer eu gwahanol gyfrifoldebau;
- Amrywiadau rhanbarthol a lleol mewn marchnadoedd llafur a'u heffeithiau ar recriwtio a chadw staff;
- Polisïau'r Llywodraeth ar wella gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y gofyniad ar adrannau i gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer darparu gwasanaethau adrannol;
- Y cyllid sydd ar gael i adrannau fel y'i nodir yn nherfynau gwariant adrannol y Llywodraeth; a
- Targed y Llywodraeth ar gyfer chwyddiant.

Mae'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion yn ystyried y dystiolaeth y mae'n ei chael am ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.

***Contractau gwasanaeth***

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau i'r Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi'r amgylchiadau lle y gellir gwneud penodiadau mewn ffordd arall.

Oni nodir yn wahanol, mae'r swyddogion a gwmpesir gan yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n benagored. Byddai eu terfynu'n gynnar, ac eithrio oherwydd camymddwyn, yn golygu bod yr unigolyn yn cael iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Yn 2022/23, ni wnaed unrhyw daliadau o'r fath, (2021/22: dim).

***Cyflog a bonysau***

Mae cyflog yn cwmpasu symiau pensiynadwy a symiau nad ydynt yn bensiynadwy ac mae'n cynnwys cyflogau gros ond nid yw, o reidrwydd, yn gyfyngedig iddynt; goramser; lwfansau recriwtio a chadw staff; lwfansau swyddfa breifat; lwfansau eraill (i'r graddau y maent yn ddarostyngedig i drethiant y DU); ac unrhyw daliadau ex-gratia eraill. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronedig a wnaed gan y CMA.

[27] Ymunodd Murdoch MacLennan â'r CMA ar 1 Ebrill 2022. Mae a wnelo'r cyflog uchod â'i rôl fel un o Gyfarwyddwyr Anweithredol y CMA yn unig. Yn 2022/23, penodwyd Martin hefyd fel Cadeirydd Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol, ac yn 2022/23 enillodd gyfanswm gydnabyddiaeth o £35k-£40k am ei waith ar Fwrdd a Phanel y CMA.

Mae bonysau yn seiliedig ar lefelau perfformiad a gyrhaeddwyd fel rhan o'r broses adolygu perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn. Talwyd y bonysau a ddatgelwyd ar gyfer uwch-reolwyr yn 2022/23 ac maent yn ymwneud â pherfformiad yn 2021/22. Mae'r bonysau cymaradwy a gofnodwyd ar gyfer 2021/22 yn ymwneud â pherfformiad yn 2020/21.

***Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil***

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sy'n rhoi buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, ymunodd pob gwas sifil newydd a'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn gwasanaethu eisoes ag **alpha**. Cyn y dyddiad hwnnw, cymerodd gweision sifil ran ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y PCSPS bedair adran: tair sy'n darparu buddiannau ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddiannau ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Mae'r trefniadau statudol hyn yn cael eu tanariannu gyda chost buddiannau yn cael ei thalu ag arian gyda phleidlais gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan **classic**, **premium**, **classic plus**, **nuvos** ac **alpha** eu cynyddu bob blwyddyn yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau cyfredol o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Cafodd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 blynedd a phum mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 eu symud i **alpha** rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Am fod y Llywodraeth yn bwriadu dileu gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd o ran y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, bydd aelodau cymwys â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2023 yn gymwys, o bosibl, i gael buddiannau pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (ac y gallai hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn yr adroddiad hwn). Caiff buddiannau PCSPS pob aelod sy'n symud i **alpha** eu 'bancio', a bydd buddiannau cynharach aelodau mewn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael **alpha**. Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddiannau diffiniedig priodol neu bensiwn cyfraniad diffiniedig (prynu arian) gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau cyflogai yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% i aelodau **classic, premium, classic plus, nuvos** ac **alpha.** Mae buddiannau yn **classic** yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. At hynny, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â phensiwn cychwynnol tair blynedd yn daladwy ar adeg ymddeol. Yn achos **premium**, mae buddiannau yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **classic**, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig. Hybrid yn y bôn yw'r cynllun **classic plus** gyda buddiannau am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras fel y rhai ar gyfer **classic** a buddiannau am wasanaeth o fis Hydref 2002 yn cael eu gweithio allan fel y rhai ar gyfer **premium**. Yn y cynllun **nuvos** bydd aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod yn aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), credydir 2.3% o enillion pensiynadwy yr aelod yn y flwyddyn honno o'r cynllun i'w gyfrif pensiwn a enillwyd a chaiff y pensiwn cronedig ei gynyddu yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddiannau yn alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos ond, yn yr achos hwn, y gyfradd gronni yw 2.32%. Ym mhob achos, caiff aelodau ddewis ildio pensiwn a chael cyfandaliad hyd at y terfynau a nodir yn Neddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn **partneriaeth** yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o Legal & General Master trust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannau ond lle mae'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniadau cyfatebol hyd at derfyn uchaf o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% arall o gyflog pensiynadwy i

gwmpasu cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad ar sail afiechyd).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod yr hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth pan fydd yn rhoi'r gorau i fod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau **classic**, **premium** a **classic plus**, 65 ar gyfer aelodau **nuvos**, a 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, pa un bynnag yw'r uchaf, ar gyfer aelodau **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu yn alpha – fel y bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddiannau yn y PCSPS ac yn alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol ei fuddiannau yn y ddau gynllun, ond gall y rhan honno o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau.)

Ceir manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan:
www.civilservicepensionscheme.org.uk

***Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod***

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraidd buddiannau'r cynllun pensiwn sydd wedi'i gronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddiannau a brisiwyd yw buddiannau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod digwyddiadol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun neu'n dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd i'w hen gynllun. Mae a wnelo'r ffigurau ar gyfer pensiynau a ddangosir â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth ar lefel uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol y mae'r aelod wedi'i gronni drwy brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun.

Cyfrifir Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol na phosibl mewn buddiannau o ganlyniad i Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn daladwy pan gymerir buddiannau pensiwn.

Cyfrifir ffigurau Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod gan ddefnyddio'r canllawiau ar gyfraddau disgownt ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfraniadau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus nas ariennir a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2023. Cyhoeddodd Trysorlys EF ganllawiau wedi'u diweddaru ar 27 Ebrill 2023; defnyddir y canllawiau hyn wrth gyfrifo ffigurau CETV ar gyfer 2023/24.

***Cynnydd gwirioneddol mewn CETV***

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

# Adroddiad ar y Staff

***Cyflwyniad***

Staff talentog y CMA yw sail ein llwyddiant a nhw yw ein hased pwysicaf wrth gyflawni ein cynlluniau a'n hamcanion uchelgeisiol.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau ein bod yn gyflogwr gwych sy'n gwerthfawrogi ac yn croesawu'r wybodaeth, syniadau, sgiliau, ymddygiadau a phrofiadau gwahanol y mae ein holl gydweithwyr yn eu cyfrannu i'r CMA.

Rydym hefyd yn ceisio meithrin diwylliant sy'n hyrwyddo llesiant ac iechyd meddwl fel bod cydweithwyr yn gallu ffynnu.

Y flwyddyn hon, rydym wedi canolbwyntio ar nifer o fentrau pobl, gyda'r nod o sicrhau bod ein cyflogeion yn cael y profiad gorau posibl.

***Gwerthoedd y CMA***

Yn ystod hydref 2022, fel rhan o'n rhaglen Llywio CMA y Dyfodol, gwnaethom gynnal proses ymgysylltu eang â'n cydweithwyr i adolygu ein gwerthoedd.

Gwnaethom lansio ein datganiadau gwerthoedd newydd ym mis Rhagfyr, sef:

- Drwy ein gwerthoedd, rydym yn cyflawni canlyniadau trawiadol - i bobl, busnesau a'r economi.
- Rydym yn uchelgeisiol ac yn seiliedig ar dystiolaeth a bob amser yn ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth.
- Rydym yn trin pawb â pharch, ac yn gydweithredol a chynhwysol.
- Mae popeth a wnawn yn seiliedig ar werthoedd y Gwasanaeth Sifil: Gonestrwydd, Uniondeb, Gwrthrychedd a Didueddrwydd.

Rydym wedi cwblhau ein cynllun gweithredu ac ymgorffori a chaiff 12 o gamau gweithredu eu cyflawni yn ystod 2023/2024 fel bod ein gwerthoedd yn dod hyd yn oed yn fwy real ac amlwg ym mhopeth a wnawn ac yn y ffordd rydym yn gweithio.

***Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Llesiant***

Mae hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn parhau i fod yn ffocws allweddol i'r CMA. Y flwyddyn hon, rydym wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'n gwaith yn y maes hwn hyd yma. Er ein bod wedi gwneud cynnydd, mae llawer mwy i'w wneud er mwyn dod yn sefydliad sy'n gwbl gynrychioliadol o'r gymdeithas a wasanaethir gennym.

Gan gydweithio â'n Rhwydweithiau Staff, cynrychiolwyr staff a'r Pwyllgor Cynghori, rydym wedi datblygu ein hail gynllun gweithredu dwy flynedd fel rhan o'n strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant pedair blynedd. Byddwn yn cyflawni mewn pum maes thematig: recriwtio a thyfu, camu ymlaen a datblygu gyrfa, gwella cynrychiolaeth, cyflog a gwobrwyo a sicrhau diwylliant o gynhwysiant.

Rydym yn darparu ac yn hyrwyddo amrywiaeth eang o fentrau llesiant gan gynnwys pecyn cymorth llesiant i gyfeirio cydweithwyr at y cymorth gorau iddyn nhw. Y flwyddyn hon, rydym hefyd wedi creu hwb o wybodaeth am lesiant ariannol i gyfeirio cydweithwyr i gael cymorth gyda heriau costau byw.

Mae gennym dîm mawr o Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl sy'n cynorthwyo cydweithwyr drwy gyfeirio at gymorth sydd ar gael a gwrando ar gyflogeion a rheolwyr, gan annog sgyrsiau agored am iechyd meddwl.

Mae ein Rhaglen Cymorth i Gyflogeion yn cynnig amrywiaeth eang o gymorth a chyngor i staff ar faterion teuluol, perthynas ac ariannol, ynghyd â mynediad i gwnsela.

***Datganiad Gwerth i Gyflogeion a Phrofiad ein Cyflogeion***

Yn ystod hydref 2022, fel rhan o Llunio CMA y Dyfodol, gwnaethom gynnal cyfres eang o sesiynau ymgysylltu â chydweithwyr i ddeall barn cydweithwyr am eu profiad o weithio yn y CMA – beth roeddent yn ei werthfawrogi a beth roeddent am ei weld yn gwella. Yna, gwnaethom ddadansoddi canlyniadau ein harolwg staff o 2022 i groeswirio'r data a'r wybodaeth.

Rydym wedi cwblhau hyn bellach ac wrthi'n rhoi cyfres o Ddatganiadau Gwerth i Gyflogeion ar waith y byddwn yn eu defnyddio i ddenu cydweithwyr posibl i'r CMA. Mae'r rhain yn cyflwyno naratif a mynegiant cyson am brofiad y CMA.

Rydym hefyd wedi drafftio Cynllun Profiad Cyflogeion a fydd yn rhoi cynllun strategol tymor hwy i ni wella'r profiad a gaiff cydweithwyr. Mae'r gwaith o gyflawni rhai camau gweithredu allweddol eisoes wedi dechrau. Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar bum thema: dysgu a datblygu gyrfa; cynhwysiant; hyblygrwydd a chydbwysedd rhwng gwaith a bywyd; y gwaith a wnawn; a grymuso.

***Ymgysylltu â staff***

Mae'r CMA yn cymryd rhan yn arolwg staff blynyddol y Gwasanaeth Sifil. Rydym yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth y mae staff yn eu rhannu ar sut brofiad yw gweithio yn y Gwasanaeth Sifil ac yn y CMA. Rydym wedi defnyddio data 2022 i'n helpu i lunio ein Cynllun Profiad Cyflogeion a hefyd i sefydlu cynlluniau gweithredu lleol a'u rhoi ar waith mewn cyfarwyddiaethau a thimau sy'n gwneud gwelliannau wedi'u targedu yn seiliedig ar yr hyn y mae staff yn ei ddweud wrthym. Mae'r adborth a roddir yn arolwg 2022 wedi llywio ein Datganiad Gwerth i Gyflogeion fel y disgrifir uchod.

Yng nghanlyniadau arolwg staff 2022 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022, cyfradd ymateb y CMA oedd 75% a'n sgôr ymgysylltu oedd 64%. Gwnaethom nodi cynnydd cadarnhaol ar gyfer cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd, gan roi'r dulliau cywir i'r staff gyflawni eu gwaith, sicrhau llesiant personol a chael baich gwaith derbyniol. Bydd ein Cynllun Profiad Cyflogeion yn canolbwyntio ar bum thema y dywedodd y staff wrthym y byddent yn hoffi eu gweld yn cael eu gwella' dysgu a datblygu gyrfa; cynhwysiant; hyblygrwydd a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith; y gwaith a wnawn; a grymuso.

***Dysgu a Datblygu***

Rydym wedi parhau i ddatblygu a diwygio ein cynnig dysgu craidd gyda ffocws penodol er mwyn sicrhau bod y CMA yn parhau i gyflawni ei flaenoriaethau o ran y cynllun blynyddol yn y tymor canolig. Rydym yn benodol wedi gwella ein prosesau sefydlu a chynefino; sgiliau digidol; a drafftio hyfforddiant sgiliau. Hefyd, rydym wedi cyflawni amrywiaeth o ddulliau dysgu sgiliau a gwybodaeth, gan gynnwys pynciau amrywiaeth a chynhwysiant, sgiliau busnes ehangach a dysgu tîm benodol neu arbenigol.

Gan barhau â'n ffocws ar ddatblygu gyrfa, gwnaethom gynnal ein hail flwyddyn o sgyrsiau gyrfa â'n staff, gyda chyfradd dychwelyd o 82%. Mae hyn wedi rhoi trosolwg cadarn i ni o'r talent sydd yn yr arfaeth a'r meysydd datblygu yn ein holl dimau. Byddwn yn defnyddio'r data hyn i gefnogi ein gweithgarwch profiad cyflogeion ac i roi gwybodaeth i arweinwyr.

Yn ystod 2023/24, cyflawnodd cydweithwyr 12.5 awr o ddysgu bob chwarter ar gyfartaledd, sydd uwchlaw ein targed o 9.25 awr. Gwnaethom gefnogi cyfanswm o 59 o aelodau proffesiynol a mwy na 30 o aelodau o staff i weithio tuag at gymwysterau proffesiynol / astudiaeth bellach. Roedd gennym 25 o brentisiaid mewn swydd ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n dangos ein hymrwymiad i ddatblygu'r talent amrywiol sydd gennym yn yr arfaeth ac adeiladu gallu yn y gweithle.

Gwnaethom gyflwyno system newydd i olrhain y broses o gwblhau dysgu hanfodol a gorfodol. Rydym wedi bod yn cyflwyno hyn fesul cam gyda thimau fel y gallwn olrhain yn fwy effeithiol ac atgoffa cydweithwyr o'u dysgu gorfodol rheolaidd.

### *Allgymorth recriwtio*

Mae gweithgareddau allgymorth recriwtio wedi parhau drwy gydol y flwyddyn yn lleol. Mae hyn wedi cynnwys diwrnodau agored, ffeiriau gyrfaoedd, sgyrsiau a seminarau, ynghyd â digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar y Gwledydd Datganoledig a'r rhanbarthau:

- Cwblhaodd cydweithwyr o Swyddfa'r Prif Gynghorydd Economaidd gyfres o ddarlithoedd economeg mewn prifysgolion ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.
- Aeth cydweithwyr o'r Gwasanaethau Cyfreithiol i ffeiriau gyrfaoedd yn City University yn Llundain, ynghyd â phartneriaeth micro-leoliadau, gan gynnig lleoliadau byrdymor yn y CMA.
- Aeth cydweithwyr o'r Uned Marchnadoedd Digidol i Ŵyl Sgiliau Digidol Manceinion a oedd yn canolbayntio ar yrfaoedd cynnar mewn meysydd digidol, data a thechnoleg, wrth ragweld twf yn y CMA yn y dyfodol.
- Rydym wedi parhau i feithrin cydberthnasau â Grŵp Allgymorth Campws Economaidd Darlington, gyda chydweithwyr wedi'u lleoli yn Darlington gan gymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithdai lleol.

### *Polisïau staff a gymhwyswyd ar gyfer staff anabl*

*Ceisiadau ar gyfer cyflogaeth*

Mae ymgeiswyr sy'n gwneud cais drwy'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd yn sicr o gael cyfweliad os bydd sgôr eu cais yn cyrraedd y lefel ofynnol dderbyniol, neu uwch, ar gyfer pob elfen a gaiff ei hasesu, ni waeth a oes ymgeiswyr sy'n sgorio'n uwch.

Yn ystod y broses recriwtio rydym yn annog ymgeiswyr i ddweud wrthym pa newidiadau neu gymorth y gallai fod eu hangen (ei angen) arnynt, er mwyn inni allu gwneud addasiadau rhesymol i'w cefnogi gyda'u cais.

*Cyflogaeth barhaus*

Mae iechyd a llesiant ein staff yn ffactor allweddol sy'n ein galluogi i gyflawni ein hamcanion a chyfrannu at lwyddiant ein sefydliad. Rydym yn llwyr gydnabod ein cyfrifoldebau a'n dyletswydd gofal i'n holl staff a'n nod yw galluogi staff i gynnal eu hiechyd, eu llesiant a'u diogelwch yn y gwaith.

Rydym wedi cyflwyno Pasbort Addasu'r Gweithle ar draws y llywodraeth sydd â'r nod o gefnogi'r sgwrs rhwng unigolyn a'i reolwr am ei anabledd, ei gyflwr iechyd neu ei statws ailbennu rhywedd ac unrhyw addasiadau y gall fod angen eu gwneud i'r gweithle.

Prif nod ein rhwydwaith staff VisAbility yw codi ymwybyddiaeth a dathlu galluoedd ein staff sydd ag anabledd (corfforol ac iechyd meddwl) neu gyflwr iechyd hirdymor gweladwy a/neu nad yw'n weladwy. Mae'r rhwydwaith VisAbility yn creu partneriaeth â'r Rhwydwaith Dyslecsia er budd eu haelodau.

*Hyfforddiant a datblygiad*

Yn ogystal â chynnig datblygiad gyrfa drwy raglenni talent y Gwasanaeth Sifil (fel rhaglen DELTA Cynllun Arweinwyr y Dyfodol), rydym wedi datblygu ein rhaglen datblygu gyrfa ein hunain, Aspire sy'n parhau i fod yn rhan o waith y CMA ar gynhwysiant ac ymrwymiad i gefnogi gweithredoedd cadarnhaol.

### *Iechyd a Diogelwch*

Mae'r CMA yn gwerthfawrogi iechyd, diogelwch a llesiant ei staff, ei gontractwyr a'i ymwelwyr. Rydym yn sicrhau dull cynhwysfawr a chyson yn holl leoliadau swyddfeydd y CMA.

Cynhaliwyd profion cydymffurfiaeth iechyd a diogelwch yn holl safleoedd y CMA, fel arolygiadau o adeiladau, archwiliadau diogelwch, asesiadau risg tân, arolygiadau o ddiffoddwyr tân, arolygiadau cynnal a chadw lifftiau, asesiadau risg dŵr, Profion Cyfarpar Symudol, arolygiadau o ddrysau tân a phrofi systemau atal tân.

Cyflawnwyd hyfforddiant cymorth cyntaf, cymorth cyntaf iechyd meddwl a wardeniaid tân er mwyn sicrhau y caiff pob aelod o staff ar bob safle eu cwmpasu a'u cefnogi, a chafodd cynllun a gweithdrefn y CMA ar wagio adeiladau mewn argyfwng eu hadolygu cyn cynnal ymarferion tân a gynlluniwyd. Adolygwyd aelodaeth y pwyllgor iechyd a diogelwch sefydlog a phenodwyd aelodau newydd o holl leoliadau swyddfeydd y CMA.

Yn ystod 2022/23, cafodd chwe damwain a naw damwain a fu bron â digwydd eu cofnodi, ond nid oedd yr un o'r damweiniau hyn yn bodloni'r gofynion ar gyfer damwain adroddadwy (2021/22: tair damwain a thair damwain a fu bron â digwydd). Mae'r cynnydd o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf yn adlewyrchu mwy o bresenoldeb staff mewn swyddfeydd, ers ailfeddiannu ein swyddfeydd ar ôl i gyfyngiadau COVID-19 gael eu llacio.

### *Absenoldeb salwch*

Y diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd yn 2022/23 oherwydd absenoldeb fesul cyflogai CALl oedd 4.57 diwrnod (2021/22: 3.54 diwrnod). Y ffigur a gyhoeddwyd ddiwethaf gan y Gwasanaeth Sifil oedd cyfartaledd o 7.9 diwrnod.

Yn ystod 2022/23, roedd COVID-19 yn dal i effeithio ar absenoldebau staff gan gyfrif am 21.6% o'r holl ddiwrnodau gwaith a gollwyd yn ystod y flwyddyn (26.15 yn 2021/22).

### *Trosiant staff*

Cyfradd trosiant staff blynyddol y CMA ar gyfer staff parhaol yn 2022/23 oedd 15.6% (2021/22: 13.0%).

Mae ein trosiant wedi cynyddu y flwyddyn hon. Rydym yn gwahodd pawb sy'n gadael y CMA i roi adborth ar eu profiad yn y CMA a'u rhesymau dros adael. Y ffactorau allweddol a nodwyd fel rheswm dros adael yn 2022/23 oedd cyflog a buddiannau gwell (66% o'r rheini a gwblhaodd yr holiadur gadael) a datblygiad gyrfa (57%). Hyd yn oed pan nad oedd cyflog yn ffactor allweddol wrth adael, nododd mwyafrif sylweddol o'r rheini a adawodd (93%) y byddent yn cael cyflog uwch gan eu cyflogwr newydd.

Mae gan ein staff sgiliau a phrofiad sy'n ddymunol ar draws sectorau gwahanol. Nododd 78% o'r rheini a adawodd ac a gwblhaodd yr holiadur gadael eu bod yn gadael y Gwasanaeth Sifil i symud i sefydliadau sector preifat, rheoleiddwyr, sefydliadau sector cyhoeddus ac elusennau.

Ymysg y rhesymau eraill dros adael roedd boddhad swydd, newid gyrfa ac oriau gwaith. Nodwyd presenoldeb yn y swyddfa, a lleoliad y swyddfa hefyd; ers y pandemig a'r newidiadau i'r ffordd rydym yn gweithio, mae rhai aelodau o staff wedi dewis symud i sefydliadau lle maent yn cael hyd yn oed mwy o hyblygrwydd ynghylch eu lleoliad gwaith.

### *Amser Cyfleuster Undebau Llafur*

Amser Cyfleuster yw pan gaiff cyflogai amser â thâl neu amser di-dâl i ffwrdd o'i rôl arferol i ymgymryd â dyletswyddau a gweithgareddau undeb llafur fel cynrychiolydd undeb llafur.

*Swyddogion undeb perthnasol*

Roedd 18 o aelodau o staff (17 CALl) yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod 2022/23 (2021/22: 17.4 CALl). Treuliodd pedwar swyddog undeb 0% o'u horiau gwaith ar amser cyfleuster yn 2022/23 (2021/22: 3) a threuliodd 14 o swyddogion undeb hyd at 50% o'u horiau gwaith ar amser cyfleuster yn 2022/23 (2020/21:15).

Yr amser a dreuliwyd gan swyddogion undeb ar weithgareddau undeb llafur â thâl fel canran o gyfanswm yr amser cyfleuster â thâl yn 2022/23 oedd 3.61% (2021/22: 6.59%).

Canran cyfanswm y bil cyflogau yn 2022/23 a wariwyd ar dalu cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol am amser cyfleuster oedd 0.063% (2021/22: 0.064%).

***Penodiadau oddi ar y gyflogres***

Penodiadau gweithwyr oddi ar y gyflogres, sy'n ennill £245 y dydd neu fwy, ar 31 Mawrth 2023.

| | |
|---|---|
| Nifer y penodiadau presennol ar 31 Mawrth 2023<br><br>O'r rheini, y nifer a barodd: | 24 |
| Llai na blwyddyn | 16 |
| Rhwng 1 a 2 flynedd | 5 |
| Rhwng 2 a 3 blynedd | 1 |
| Rhwng 3 a 4 blynedd | 1 |
| 4 blynedd neu fwy | 1 |

Yr holl weithwyr oddi ar y gyflogres a benodwyd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, sy'n ennill £245 y dydd neu fwy.

| | |
|---|---|
| Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres a benodwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023<br><br>O'u plith: | 34 |
| Nifer y rhai nad ydynt yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres | 28 |
| Nifer y rhai sy'n ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac y pennir eu bod o fewn cwmpas IR35 | - |
| Nifer y rhai sy'n ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac y pennir eu bod y tu allan i gwmpas IR35 | 6 |
| Nifer y penodiadau a ailasesir at ddibenion cydymffurfiaeth neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn | - |
| O'u plith: Nifer y penodiadau y newidiwyd eu statws IR35 yn dilyn adolygiad | - |

Fel arfer, penodir gweithwyr oddi ar y gyflogres naill ai drwy gontractau masnachol i ddarparu gwasanaethau arbenigol neu fel gweithwyr asiantaeth dros dro i lenwi rolau sy'n anodd eu llenwi, i gyflenwi dros dro mewn rolau allweddol neu i gyflawni prosiectau brys a lle ceir cyfyngiadau amser.

Nid oedd unrhyw benodiadau oddi ar y gyflogres o aelodau Bwrdd a/neu uwch-swyddogion sydd â chyfrifoldebau ariannol sylweddol.

Roedd tri unigolyn ar y gyflogres y tybiwyd eu bod yn aelodau Bwrdd a/neu uwch-swyddogion sydd â chyfrifoldebau ariannol sylweddol.

***Costau staff (archwiliedig)***

Mae costau staff yn cynnwys:

| | | | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff a gyflogir yn barhaol** | **Eraill[28]** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Cyflogau | 56,152 | 2,424 | 58,576 | 54,040 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 6,894 | - | 6,894 | 6,112 |
| Costau pensiwn | 14,733 | - | 14,733 | 13,633 |
| **Is-gyfanswm** | **77,779** | **2,424** | **80,203** | **73,785** |
| Costau staff eraill | 207 | - | 207 | 89 |
| Adennill incwm mewn perthynas â secondiadau i'r tu allan | (164) | - | (164) | (14) |
| **Cyfanswm** | **77,822** | **2,424** | **80,246** | **73,860** |

Mae cyfanswm y cyflogau ar gyfer 2022/23 wedi cynyddu o gymharu â 2021/22. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y bobl a gyflogir.

***Nifer y bobl a gyflogir (archwiliedig)***

Nifer y bobl (CALI) a gyflogir ar 31 Mawrth 2023 a nifer cyfartalog y bobl (CALI) a gyflogir yn ystod y flwyddyn:

| | **Ar ddiwedd y flwyddyn** | | **Y cyfartaledd ar gyfer y flwyddyn** | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2021/22 | 2022/23 | 2021/22 |
| | Rhif | Rhif | Rhif | Rhif |

[28] Mae Cyflogau Eraill yn cynnwys staff asiantaeth a staff dros dro.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Staff parhaol** | 813.7 | 786.0 | 804.6 | 781.0 |
| **Eraill[29]** | 114.3 | 89.1 | 99.0 | 81.0 |
| **Cyfanswm** | 928.0 | 875.1 | 903.6 | 862.0 |

Mae'r ffigur ar ddiwedd blwyddyn 2022/23, sef 52.9 CALI yn uwch na'r ffigur ar ddiwedd blwyddyn 2021/22. Mae hyn am fod y CMA wedi cwblhau mwy o benodiadau recriwtio na'r hyn a welwyd yn 2020/21. Gellir priodoli hyn i dwf yr Uned Marchnadoedd Digidol a'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau. Yn chwarteri 1 a 2, gwnaethom nodi'r nifer uchaf o ymgeiswyr yn dechrau yn y CMA.

***Cyfansoddiad staff***

Cyfansoddiad staff a benodwyd ar gontract cyflogaeth[30], ar 31 Mawrth 2023 yn ôl gradd:

| | **2022/23** | | **2021/22** | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw |
| **SCS3 (Cyfarwyddwr)** | 2.0 | 1.0 | 3.0 | 0 |
| **SCS2 (Cyfarwyddwr)** | 12.7 | 8.3 | 13.9 | 7.3 |
| **SCS1 (Cyfarwyddwr)** | 56.5 | 42.8 | 55.1 | 41.2 |
| **Gradd 6** | 114.2 | 106.8 | 109.8 | 91.7 |
| **Gradd 7** | 127.3 | 115.1 | 129.1 | 125.5 |
| **SEO** | 36.8 | 30.7 | 26.0 | 34.8 |
| **HEO** | 71.8 | 86.3 | 66.8 | 80.8 |

[29] Mae eraill yn cynnwys benthyciadau i mewn, secondiadau i mewn, contractau cyfnod penodol a gweithwyr asiantaeth. Nid oes gan y CMA unrhyw weinidogion na chynghorwyr arbennig.

[30] Mae'r data ar gyfansoddiad staff yn wahanol i'r data ar nifer y bobl a gyflogir gan eu bod ond yn cynnwys unigolion a gyflogir ar gontract cyflogaeth ac nad yw'n cynnwys unigolion ar secondiad a gweithwyr asiantaeth.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **EO** | 22.5 | 35.9 | 32.6 | 38.5 |
| **AO** | 12.6 | 13.0 | 7.0 | 12.0 |
| **Cyfanswm** | 456.4 | 439.8 | 443.3 | 431.8 |

***Staff ar fenthyg***

Ers 2022/23, rydym wedi nodi cynnydd yn nifer y benthyciadau a ddefnyddir gan y CMA, gyda 33 o aelodau o staff wedi cael eu rhoi ar fenthyg tuag allan a 47 ar fenthyg tuag i mewn; cynnydd o 42 o fenthyciadau i gyd o gymharu â 2021/22. Mae'r mwyafrif o'r benthyciadau wedi bod gyda chyfarwyddiaethau Cyfreithiol a Swyddfa'r Prif Gynghorydd Economaidd, gyda 27 fenthyciadau gyda'r cyfarwyddiaethau hyn. Derbyniodd yr adran Gyfreithiol 13 o staff ar fenthyg a derbyniodd Swyddfa'r Prif Gynghorydd Economaidd 21 o staff ar fenthyg, Economegwyr yn bennaf.

Y ffactor ysgogol ar gyfer defnyddio benthyciadau yw mynd ati i ddod o hyd i staff sydd â'r wybodaeth a'r profiad perthnasol, ynghyd â dulliau'r Gwasanaeth Sifil o weithio, er mwyn ategu ymgyrchoedd recriwtio allanol. Mae rhai benthyciadau wedi deillio o ofynion am wybodaeth arbenigol ar gyfer ein gwaith achos, ac mae'n ffordd o gaffael staff yn gyflym. Ymysg y rhesymau eraill dros y benthyciadau mae, er enghraifft, rhoi staff ar fenthyg i'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i help i baratoi'r Bil Marchnadoedd Digidol , Cystadleuaeth a Defnyddwyr a pharatoi i lansio'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau a Swyddfa'r Farchnad Fewnol. Drwy ddefnyddio aelodau o staff o'r tu mewn a'r tu allan i'r CMA, llwyddom i feithrin profiad ac arbenigedd mewn meysydd busnes, ynghyd ag uwchsgilio staff sy'n dychwelyd i'w adran gartref yn y pen draw. Mae'r un peth yn wir am staff sy'n dychwelyd i'r CMA ar ôl bod ar fenthyg mewn mannau eraill.

| | **Benthyciadau staff tuag allan 2022/23** | | **Benthyciadau staff tuag i mewn 2022/23** | |
|---|---|---|---|---|
| | Llai na 6 mis | Mwy na 6 mis | Llai na 6 mis | Mwy na 6 mis |
| **SCS3 (Cyfarwyddwr)** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **SCS2 (Cyfarwyddwr)** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **SCS1 (Cyfarwyddwr)** | 0 | 2 | 1 | 0 |
| **Gradd 6** | 5 | 5 | 3 | 6 |
| **Gradd 7** | 7 | 9 | 17 | 18 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **SEO** | 0 | 1 | 0 | 1 |
| **HEO** | 1 | 1 | 0 | 1 |
| **EO** | 2 | 0 | 0 | 0 |
| **AO** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | **15** | **18** | **21** | **26** |

***Gwariant ar wasanaethau ymgynghori***

Yn 2022/23, gwariodd y CMA £0.8 miliwn ar wasanaethau ymgynghori (2021/22: £0.7 miliwn). Roedd y cynnydd mewn gwariant yn 2022/23 yn bennaf oherwydd costau cam darganfod prosiectau, fel prosiect Systemau Corfforaethol yn y Dyfodol, ynghyd â dadansoddiadau busnes a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect trawsnewid i dechnegau digidol.

***Pecynnau ymadael (archwiliedig)***

Telir pecynnau ymadael, lle y bo'n gymwys, yn unol â thelerau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Cyfrifir ar gyfer costau ymadael yn llawn pan fydd ymrwymiad wedi'i wneud gan y CMA a chânt eu talu yn y flwyddyn ymadael.

Ni thalwyd unrhyw becynnau ymadael yn 2022/23 (2021/22: dim).

## Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio

# Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol (SOPS)

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratoir o dan IFRS, mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i'r CMA baratoi Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol (SOPS) a nodiadau ategol. Caiff y SOPS a'r nodiadau ategol eu harchwilio, fel y nodir yn Nhystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin.

Mae'r SOPS yn ddatganiad allweddol o atebolrwydd sy'n dangos, yn fanwl, sut mae'r CMA wedi gwario yn erbyn ei Amcangyfrif o Gyflenwad. Cyflenwad yw'r ddarpariaeth ariannol (at ddibenion adnoddau a chyfalaf) ac arian parod (a ddaw'n bennaf o'r Gronfa Gyfunol), y mae'r Senedd yn rhoi awdurdod statudol i endidau eu defnyddio. Mae'r Amcangyfrif yn nodi'r cyflenwad ac mae'r Senedd yn pleidleisio arno ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Os bydd y CMA yn mynd y tu hwnt i'r terfynau a nodir gan ei Amcangyfrif o Gyflenwad, a elwir yn derfynau rheoli, bydd ei gyfrifon yn cael barn amodol.

Mae fformat y SOPS yn adlewyrchu'r Amcangyfrifon o Gyflenwad, a gyhoeddir ar gov.uk, er mwyn gallu cymharu rhwng yr hyn y mae'r Senedd yn ei gymeradwyo a'r alldro terfynol. Mae'r SOPS yn cynnwys tabl cryno sy'n nodi perfformiad yn erbyn y terfynau rheoli y mae'r Senedd wedi pleidleisio arnynt, arian parod a wariwyd (caiff cyllidebau eu llunio ar sail croniadau ac felly ni fydd yr alldro yn cyfateb yn union â'r arian parod a wariwyd) a gwaith gweinyddol.

Mae'r nodiadau ategol yn nodi'r canlynol: Alldro fesul llinell Amcangyfrif, sy'n rhoi dadansoddiad manylach (nodyn 1); cysoni alldro i wariant gweithredu net yn y SOCNE, er mwyn cysylltu'r SOPS â'r datganiadau ariannol (nodyn 2); cysoniad o'r alldro â'r gofyniad arian parod net (nodyn 3); dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol (nodyn 4).

Caiff y SOPS a'r Amcangyfrifon eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg i IFRS ond yn wahanol iddynt. Rhoddir dealltwriaeth o'r fframwaith cyllidebu ac esboniad o'r termau allweddol ar dudalen 36, yn adran adolygiad ariannol yr adroddiad ar berfformiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Gwariant Cyhoeddus a'r rhesymau pam mae rheolau cyllidebu yn wahanol i IFRS hefyd ym mhennod 1 o'r Canllawiau ar Gyllidebu Cyfunol, sydd ar gael yn gov.uk.

Mae'r SOPS yn rhoi darlun manwl o berfformiad ariannol, ar ffurf y pleidleisir arni ac a gydnabyddir gan y Senedd. Mae'r adolygiad ariannol, yn yr Adroddiad ar Berfformiad, yn darparu trafodaeth gryno ynghylch alldro yn erbyn amcangyfrif a swyddogaethau fel cyflwyniad i ddatgeliadau SOPS.

***Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol 2022/23***

| | | | | 2022/23 | | | | | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Alldro | | | Amcangyfrif | | | Alldro | |
| **Math o wariant** | **Nodyn ar SoPS** | **Gyda phleidlais** | **Heb bleidlais** | **Cyfanswm** | **Gyda phleidlais** | **Heb bleidlais** | **Cyfanswm** | **Alldro gyda phleidlais o gymharu â'r Amcangyfrif: arbedion/(gormodedd)** | **Cyfanswm** |
| | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | | | | | | |
| Adnoddau | 1.1 | 115,349 | - | **115,349** | 123,582 | - | **123,582** | 8,233 | 97,937 |
| Cyfalaf | 1.2 | 6,528 | - | **6,528** | 8,731 | - | **8,731** | 2,203 | 2,675 |
| **Cyfanswm** | | **121,877** | **-** | **121,877** | **132,313** | **-** | **132,313** | **10,436** | **100,612** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | | | | |
| Adnoddau | 1.1 | (8,979) | - | **(8,979)** | 15,000 | - | **15,000** | 23,979 | 7,875 |
| Cyfalaf | 1.2 | (173) | - | **(173)** | 1,000 | - | **1,000** | 1,173 | - |
| **Cyfanswm** | | **(9,152)** | - | **(9,152)** | **16,000** | - | **16,000** | **25,152** | **7,875** |
| **Cyfanswm y Gyllideb** | | | | | | **-** | | | |
| **Adnoddau** | 1.1 | 106,370 | - | **106,370** | 138,582 | - | **138,582** | 32,212 | 105,812 |
| **Cyfalaf** | 1.2 | 6,355 | - | **6,355** | 9,731 | - | **9,731** | 3,376 | 2,675 |
| **Cyfanswm Gwariant o'r Gyllideb** | | **112,725** | **-** | **112,725** | **148,313** | **-** | **148,313** | **35,588** | **108,487** |
| **Gwariant Heb Gyllideb** | | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Cyfanswm Cyllideb a Heb Gyllideb** | | **112,725** | **-** | **112,725** | **148,313** | **-** | **148,313** | **35,588** | **108,487** |

Mae'r ffigurau yn y rhannau a amlinellir â llinell drom yn cwmpasu'r terfynau rheoli gyda phleidlais y pleidleisiodd y Senedd arnynt. Cyfeiriwch at y llawlyfr cyfarwyddyd ar Amcangyfrifon Cyflenwi sydd ar gael ar gov.uk, i gael manylion y terfynau rheoli y pleidleisiodd y Senedd arnynt.

### *Gofyniad Arian Parod Net 2022/23*

| | | 2022/23 | | | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Eitem | Nodyn ar SoPS | Alldro | Amcangyfrif | Alldro o gymharu â'r Amcangyfrif: Arbedion/(Gormodedd) | Alldro |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Gofyniad Arian Parod Net** | 3 | 113,701 | 123,005 | 9,304 | 92,134 |

### *Costau gweinyddu 2022/23*

| | | 2022/23 | | | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Math o wariant | Nodyn ar SoPS | Alldro | Amcangyfrif | Alldro o Gymharu ag Arbedion/(Gormodedd) Amcangyfrifedig | Alldro |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Costau gweinyddol** | 1 | 19,777 | 26,640 | 6,863 | 19,070 |

Er nad yw'n gyfyngiad ar wahân gyda phleidlais, bydd unrhyw achos o dorri'r gyllideb weinyddu hefyd yn arwain at bleidlais ar ormodedd.

# Nodiadau ar y Datganiad o Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol 2022/23

## SOPS 1 Manylion alldro, fesul Llinell Amcangyfrif

### *SOPS 1.1 Dadansoddiad o alldro adnoddau fesul Llinell Amcangyfrif*

| Math o wariant: (Adnoddau) | 2022/23 | | | | | | | | | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Alldro | | | | | | | Amcangyfrif | | Alldro |
| | Gweinyddiaeth | | | Rhaglen | | | | | | |
| | Gros | Incwm | Net | Gros | Incwm | Net | Cyfanswm alldro | Cyfanswm net | Cyfanswm net o gymharu â'r Amcangyfrif | Cyfanswm |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Gwariant yn y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | | | | |
| Gyda phleidlais: A Deunydd Hyrwyddo ar gyfer Cystadleuaeth | 19,913 | (136) | **19,777** | 95,822 | (250) | **95,572** | **115,349** | **123,582** | **8,233** | 97,937 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | | | | | | | | | | |
| Gyda phleidlais: B Deunydd Hyrwyddo ar gyfer Cystadleuaeth | - | - | - | (8,979) | - | **(8,979)** | **(8,979)** | **15,000** | **23,979** | 7,875 |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **19,913** | **(136)** | **19,777** | **86,843** | **(250)** | **86,593** | **106,370** | **138,582** | **32,212** | **105,812** |

Caiff esboniadau manwl o'r amrywiadau sylweddol rhwng yr Alldro a'r Amcangyfrif eu cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwyr: adolygiad ariannol ar dudalen 37.

### *SOPS 1.2 Dadansoddiad o alldro cyfalaf fesul Llinell amcangyfrif*

| Math o wariant: (Cyfalaf) | 2022/23 | | | | | | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Alldro | | | Amcangyfrif | | | Alldro |
| | Gros | Incwm | Net[31] | Net | Cyfanswm net o gymharu â'r Amcangyfrif | Cyfanswm net o gymharu â'r Amcangyfrif, wedi'i addasu ar gyfer trosglwyddiadau | Net |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Gwariant yn y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | |
| Gyda phleidlais: A | 6,528 | - | **6,528** | **8,731** | **2,203** | **2,203** | **2,675** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | | | | | | | |
| Gyda phleidlais: B | (173) | - | **(173)** | **1,000** | **1,173** | **1,173** | **-** |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **6,355** | **-** | **6,355** | **9,731** | **3,376** | **3,376** | **2,675** |

Mae'r colofnau cyfanswm yr Amcangyfrifon yn cynnwys trosglwyddiadau. Trosglwyddiadu yw pan gaiff darpariaeth ei hailddyrannu yn yr Amcangyfrifon gan nad oes angen awdurdod seneddol (am nad yw Senedd y DU yn pleidleisio ar y lefel honno o fanylder gan ddirprwy o Drysorlys EF). Rhoddir rhagor o wybodaeth am drosglwyddiadau yn y Llawlyfr Amcangyfrifon Cyflenwi, sydd ar gael ar gov.uk.

Mae'r golofn alldro yn erbyn amcangyfrif yn seiliedig ar y cyfanswm gan gynnwys trosglwyddiadau. Caiff cyfanswm yr amcangyfrif cyn gwneud trosglwyddiadau ei gynnwys fel y gall defnyddwyr gysylltu'r amcangyfrif yn ôl i'r Amcangyfrifon a roddwyd ger bron Senedd y DU.

### SOPS 2 Cysoni alldro i'r gwariant gweithredu net

| Eitem | Nodyn | 2022/23 Alldro £000 | 2021/22 Alldro £000 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm yr alldro adnoddau** | **SOPS 1.1** | **106,370** | **105,812** |
| **Ychwanegu: Ymchwil wedi'i chynnwys mewn alldro cyllideb gyfalaf[32]** | | 14 | **-** |
| **Llai: Disgowntio darpariaeth dadfeiliad wedi'i gyfalafu ar gyfer IFRS 16 Prydlesau** | | (808) | **-** |

[31] Nid oedd unrhyw drosglwyddiadau yn 2022/23.

[32] Y system Ewropeaidd o gyfrifon rhanbarthol a chenedlaethol, 2010.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwariant Gweithredu Net yn y Datganiad Cyfunol o Wariant Net Cynhwysfawr** | **SoCNE** | **105,576** | **105,812** |

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r SOPS uchod, caiff yr alldro a'r Amcangyfrifon eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg i IFRS ond yn wahanol iddynt. Felly, mae'r cysoniad hwn yn pontio'r alldro adnoddau i wariant gweithredu net, gan gysylltu'r SOPS â'r datganiadau ariannol.

Mae ymchwil o fewn cwmpas y system Ewropeaidd o gyfrifon rhanbarthol a chenedlaethol 2010 (ESA 10) wedi'i cyllidebu fel CDEL, ac mae cyfalafu dadfeiliad ar gyfer prydlesau o fewn cwmpas IFRS 16 wedi'i gyllidebu fel CMAE, ond cyfrifwyd am y ddau fel gwariant ar wyneb y SoCNE.

## SoPS 3 Cysoni alldro adnoddau net i'r gofyniad arian parod net

| | | 2022/23 | | | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Alldro** | **Amcangyfrif** | **Cyfanswm alldro net o gymharu â'r Amcangyfrifarbedion/(gormodedd)** | **Alldro** |
| | **Nodyn** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Cyfanswm yr alldro adnoddau** | SOPS 1.1 | 106,370 | 138,582 | 32,212 | 105,812 |
| **Cyfanswm alldro cyfalaf** | SOPS 1.2 | 6,355 | 9,731 | 3,376 | 2,675 |
| ***Addasiadau i ddileu eitemau nad ydynt yn rhai arian parod:*** | | | | | |
| Dibrisiant (gan gynnwys lleihad mewn gwerth asedau) | 4 | (10,579) | (12,102) | (1,523) | (5,168) |
| Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau blaenorol | 4 | 6,128 | (16,000) | (22,128) | (7,956) |
| Eitemau eraill nad ydynt yn rhai arian parod | 4,5 | (496) | - | 496 | (90) |
| ***Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:*** | | | | | |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau derbyniadwy | 10 | (76) | - | 76 | (4,243) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau taladwy | 12 | (1,152) | 2,794 | 3,946 | 2,181 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn rhwymedigaethau prydles | | 4,306 | - | (4,306) | - |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau prydles derbyniadwy | | (47) | - | 47 | - |
| Cynnydd/(gostyngiad) i'w ildio i'r Gronfa Gyfunol | | (199) | - | 199 | (1,234) |
| Y defnydd o ddarpariaethau | 12,14 | 3,091 | - | (3,091) | 157 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad arian parod net** | | **113,701** | **123,005** | **9,304** | **92,134** |

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r SOPS uchod, caiff yr alldro a'r Amcangyfrifon eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllideb, nid ar sail arian parod. Felly, mae'r cysoni hyn yn pontio'r alldro adnoddau a chyfalaf i'r gofyniad arian parod net.

## SoPS 4 Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

### *SoPS 4.1 Dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol*

Yn ystod 2022/23 nid oedd unrhyw incwm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol (2021/22: dim).

### *SoPS 4.2 Incwm o'r Gronfa Gyfunol*

Nid yw'r incwm o'r Gronfa Gyfunol yn cynnwys unrhyw symiau a gasglwyd gan y CMA lle roedd yn gweithredu fel asiant i'r Gronfa Gyfunol yn hytrach na phrif arferydd. Ceir manylion llawn yr incwm a gasglwyd fel cyfrwng ar gyfer y Gronfa Gyfunol yn Natganiad Ymddiriedolaeth y CMA ar gyfer 2022/23 a gyhoeddir ar wahân i'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hyn ond ochr yn ochr â nhw.

### Datgeliadau atebolrwydd Seneddol

#### *Colledion a thaliadau arbennig (archwiliedig)*

Yn 2022/23 roedd un golled adroddadwy o £1.06 miliwn (2021/22: dim miliwn) ac nid oedd unrhyw daliadau arbennig adroddadwy (2021/22: dim miliwn).

Y golled adroddadwy oedd lleihad llawn yng ngwerth y System Cymorth Gwladwriaethol Ar-lein, (OSAS), a adeiladwyd i gefnogi'r broses o symud cymorth gwladwriaethol y DU i'r CMA os byddai'r DU yn gadael yr UE heb gytundeb.  Ei ddiben craidd oedd galluogi'r CMA i reoli a rheoleiddio cymorth gwladwriaethol y DU i awdurdodau yn y DU sy'n rhoi grantiau, i gyflwyno hysbysiadau a bodloni gofynion adrodd a thryloywder, ynghyd â chyhoeddi penderfyniadau'r CMA ar gyfer mynediad cyhoeddus. Ni chafodd y System Cymorth Gwladwriaethol Ar-lein ei chwblhau oherwydd gofynion polisi Llywodraeth EF a newidiodd yn sylweddol, gan ei gwneud yn ddatrysiad afraid, yn hytrach nag oherwydd unrhyw oedi mewn prosesau TG.

Archwiliodd y CMA y posibilrwydd o addasu'r feddalwedd a ddefnyddiwyd i adeiladu OSAS ar gyfer datrysiadau TG eraill, ond nid oedd y broses addasu yn ymarferol. Ym mis Ionawr 2023, rhoddodd Trysorlys EF ganiatâd i'r CMA amharu'n llwyr ar yr ased hon sydd wrthi'n cael ei hadeiladu.

#### *Rhwymedigaethau wrth gefn nad yw'n ofynnol iddynt gael eu datgelu o dan IAS 37 (archwiliedig)*

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau wrth gefn o bell yn 2022/23 (2021/22: dim).

### Talu cyflenwyr yn brydlon

Er bod ein telerau ac amodau safonol yn nodi y dylid talu o fewn 30 diwrnod i dderbyn, rydym yn anelu at dalu pob anfoneb ddilys o fewn 10 diwrnod gwaith. Yn 2022/23, talwyd 81% o'r holl anfonebau dilys a ddaeth i law o fewn 10 diwrnod gwaith (2021/22: 73%) a thalwyd 94% o'r holl anfonebau dilys a ddaeth i law o fewn 30 diwrnod gwaith (2021/22: 94%).

| 2022/23 | Anfonebau a dalwyd o fewn 10 diwrnod gwaith | Anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod |
|---|---|---|
| Chwarter 1af | 95% | 100% |
| 2il Chwarter | 89% | 96% |
| 3ydd Chwarter | 68% | 91% |
| 4ydd Chwarter | 77% | 92% |

O gymharu â 2021/22, rydym yn dangos gwelliant mewn perfformiad talu. Mae hyn yn sgil y prosesau cyfathrebu aml wedi'u targedu ar bwysigrwydd perfformiad talu i holl gydweithwyr y CMA sy'n rhan o'r broses hon.

Yn 2022/23, talwyd 85% o'r holl anfonebau dilys a ddaeth i law gan gyflenwyr sy'n BBaCh o fewn 10 diwrnod gwaith (2021/22: 71%).

Rydym yn parhau i fod yn rhagweithiol yn nodi cyfleoedd pellach i wella ein perfformiad yn 2023/24 a'u rhoi ar waith ac rydym yn bwriadu cyrraedd yr ymrwymiad targed i dalu 90% o anfonebau o fewn 10 diwrnod gwaith..

Llofnodwyd dros ac ar ran y CMA

Sarah Cardell
Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
6 Gorffennaf 2023

# TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I DŶ'R CYFFREDIN

## Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (y CMA) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys:

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023;
- Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o Lifau Arian Parod a Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- y nodiadau cysylltiedig yn cynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn gyfraith gymwys ac yn safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar 31 Mawrth 2023, ac o'i wariant net gweithredol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EF a roddwyd yn ôl y gofynion hynny.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob achos perthnasol:

- mae'r Datganiad o Alldro yn Erbyn Cyflenwi Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn cyfansymiau rheolaeth Seneddol gyda phleidlais ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 ac mae'n dangos nas rhagorwyd ar y cyfansymiau hynny; ac
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) (ISAs y DU), cyfraith gymwys a Nodyn Ymarfer 10 *Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a Chysondeb o Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2022)*. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn adran *Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol* fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â *Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019* y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol ar yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn ddigonol ac yn briodol i lunio sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd o sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennyf, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, arwain at gryn amheuaeth ynghylch gallu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Caiff y sail cyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na fy nhystysgrif ac adroddiad fel archwilydd gyda hynny na’r Datganiad Ymddiriedolaeth a fy adroddiad fel archwilydd gyda hynny. Fy Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf, ac eithrio i'r graddau y nodir yn benodol yn fy nhystysgrif, yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sy'n rhoi sicrwydd ar y wybodaeth honno.

Rwy'n gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson iawn â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a geir yn yr archwiliad, neu yr ymddengys fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau sylweddol neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosol o'r fath, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennyf, os byddaf yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w nodi yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn ein barn ni, paratowyd y rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff i'w harchwilio yn briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol sy'n agored i gael eu harchwilio wedi'u paratoi yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Crynodeb o Berfformiad, yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol, yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a'r Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

O ystyried gwybodaeth a dealltwriaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a'r amgylchedd a sicrhaodd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a'r Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y byddaf yn cyflwyno adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i;

- nad yw'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol neu na dderbyniwyd digon o ffurflenni ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelodd fy staff â nhw; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a'r Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol sy'n agored i gael eu harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- na wnaed datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth a nodwyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF neu nad yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a gaiff eu harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rhoi mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol sy'n berthnasol wrth baratoi'r datganiadau ariannol fel cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- rhoi gwybodaeth a disgwyliadau ychwanegol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol sydd ei angen arno ar gyfer ei archwiliad;
- rhoi mynediad heb gyfyngiadau i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i bersonau yn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y mae'r archwilydd yn nodi bod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod y rheolaeth fewnol angenrheidiol ar waith i baratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall;
- sicrhau bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg a'u bod wedi'u paratoi yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff, yn cael ei baratoi yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; ac
- asesu gallu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni fydd y Swyddog Cyfrifyddu'n rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Rwy'n gyfrifol am archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Rwy'n anelu at gael sicrwydd rhesymol o ran p'un a yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol ai peidio, boed o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir

yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

## Y graddau yr ystyriwyd y gall yr archwiliad ganfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn cynnwys twyll

Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll. Nodir y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll, isod.

## Nodi ac asesu risgiau posibl mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll, gwneuthum y canlynol:

- ystyried natur y sector, rheolaeth amgylcheddol a pherfformiad gweithredol yn cynnwys cynllunio polisïau cyfrifyddu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.
- cynnal ymholiadau â'r rheolwyr a'r sawl sy'n llywodraethu, yn cynnwys caffael ac adolygu dogfennaeth ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar:
    - nodi a gwerthuso cyfreithiau a rheoliadau a chydymffurfio â nhw;
    - canfod risgiau o dwyll ac ymateb iddynt; ac
    - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn cynnwys rheolaethau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd mewn perthynas â chydymffurfiaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a Rheoli Arian Cyhoeddus;
- cynnal ymholiadau â'r rheolwyr, a'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch:
    - a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
    - a oedd ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll a amheuir neu dwyll honedig,
- trafod ymysg y tîm ymgysylltu a'r arbenigwyr mewnol perthnasol, ynghylch sut a lle y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli yn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer twyll a nodais y posibilrwydd mwyaf o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, rhannu cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth, tuedd mewn amcangyfrifon rheoli. Fel gyda phob archwiliad o dan ISAs (y DU), mae'n ofynnol i mi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru rheolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a fframweithiau cyfreithiol a rheolaethol eraill lle mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn gweithredu. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar gyfrifon perthnasol a datgeliadau yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Ymysg y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn mae Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Deddf Rheoli Arian Cyhoeddus, Cyflenwi a Neilltuo Arian (Prif Amcangyfrifon) 2023, y Ddeddf Gyflogaeth, Deddfwriaeth Treth, Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 a Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022.

### Ymateb archwilio i risg a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- Adolygais y datgeliadau datganiad ariannol a phrofi dogfennaeth ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau perthnasol y disgrifir uchod eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- cynhaliais ymholiadau â rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chynghorwyr cyfreithiol mewnol ynghylch materion cyfreithia a hawliadau posibl;
- adolygais gyfrifon cyfarfodydd y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd; ac adroddiadau archwilio mewnol;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau, profais briodolrwydd cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesais a yw'r safbwyntiau ar amcangyfrifon cyfrifyddu yn dangos tuedd bosibl; a gwerthusais resymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu hwnt i gwrs busnes arferol.

bûm hefyd yn cyfathrebu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau posibl o dwyll i bob aelod o'r tîm ymgysylltu yn cynnwys arbenigeddau mewnol gan gadw'n effro i unrhyw ddangosyddion o dwyll neu o achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Ceir disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd arall

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol briodol i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol yn cyflwyno'r alldro yn briodol yn erbyn cyfansymiau rheolaeth Seneddol gyda phleidlais ac nas rhagorwyd ar y cyfansymiau hynny. Y cyfansymiau rheolaeth Seneddol gyda phleidlais yw Cyfyngiadau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), Heb Gyllideb (Adnoddau) a Gofyniad Arian Parod Net.

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg pethau eraill, cwmpas ac amseriad bwriadedig yr archwiliad a chanfyddiadau sylweddol o'r archwiliad, yn cynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn eu nodi yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies** **Dyddiad 10 Gorffennaf 2023**

**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Swyddfa Archwilio Genedlaethol

157-197 Buckingham Palace Road

Victoria

Llundain

SW1W 9SP

# Datganiadau Ariannol y CMA

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredu | 5 | (386) | (1,009) |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | | **(386)** | **(1,009)** |
| Costau staff | 3 | 80,246 | 73,860 |
| Darpariaeth dadfeiliadau: darperir yn ystod y flwyddyn | 4 | - | 1,756 |
| Prynu nwyddau a gwasanaethau | 4 | 25,716 | 31,205 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | | **105,962** | **106,821** |
| | | | |
| **Gwariant gweithredu net / (incwm) ar gyfer y flwyddyn** | | **105,576** | **105,812** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | |
| Colled/(elw) net actiwaraidd ar gynllun pensiwn cydweddol | 14 | (244) | 76 |
| **Gwariant net cynhwysfawr / (incwm) ar gyfer y flwyddyn** | | **105,332** | **105,888** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 96 i 122 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn.

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 2022/23 £000 | 2021/22 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 6 | 31,989 | 33,520 |
| Asedau Hawl i Ddefnyddio | 7 | 47,339 | - |
| Asedau anniriaethol | 8 | 1,816 | 1,344 |
| Symiau prydles derbyniadwy | 11 | 292 | - |
| **Cyfanswm yr asedau nad ydynt yn gyfredol** | | **81,436** | **34,864** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill | 10 | 4,920 | 6,084 |
| Symiau prydles derbyniadwy | 11 | 35 | - |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 9 | 922 | 723 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | **5,877** | **6,807** |
| | | | |
| **Cyfanswm asedau** | | **87,313** | **41,671** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 12 | (12,693) | (11,514) |
| Rhwymedigaethau Prydles | 13 | (4,642) | - |
| Darpariaethau | 14 | (2,380) | (10,047) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **(19,715)** | **(21,561)** |
| | | | |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **67,598** | **20,110** |
| **Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 12 | - | (10,834) |
| Rhwymedigaethau Prydles | 13 | (43,388) | |
| Darpariaethau | 14 | (9,823) | (11,622) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | **(53,211)** | **(22,456)** |
| | | | |
| **Cyfanswm yr asedau llai (atebolrwydd)** | | **14,387** | **(2,346)** |
| **Ecwiti a chronfeydd wrth gefn trethdalwyr** | | | |
| Cronfa gyffredinol | | 14,387 | (2,346) |
| **Cyfanswm yr ecwiti** | | **14,387** | **(2,346)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 96 i 122 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn.

Sarah Cardell
Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
6 Gorffennaf 2023

## Datganiad o Lifau Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Incwm/(gwariant) gweithredu net | SoCNE | (105,576) | (105,812) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod | 4,5 | 3,924 | 13,214 |
| Addasiad ar gyfer llog anariannol rhwymedigaethau prydles | 4 | 388 | - |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill | 10 | 1,164 | 4,243 |
| Llai symudiad mewn symiau derbyniadwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn pasio drwy'r SoCNE | | (1,088) | - |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 12 | (9,655) | (2,181) |
| Symudiadau mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn pasio drwy'r SoCNE | | 11,006 | 1,234 |
| Y defnydd o ddarpariaethau | 10,13 | (3,091) | (157) |
| **(All-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(102,928)** | **(89,459)** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 6,13 | (5,158) | (2,468) |
| Prynu asedau anniriaethol | 8 | (66) | (207) |
| **(All-lif) arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(5,224)** | **(2,675)** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau ariannu** | | | |
| Ariannu o'r Gronfa Gyfunol (cyflenwi) | | 113,900 | 90,900 |
| Talu rhwymedigaethau prydles | | **(5,596)** | - |
| Derbynebau o symiau prydles derbyniadwy | | 47 | - |
| **Llif arian parod net o weithgareddau ariannu** | | **108,351** | **90,900** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn, cyn addasu ar gyfer taliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | **199** | **(1,234)** |
| Taliadau o symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | | - | - |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynnydd/(Gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn ar ôl addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | **199** | **(1,234)** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | 9 | **723** | **1,957** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | 9 | **922** | **723** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 96 i 122 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn.

## Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | Cronfa Gyffredinol £000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | | **11,318** |
| Cyllid Seneddol Net | | |
| Cyflenwad wedi'i dynnu i lawr | | 90,900 |
| Cyflenwad Tybiedig | | 1,957 |
| Cyflenwad heb ei wario sy'n ad-daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 9 | (723) |
| Taliadau nad ydynt yn rhai arian parod – tâl archwilwyr | 4 | 90 |
| Gwariant gweithredu net ar gyfer y flwyddyn | | (105,812) |
| (Colled)/elw actiwaraidd ar rwymedigaeth pensiwn | 14 | (76) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | | **(2,346)** |
| Addasiad i'r balans agoriadol ar gyfer IFRS 16 mabwysiadu: gwrthdroi credydwr di-rent i Gronfeydd Wrth Gefn | | 8,253 |
| **Balans ar 1 Ebrill 2022** | | **5,907** |
| Cyllid Seneddol Net | | |
| Cyflenwad wedi'i dynnu i lawr | | 113,900 |
| Cyflenwad Tybiedig | | 723 |

| | | |
|---|---|---|
| Cyflenwad heb ei wario sy'n ad-daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 9 | (922) |
| Taliadau nad ydynt yn rhai arian parod – tâl archwilwyr | 4 | 111 |
| Gwariant gweithredu net ar gyfer y flwyddyn | | (105,576) |
| (Colled)/elw actiwaraidd ar rwymedigaeth pensiwn | 14 | 244 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | | **14,387** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 96 i 122 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn.

# Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

### *1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu*

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y Llywodraeth 2022/23, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, a Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r polisïau cyfrifyddu a geir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth yn cymhwyso'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd neu fel y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bo'r Llawlyfr yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae'r CMA yn dewis y polisi cyfrifyddu y bernir mai hwnnw yw'r un mwyaf priodol i amgylchiadau penodol y CMA at ddiben rhoi darlun gwir a theg.

Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan y CMA isod. Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratoir o dan IFRS, mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r CMA baratoi Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol a nodiadau ategol yn dadansoddi'r adnoddau net a'r alldro cyfalaf yn erbyn cyfansymiau rheoli gyda phleidlais gan y Senedd drwy'r Amcangyfrif. Caiff y rhain eu cynnwys yn adran Atebolrwydd Seneddol y ddogfen hon.

Mae'r CMA wedi'i gofrestru yn y Deyrnas Unedig ac mae ei brif fan busnes yn 25 Cabot Square, Llundain gyda swyddfeydd yng Nghaerdydd, Manceinion, Caeredin, Belfast a Darlington. Yr arian cyfred cyflwyniadol a gweithredol yw punt sterling.

Fel gydag adrannau eraill y llywodraeth, caiff y broses o ddarparu gwasanaeth y CMA yn y dyfodol a'i rhwymedigaethau eu cyllido gan grantiau Cyflenwad yn y dyfodol a chaiff y broses o gymhwyso incwm yn y dyfodol ei chymeradwyo'n flynyddol gan Senedd y DU. Mae Senedd y DU wedi awdurdodi gwariant ar gyfer 2023/24 ym Mhrif Amcangyfrifon Cyflenwi llywodraeth ganolog ac nid oes rheswm dros gredu na chaiff cymeradwyaeth ei rhoi yn y dyfodol. Ystyriwyd ei bod yn briodol mabwysiadu busnes gweithredol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

### *1.1 Confensiwn cyfrifyddu*

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi ar sail croniadau o dan y confensiwn cost hanesyddol, ac eithrio'r offerynnau ariannol hynny a fesurir ar gost wedi'i hamorteiddio, fel yr eglurir yn y polisïau cyfrifyddu isod,

ac fel y pennir gan y safonau cyfrifyddu perthnasol a'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

### *1.2 Safbwyntiau ac amcangyfrifon sylweddol*

#### *Darpariaethau*

Mae'r gwaith o gydnabod a phrisio darpariaethau'n dibynnu ar gymhwyso barn broffesiynol, profiad hanesyddol a ffactorau eraill y disgwylir iddynt ddylanwadu ar ddigwyddiadau yn y dyfodol. Caiff darpariaeth ei chydnabod pan fydd yn debygol y bydd rhwymedigaeth yn crisialu a phan ellir mesur darpariaeth o'r fath yn gymharol bendant. Mae darpariaethau'n seiliedig ar brisiadau, ynghyd â barn reoli. Caiff amcangyfrifon a rhagdybiaethau a gaiff eu cymhwyso yn y modelau hyn eu gwerthuso a'u hadolygu fel mater o drefn.

### *1.3 Safonau wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt yn weithredol eto*

Nid oes unrhyw ddehongliad IFRS nac IFRIC nad ydynt yn weithredol eto y disgwylir iddynt gael effaith sylweddol ar y CMA.

### *1.4 Incwm*

Mae IFRS 15 ‘Refeniw o Gontractau â Chwsmeriaid’ yn gymwys i incwm a dderbyniwyd gan y CMA. Caiff pob incwm ei gydnabod pan gaiff y gwasanaeth ei ddarparu neu pan fydd penderfyniad cyfreithiol wedi'i wneud.

Mae incwm cydnabyddedig yn cynnwys y canlynol yn bennaf:

- Apeliadau Rheoleiddio; ac
- ad-dalu costau apelio (yn ymwneud â chostau cyfreithiol a adenillwyd) ac incwm arall.

#### *Apeliadau rheoleiddiol*

Egwyddor graidd IFRS 15 yw y bydd endid yn cydnabod refeniw er mwyn dangos y broses o drosglwyddo nwyddau neu wasanaethau a addawyd i gwsmeriaid mewn swm sy'n adlewyrchu'r ystyriaeth y mae'r endid yn disgwyl y bydd ganddo hawl iddi yn gyfnewid am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny.

Caiff yr egwyddor graidd hon ei chyflawni mewn fframwaith model 5 cam: [IFRS 15:IN7]

- Cam 1: Nodi'r contract â chwsmer – Caiff yr amod hon ei bodloni pan fydd trydydd parti yn herio penderfyniadau rheoleiddio gan reoleiddiwr sector a phan gaiff y mater ei gyfeirio at y CMA. Mae hyn yn cyd-fynd â'r diffiniad o gontract o dan addasiad FReM o IFRS 15. Mae'r FReM yn nodi bod deddfwriaeth neu reoliadau sy'n caniatáu i endid dderbyn arian parod o endid arall yn cyd-fynd â'r diffiniad o gontract.
- Cam 2: Nodi'r rhwymedigaethau cyflawni yn y contract – Mae'r rhwymedigaethau cyflawni yn y contract er mwyn i'r CMA weithredu fel tribiwnlys arbenigol, i benderfynu ar yr achos sylfaenol, ac i adennill costau er mwyn bod yn orfodadwy.
- Cam 3: Nodi pris y trafodyn, sef y costau yr eir iddynt gan y CMA yn gweithredu fel tribiwnlys arbenigol, fel y'i mesurir yn y gorchymyn costau terfynol.
- Cam 4: Pennu pris y trafodyn i'r rhwymedigaethau cyflawni yn y contract ar ôl i gamau 2 a 3 gael eu cyflawni h.y. y rhwymedigaeth berfformio yw bod y CMA yn gweithredu fel tribiwnlys arbenigol ac y caiff y gorchymyn costau ei bennu i'r CMA yn cyflawni'r rôl hon.
- Cam 5: Cydnabyddir y refeniw pan fydd y cyfnod ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad y CMA wedi dod i ben neu pan fydd y broses apelio wedi'i chwblhau.

#### *Adennill costau apelio*

Caiff incwm ar ffurf adennill costau apelio ei adfer gan bartïon sydd wedi apelio'n aflwyddiannus yn erbyn penderfyniad cyfreithiol a wnaed gan y CMA. Mae'r CMA yn cyfrif am incwm sy'n ymwneud ag adennill elfen fewnol y costau hyn yn unig, gan fod unrhyw gostau allanol (alldaliadau) yn cael eu gwrthbwyso o incwm dirwy ar Ddatganiad Ymddiriedolaeth y CMA.

Y pwynt cydnabod incwm ar gyfer ad-daliadau costau cyfreithiol mewnol yw pan gaiff Dyfarniad Llys neu Dribiwnlys ei drosglwyddo i lawr gan nodi bod yr apêl wedi cael ei gwrthod, bod penderfyniad y CMA yn cael ei gadarnhau ac y cytunir neu y gorchmynnir gan y Llys neu'r Tribiwnlys y dylai'r apelydd dalu holl gostau'r CMA yn yr achos apelio i'r CMA neu gyfran ohonynt.

### *1.5 Pensiynau*

Mae'r CMA yn cydnabod y costau pensiwn disgwyliedig ar sail systematig a rhesymol dros y cyfnod y bydd yn manteisio ar wasanaeth cyflogeion drwy dalu symiau a gyfrifir ar sail gronnol i'r PCSPS. Mae atebolrwydd i dalu buddiannau yn y dyfodol yn dâl ar y PCSPS. Mewn perthynas â'r cynlluniau cyfraniad diffiniedig, mae'r CMA yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn.

Mae gan y CMA gynllun ar wahân ar gyfer y Cadeiryddion blaenorol a Rheolwyr Gyfarwyddwyr y Swyddfa Masnachu Teg, sy'n debyg i'r PCSPS. Mae darpariaeth pensiwn etifeddol wedi'i chofnodi ar gyfer costau buddiannau o dan y cynllun hwn yn y dyfodol.

### *1.6 IFRS 16 - Prydlesau*

***Cwmpas ac eithriadau* – y CMA fel prydlesai**

Mabwysiadodd y CMA IFRS 16 Prydlesau o 1 Ebrill 2022. Disodlodd y safon hon IAS 17 Prydlesau. Mae IFRS 16 Prydlesau yn rhoi model cyfrifyddu unigol i brydlesai gan ei gwneud yn ofynnol i brydlesai gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob prydles oni fydd cyfnod y brydles yn 12 mis neu lai, neu fod yr ased sylfaenol yn bodloni dosbarthiad meini prawf IFRS 16 o "werth isel".

Caiff prydles ei diffinio fel 'a contract, or part of a contract, that conveys the right to use an asset (the underlying asset) for a period of time in exchange for consideration'. Er mwyn cymhwyso'r diffiniad hwn, mae'r CMA yn asesu a yw'r contract yn bodloni'r tri phrif werthusiad sef:

- Mae'r contract yn cynnwys ased a nodir, sydd naill ai'n cael ei nodi'n bendant yn y contract neu'n cael ei nodi'n benodol ar yr adeg y bydd yr ased ar gael i'r CMA;
- Mae gan y CMA yr hawl i gael yr holl fuddiannau economaidd o ddefnyddio'r ased a nodir drwy gydol cyfnod ei ddefnydd, gan ystyried ein hawliau o fewn cwmpas penodol y contract; ac
- Mae gan y CMA yr hawl i gyfarwyddo'r defnydd o'r ased a nodir drwy gydol cyfnod ei ddefnydd.

Mae'r CMA wedi mabwysiadu IFRS 16 gan ddefnyddio'r dull addasu ôl-weithredol, gan addasu enillion agoriadol a gadwyd a pheidio ag ailddatgan ffurfiau cymharol. Mae hyn yn cynnwys cyfrifo'r ased hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth y brydles yn seiliedig ar werth presennol y taliadau prydles sy'n weddill, heb gynnwys TAW, ar yr holl gontractau prydles cymwys wrth fabwysiadu dyddiad ac wedi'i ddisgowntio'n unol â chyfraddau disgowntio Trysorlys EF a gyhoeddir ym mhapur y System Gwariant Cyhoeddus bob blwyddyn.

Mae'r CMA yn defnyddio'r model costau yn IFRS 16 yn lle gwerth presennol mewn defnydd presennol neu werth teg gan fod y cytundebau prydles ar gyfer eiddo a ddefnyddir gan y CMA yn cynnwys cyfnodau adolygu rhent rheolaidd y disgwylir iddynt leihau'r gwahaniaeth rhwng cost a gwerth teg.

Mae'r CMA wedi defnyddio'r dulliau ymarferol canlynol a ganiateir gan y safon:

- Mae'r CMA wedi casglu gwybodaeth am brydlesau gweithredol er mwyn asesu'r addasiad cronnol diweddaraf wrth drosglwyddo ac wedi dewis peidio â chymhwyso IFRS 16 i gontractau na nodwyd eu bod yn cynnwys prydles o dan IAS 17;
- Defnyddio cyfradd ddisgowntio unigol i bortffolio o brydlesau sydd â nodweddion cymharol debyg;
- Cyfrifo prydlesau gweithredol gyda chyfnod prydles o lai na 12 mis yn weddill, ar 1 Ebrill 2022, fel prydlesau byrdymor;
- Cyfrifo prydlesau gweithredol y mae'r ased sylfaenol o werth isel h.y. o dan drothwy cyfalafu asedau'r CMA o £5,000;
- Peidio â chynnwys costau uniongyrchol cychwynnol i fesur asedau hawl i ddefnyddio ar ddyddiad y cais cychwynnol. Ar y dyddiad hwn, bydd y CMA yn dewis mesur yr ased hawl i ddefnyddio ar swm sy'n hafal i rwymedigaeth y brydles a addaswyd ar gyfer unrhyw daliadau prydles a ragdalwyd neu a gronnwyd a oedd yn bodoli ar ddyddiad y trafodyn; a
- Defnyddio ôl-ddoethineb i bennu telerau'r brydles lle mae'r contract yn cynnwys opsiynau i ymestyn neu derfynu'r brydles.

***Cydnabyddiaeth gychwynnol*** – y CMA fel prydlesai

Ar ddechrau prydles, mae'r CMA yn cydnabod ased hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth prydles.

Caiff rhwymedigaeth y brydles ei mesur yn ôl gwerth y taliadau prydles sy'n weddill wedi'u disgowntio naill ai ar y gyfradd llog a nodir yn y brydles neu, lle nad yw hyn yn amlwg, ar gyfradd fenthyca gynyddrannol y CMA, sef y cyfradd a gyhoeddir gan Drysorlys EF (0.95% am brydlesau a gaiff eu cydnabod yn 2022, a 3.51% am brydlesau a gaiff eu cydnabod yn 2023). Pan fydd y brydles yn cynnwys opsiynau ymestyn neu derfynu, bydd taliadau'r brydles ar gyfer y cyfnod lle na ellir canslo, ynghyd ag unrhyw opsiynau ymestyn y mae'n gymharol sicr y bydd y CMA yn eu harfer, ac unrhyw opsiynau terfynu y mae'n gymharol sicr na fydd y CMA yn eu harfer.

Nid yw'r broses o fesur taliadau prydles yn cynnwys unrhyw TAW sy'n daladwy, a chaiff TAW anadenilladwy ei nodi ar y pwynt y daw'n ddyledus yn unol ag IFRIC 21 Ardollau.

Caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei fesur yn ôl gwerth y rhwymedigaeth prydles, wedi'i addasu ar gyfer: unrhyw daliadau prydles a wnaed cyn y dyddiad dechrau; unrhyw gymhellion prydles a gafwyd; unrhyw gostau cynyddrannol yn gysylltiedig â chaffael y brydles; ac unrhyw gostau yn gysylltiedig â dileu'r ased ac adfer y safle ar ddiwedd y brydles.

Ni chaiff gwaith i wella asedau ar brydles, fel addasiadau i adeilad ar brydles, eu dosbarthu fel asedau hawl i ddefnyddio ond byddant yn parhau i gael eu dosbarthu fel eiddo, offer a chyfarpar yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth.

As at 31 March 2022, the CMA held five operating leases which previously, under IAS 17, were expensed on a straight-line basis over the lease term. These leases, for CMA-occupied premises at: the Cabot; the Litigation Unit; and in the four Nations were the only lease agreements in scope of IFRS 16.

***Effaith ar ddatganiadau ariannol*** – y CMA fel prydlesai

Ar 1 Ebrill 2022, cafodd y broses o fabwysiadu IFRS 16 yr effaith ganlynol ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol:

- Cafwyd cynnydd o £49.71 miliwn o ran Eiddo, offer a chyfarpar, ar gyfer asedau hawl i ddefnyddio.
- Cafwyd cynnydd o £51.94 miliwn o ran Masnach taladwy a symiau taladwy eraill, ar gyfer y rhwymedigaethau prydles; a
- Cafwyd cynnydd o £8.25 miliwn o ran Ecwiti a chronfeydd wrth gefn trethdalwyr.

Roedd y cynnydd o ran ecwiti a chronfeydd wrth gefn trethdalwyr oherwydd y gwrthdrowyd y credydwr di-rent ar gyfer y Cabot gan ei gofnodi fel rhwymedigaeth gyfredol ac anghyfredol yn natganiadau ariannol y CMS ar gyfer 2021/22. Cafodd y credydwr di-rent ei greu yn ystod cyfnodau di-rent i gofnodi cost rhent yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr, yn unol ag IAS 17 – Prydlesau.

Mae'r canlyniad yn gysoniad o gyfanswm ymrwymiadau prydles weithredol ar 31 Mawrth 2022 (fel y'u datgelwyd yn y datganiadau ariannol dyddiedig 31 Mawrth 2022) i rwymedigaethau prydles a gafodd eu cydnabod ar 1 Ebrill 2022:

| | **£000** |
|---|---:|
| Cyfanswm ymrwymiadau prydles weithredol a ddatgelwyd ar 31 Mawrth 2022 (heb ei ddisgowntio) | **53,962** |
| Addasiadau o IAS 17 i IFRS 16 | |
| Ychwanegu: Diweddariadau i daliadau rhent yn y dyfodol a chostau cyn meddiannu heb eu caffael yn flaenorol | 1,035 |
| Llai: Disgowntio gan ddefnyddio cyfradd Trysorlys EF o 0.95% ar gyfer prydlesau 2022 | (3,052) |
| Cyfanswm y rhwymedigaethau prydles a gafodd eu cydnabod o dan IFRS 16 ar 1 Ebrill 2022 (wedi'i ddisgowntio) | **51,945** |

Mae'r canlynol yn gysoniad o gyfanswm y rhwymedigaethau prydles a gafodd eu cydnabod ar 1 Ebrill 2022 i gyfanswm yr asedau hawl i ddefnyddio.

| | **£000** |
|---|---:|
| Cyfanswm y rhwymedigaethau prydles a gafodd eu cydnabod o dan IFRS 16 ar 1 Ebrill 2022 (wedi'i ddisgowntio) | **51,945** |
| Addasiadau: | |
| Ychwanegu: Rhagdaliadau rhent | 1,088 |
| Llai: Croniadau ar gyfer rhent | (122) |
| Llai: Cymhellion prydles a gafwyd gan landlord y Cabot | (2,830) |

| | |
|---|---|
| Llai: Ased hawl i ddefnyddio wedi'i dadgydnabod – gofod swyddfa'r Cabot wedi'i feddiannu gan Ddyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser | (371) |
| Cyfanswm yr asedau hawl i ddefnyddio wedi'i gydnabod o dan IFRS 16 ar 1 Ebrill 2022 | **49,710** |

Mae dileu cynnydd adolygiad rhent i'r llifau arian parod sydd wedi'u disgowntio, wedi'u gwrthbwyso'n rhannnol drwy gynnwys costau cyn meddiannu yn benodol ar gyfer rhent, wedi arwain at newid sylweddol i'r datgeliadau meintiol ar gyfer balansau'r asedau hawl i ddefnyddio (£54.3 miliwn) a rhwymedigaethau prydles (£56.6 miliwn) a amcangyfrifwyd yn natganiad y CMA o bolisïau cyfrifyddu yn 2021/22.

Nid oes gan y CMA unrhyw brydlesau hedyn pupur.

Yn 2022/23, cafodd y broses o fabwysiadu IFTS 16 yr effaith ganlynol ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr:

- Gwelwyd cynnydd o £4.29 miliwn yn y tâl dibrisiant ar gyfer yr asedau hawl i ddefnyddio; a
- Gwelwyd cynnydd o £0.38 miliwn yn y tâl ariannu ar gyfer y rhwymedigaethau prydles.

***Y CMA fel prydleswr***

Y CMA yw'r prydleswr mewn un cytundeb sy'n isosod rhan o ofod swyddfa'r Cabot i Ddyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser.

Mae IFRS 16 yn cario ymlaen yn sylweddol ofynion cyfrifyddu'r prydleswr yn IAS 17. Fodd bynnag, mae IFRS 16 wedi gwneud y newid canlynol i'r canllawiau ar isbrydlesau:

- Os nad yw'r brif brydles yn brydles fyrdymor, caiff yr isbrydles ei dosbarthu fel prydles weithredol;
- Fel arall, caiff yr is-brydles ei dosbarthu gan gyfeirio at yr ased hawl i ddefnyddio sy'n codi o'r brif brydles, yn hytrach na chan gyfeirio at yr ased sylfaenol.

Felly, dosbarthodd y CMA y cytundeb hwn â'r GCA fel is-brydles ariannu pan gaiff IFRS 16 ei gymhwyso o'r dyddiad trosiannol.

Ar 1 Ebrill 2022, cafodd y broses o fabwysiadu IFRS 16 yr effaith ganlynol ar y datganiadau ariannol:

- Gwelwyd cynnydd o £0.37 miliwn o ran Symiau derbyniadwy, ar gyfer y gofod swyddfa a feddiannwyd gan y GCA; a
- Gwelwyd gostyngiad o £0.37 miliwn o ran Eiddo, offer a chyfarpar, ar gyfer asedau hawl i ddefnyddio sydd wedi'u dadgydnabod

### *1.7 Eiddo, peiriannau a chyfarpar*

Caiff barn ei llunio ar oes asedau sefydlog, ailbrisiad o dir ac adeiladau a throthwy cyfalafu yn unol ag IAS 16

Mae'r gwariant ar eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys prynu asedau newydd, gwella a disodli asedau presennol yn ôl cost, llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion oherwydd lleihad mewn gwerth.

Mae'r CMA yn cyfalafu gwariant o £5,000 (yn cynnwys TAW) neu fwy ar gyfer asedau unigol ac asedau wedi'u grwpio pan gânt eu defnyddio am fwy na 12 mis.. Pan fydd llawer o asedau unigol wedi'u prynu sydd, ar wahân, islaw'r trothwy cyfalafu yn codi mewn perthynas ag un prosiect, cânt eu trin fel ased wedi'i grwpio.

Caiff yr holl waith atgyweirio a chynnal a chadw arall ei godi i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn ariannol lle gwnaeth godi.

Caiff dibrisiant ei godi i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, o'r mis yn dilyn yr adeg y dechreuwyd defnyddio'r ased. Caiff gwerth gweddilliol ac oes fuddiol yr asedau eu hadolygu a'u haddasu os bydd yn briodol ar ddiwedd pob cyfnod adrodd. Nid oedd unrhyw ailbrisiad yn 2022/23.

### *1.8 Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu*

Mae asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cynrychioli costau yr eir iddynt wrth ddatblygu asedau diriaethol ac anniriaethol. Ar ôl cwblhau hyn a phan fydd yr asedau ar gael i'w defnyddio, caiff gwerth perthnasol yr asedau hyn eu trosglwyddo i'r dosbarth asedau priodol a'u dibrisio (neu eu hamorteiddio) yn unol â'r polisi cyfrifyddu perthnasol. Caiff gwariant nad yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cyfalafu ei drin fel cost gweithredu yn y flwyddyn yr aed iddo.

### *1.9 Asedau anniriaethol*

Caiff asedau anniriaethol eu cydnabod yn unol ag IAS 38 Asedau anniriaethol fel y'u haddaswyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth.

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys datblygu llwyfannau Technoleg Gwybodaeth (TG) i'w defnyddio ym mhob rhan o'r CMA, meddalwedd arall a thrwyddedau meddalwedd a gaiff eu cyfalafu am gost lle maent yn bodloni meini prawf cyfalafu'r CMA o gyfalafu gwariant o £5,000 (yn cynnwys TAW) neu fwy am bryniannau unigol ac asedau wedi'u grwpio a lle cânt eu defnyddio am fwy na 12 mis. Pan fydd llawer o asedau unigol wedi'u prynu sydd, ar wahân, islaw'r trothwy cyfalafu yn codi mewn perthynas ag un prosiect, cânt eu trin fel ased wedi'i grwpio.

Dim ond os bydd ased wedi'i greu y gellir ei nodi y caiff asedau anghyfredol anniriaethol sydd wedi'u creu'n fewnol, fel meddalwedd cyfrifiadurol eu cydnabod. Lle na ellir cydnabod ased anniriaethol sydd wedi'i greu'n fewnol, caiff costau datblygu eu cofnodi fel gwariant yn ystod y cyfnod yr eir iddo.

Dim ond pan fydd yn debygol y bydd y buddiannau economaidd yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r eitem yn llifo i'r CMA ac y gellir mesur cost yr eitem mewn modd dibynadwy y caiff costau dilynol eu cynnwys yn swm cario'r ased neu cânt eu cydnabod fel ased ar wahân, fel sy'n briodol. Caiff swm cario'r rhan a ddisodlir ei ddadgydnabod. Caiff yr asedau hyn eu cario ar werth cost llai amorteiddio a chaiff lleihad mewn gwerth ei godi ar ôl dyddiad yr ailbrisiad.

Caiff amorteiddio asedau anniriaethol wedi'u cyfalafu ei godi i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth, o'r mis yn dilyn yr adeg y dechreuir defnyddio ased, dros oes fuddiol amcangyfrifedig yr ased.

### *1.10 Dibrisio ac amorteiddio*

Mae'r CMA yn dibrisio asedau hawl i ddefnyddio o dan IFTS 16 ar sail llinell syh dros oes fuddiol yr ased, sydd hyd at ddyddiad terfynu'r brydles. Os bydd y CMA yn penderfynu arfer y cymal torri mewn

cytundeb prydles, caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei dibrisio i'r dyddiad terfynu newydd hwn a chaiff y broses ddibrisio ei chyflymu.

Caiff y dosbarthiadau asedau eraill eu dibrisio ar gyfraddau a gyfrifir i ostwng eu gwerth, llai unrhyw werth gweddilliol amcangyfrifedig ar sail llinell syth dros eu cyfnod defnyddiol amcangyfrifiedig. Pan bennir newid yng nghyfnod ased, caiff yr ased ei ddibrisio neu ei amorteiddio drwy weddill ei gyfnod a asesir ar sail llinell syth gan ddefnyddio dibrisiant cyflymedig.

Ar gyfer asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu, yr adeg y bydd yr ased ar gael i'w defnyddio yw'r adeg y bydd y dibrisiant neu amorteiddio yn dechrau.

Mae cyfnodau defnyddiol amcangyfrifedig asedau o fewn yr ystodau canlynol:

**Eiddo, offer a chyfarpar (dibrisiant)**

Costau gwella prydles (yn cynnwys ased dadfeiliadau) dros weddill cyfnod y brydles

| | |
|---|---|
| Technoleg gwybodaeth | 2 i 6 blynedd |
| Dodrefn a ffitiadau | 5 i 10 mlynedd |

**Asedau anniriaethol (amorteiddio)**

| | |
|---|---|
| Trwyddedau meddalwedd | 2 i 5 mlynedd (cyfnod y drwydded) |
| Meddalwedd | 2 i 5 mlynedd |

Caiff gwerthoedd asedau eu hadolygu ar gyfer lleihad mewn gwerth ar gyfer digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau sy'n nodi bod y gwerth cario yn anadferadwy o bosibl a chânt eu hysgrifennu ar unwaith i'w swm adferadwy.

### *1.11 Offerynnau ariannol*

Mae IFRS 9 ‘Offerynnau Ariannol’ yn cynnwys gofynion ar gyfer dosbarthu, cydnabod a mesur, lleihad mewn gwerth a dadgydnabod offerynnau ariannol. Nid oes gan y CMA unrhyw offerynnau ariannol cymhleth ac mae ei offerynnau ariannol yn cynnwys symiau masnach derbyniadwy a symiau masnach taladwy. Caiff symiau derbyniadwy eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio.

Nid yw model ‘Colled Credyd Ddisgwyliedig’ IFRS 9 ar gyfer asesu lleihad mewn gwerth ar gyfer asedau ariannol yn effeithio'n sylweddol ar y Cyfrifon hyn. Symiau masnach derbyniadwy a ddelir ar gyfer casglu arian parod yng nghwrs busnes arferol sydd gan y CMA yn bennaf, felly mae'r CMA yn dilyn y dull ‘wedi'i symleiddio’ a ganiateir o dan y safon sy'n dileu'r angen i gyfrifo Colled Credyd Ddisgwyliedig dros 12 mis. Os bydd risg credyd swm masnach derbyniadwy yn cynyddu'n sylweddol ac na chaiff ei ystyried yn isel, caiff Colled Credyd Ddisgwyliedig ei chydnabod.

### *1.12 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod*

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynrychioli'r balans a ddelir gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth. Nid yw'r CMA yn dal arian parod cyfatebol, fel y diffinnir ym mharagraff 6 o IAS 7 – Datganiad i Lifau Arian Parod.

### *1.13 Treth ar Werth*

Mae llawer o weithgareddau'r CMA y tu allan i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid oes treth allbwn yn gymwys ac ni ellir adennill treth fewnbwn ar bryniannau. Caiff TAW anadenilladwy ei chodi i'r categori gwariant perthnasol neu ei chynnwys yng nghostau prynu wedi'u cyfalafu asedau nad ydynt yn gyfredol. Pan gaiff treth allbwn ei chodi, neu pan fydd treth fewnbwn yn adenilladwy, caiff y symiau eu nodi heb gynnwys TAW.

## 2 Datganiad o gostau gweithredu yn ôl elfen weithredu

### *2.1 Dadansoddiad yn ôl elfen weithredu*

Cydnabu'r CMA naw elfen adroddadwy yn ei gyfrifon rheoli gyda chyfanswm y gwariant gros wedi'i ddadansoddi fel a ganlyn:

| | Cyfanswm y gwariant gros 2022/23 £000 | Cyfanswm y gwariant gros 2021/22 £000 |
|---|---:|---:|
| Gwasanaethau Corfforaethol** | 26,961 | 22,640 |
| Uned Marchnadoedd Digidol | 2,994 | 4,803 |
| Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau | 1,499 | - |
| Gorfodaeth | 16,699 | 18,256[33] |
| Gwasanaeth Cyfreithiol | 28,756 | 13,372 |
| Marchnadoedd ac Uno | 12,868 | 16,919[34] |
| Swyddfa'r Farchnad Fewnol | 1,762 | - |
| Swyddfa'r Prif Gynghorydd Economaidd | 14,350 | 12,295 |
| Polisi a Rhyngwladol | - | 1,593 |
| Strategaeth, Cysylltiadau ac Eiriolaeth | 3,585 | 3,729 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **109,474** | **93,607** |

Yn 2022/23, ad-drefnodd y CMA ei elfennau gweithredu er mwyn symud yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau o'r elfen Gorfodi i'w helfen ei hun; symud Swyddfa'r Farchnad Fewnol o'r elfen Marchnad ac Uno i'w helfen ei hun; a symud Polisi a Rhyngwladol i Gwasanaeth Cyfreithiol.

[33] Yn cynnwys yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau.
[34] Cyn cynnwys Swyddfa'r Farchnad Fewnol.

Mae'r gostyngiad mewn gwariant o fewn yr Uned Marchnadoedd Digidol wedi'i briodoli i'r newidiadau i'r dosraniad o orbenion i swyddogaethau newydd. Yn 2022/23, ni chafodd unrhyw orbenion eu dosrannu i'r swyddogaethau hyn sydd o ganlyniad wedi cynyddu'r gwariant mewn Gwasanaethau Corfforaethol.

Mae'r cynnydd mewn gwariant o fewn Gwasanaeth Cyfreithiol i'w briodoli i'r ffaith bod Polisi a Rhyngwladol wedi'i symud i elfen weithredu Gwasanaeth Cyfreithiol ac y defnyddir cyllid SR21 i gwmpasu costau ymgyfreitha, oherwydd incwm CA98 annigonol. Ceir rhagor o wybodaeth am incwm CA98 yn nodyn 4.

O 2023/24, bydd y CMA yn rhoi newid strwythurol ar waith a fydd yn arwain at Gyfarwyddiaeth Uno ar wahân.

**Caiff cyfanswm gwariant gros Gwasanaethau Corfforaethol o £26.96 miliwn ei ddadansoddi fel a ganlyn:

| | **Cyfanswm y gwariant gros 2022/23 £000** | **Cyfanswm y gwariant gros 2021/22 £000** |
|---|---|---|
| Safleoedd | 6,932 | 6,796 |
| Technoleg Gwybodaeth | 4,655 | 3,167 |
| Costau staff a chostau eraill nad ydynt yn ymwneud â staff | 15,374 | 12,677 |
| Balans ar 31 Mawrth | **26,961** | **22,640** |

Mae'r cynnydd hwn yng nghyfanswm gwariant gros Gwasanaethau Corfforaethol i'w briodoli'n bennaf i gynnydd mewn costau staffio a chostau eraill nad ydynt yn ymwneud â staff, o ganlyniad i ymgyrch recriwtio ddiweddar i gefnogi twf y CMA. Mae gwariant Technoleg Gwybodaeth wedi cynyddu oherwydd prisiau cynyddol cyflenwyr, fel cynnal Microsoft Azure, a chyflwyno'r system diogelwch seiber newydd, Darktrace, yn 2022/23. Mae'r gwariant ar eiddo wedi cynyddu o ganlyniad i'r broses o ehangu presenoldeb y CMA, fel y swyddfa yn Darlington.

### 2.2 Cysoni rhwng elfennau gweithredu a'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

| | **2022/23 £000** | **2021/22 £000** |
|---|---|---|
| Cyfanswm y gwariant gros a nodir ar gyfer elfennau gweithredu | 109,474 | 93,607 |
| Eitemau cysoni: | | |
| Incwm | (386) | (1,009) |
| Defnyddio darpariaeth gyfreithiol | (3,025) | - |
| Gwrthbwyso ymgyfreitha | (4,800) | - |

| | | |
|---|---|---|
| Dibrisiant ac eitemau nad ydynt yn rhai arian parod | 4,313 | 13,214 |
| **Cyfanswm y gwariant net yn ôl y SoCNE** | **105,576** | **105,812** |

### *3 Costau staff*

Roedd cyfanswm y costau staff ar 31 Mawrth 2023 yn £80.2 miliwn (2021/22: £73.9 miliwn), gan gynnwys: £58.6 miliwn ar gyflogau; £6.9 miliwn ar nawdd cymdeithasol; ac £14.7 miliwn ar gostau pensiwn staff. Mae gwybodaeth fanylach am gostau staff ar gael yn yr Adroddiad Staff ar dudalen 70.

### *4 Prynu nwyddau a gwasanaethau*

| | **2022/23** | **2021/22** |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Rhent (prydlesau gweithredol) | 109 | 3,875 |
| Cyfraddau | 1,673 | 1,815 |
| Treth stamp | 34 | - |
| Cyfleustodau | 807 | 387 |
| Cynnal a chadw | 8 | 19 |
| Costau Safleoedd Eraill | 427 | 332 |
| Tâl Gwasanaeth | 2,808 | 1,816 |
| **Costau safleoedd net** | **5,866** | **8,244** |
| **Gwariant ar ymchwil** | **134** | **10** |
| Costau Ymgyfreitha | 3,003 | - |
| Llogi offer a pheiriannau | - | 3 |
| Gwasanaethau proffesiynol | 2,175 | 1,863 |
| Hyfforddiant | 1,725 | 1,907 |
| Cyhoeddusrwydd ac ymgyrchoedd | 511 | 646 |
| Teithio a chynhaliaeth | 608 | 164 |
| Recriwtio | 619 | 553 |
| Telathrebu | 545 | 545 |
| TG (yn cynnwys cynnal a chadw) | 4,132 | 3,723 |
| Argraffu, copïo a phostio | 393 | 312 |
| Cyhoeddiadau | 12 | 28 |
| Rheoli Cyfleusterau | 1,238 | 1,246 |
| Gwariant arall | 353 | 388 |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm prynu nwyddau a gwasanaethau** | **15,314** | **11,378** |
| **Eitemau nad ydynt yn rhai arian parod** | | |
| Dibrisio eiddo, offer a chyfarpar | 4,520 | 4,574 |
| Dibrisio asedau hawl i ddefnyddio | 4,296 | - |
| Dibrisio asedau anniriaethol | 678 | 587 |
| Lleihad mewn gwerth eiddo, offer a chyfarpar | 1,058 | - |
| Symiau masnach derbyniadwy – nad yw'r swm yn ofynnol, a adferwyd | (2) | - |
| Colled /(elw) ar waredu asedau diriaethol | 27 | 7 |
| Ardoll Prentisiaeth – hyfforddiant | 87 | 115 |
| Darpariaethau - symiau y darparwyd ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn | 1,119 | 8,053 |
| Cydnabyddiaeth a threuliau'r archwilwyr | 111 | 90 |
| Darpariaethau – nad yw'r swm yn ofynnol, a adferwyd | (5,615) | (97) |
| Darpariaethau – newidiadau i ddisgowntio | (1,962) | - |
| Cost fenthyca (dad-ddirwyn disgownt) | (303) | - |
| Costau llog asedau hawl i ddefnyddio | 388 | - |
| **Cyfanswm yr eitemau nad ydynt yn rhai arian parod** | **4,402** | **13,329** |
| **Cyfanswm costau** | **25,716** | **32,961** |

Mae'r CMA wedi cael cymeradwyaeth i wrthbwyso ei holl gostau ymgyfreitha cymwys gan ddefnyddio incwm dirwy CA98 a gasglwyd yn y Datganiad Ymddiriedolaeth. Yn 2021/22, casglodd y CMA ddigon o incwm dirwy i wrthbwyso ei holl gostau ymgyfreitha. Felly, gwnaethom nodi dim costau yn y nodyn datgeliad hwn. Yn 2022/23, mae'r CMA wedi adrodd cost ymgyfreitha o £3.00 miliwn sy'n cynrhychioli'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm ein costau ymgyfreitha o £7.80 miliwn ac incwm cosb CA98 o £4.80 miliwn, i wrthbwyso'r costau hyn.

Mae ein gwariant ar Deithio a Chynhaliaeth wedi cynyddu £0.44 miliwn yn 2022/23 wrth i'r cyfyngiadau symud yn sgil pandemig COVID-0.44 lacio gan ein galluogi i ddychwelyd i'r gwaith sy'n galw am deithio.

Mae ein gwariant ar TG wedi cynyddu £0.41 miliwn yn 2022/23 am ein bod wedi parhau i fuddsoddi yn ein seilwaith TG a'n galluoedd digidol, gan ychwanegu mwy o wasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd yn unol â'r strategaeth drawslywodraethol Trawsnewid i Ddyfodol Digidol ar gyfer 2022-25. Yn ogystal, mae proses ehangu'r CMA wedi golygu bod angen caffael gwasanaethau ychwanegol a thrwyddedau ategol i sicrhau y gellir cyflawni agendâu Ffyniant Bro a Mannau Twf y Llywodraeth drwy greu gwasanaethau TG diogel, a all weithio mewn unrhyw leoliad i gydweithwyr mewn swyddfeydd ym Manceinion, Darlington a'r Gwledydd.

Yn 2022/23, o dan eitemau nad ydynt yn rhai arian parod, rydym wedi cofnodi ffi cydnabyddiaeth a threuliau Archwilydd o £111,000, sy'n cynrychioli £98,000 ar gyfer yr archwiliad o gyfrifon adnoddau a £13,000 ar gyfer yr archwiliad o gyfrifon ymddiriedolaeth. Yn 2021/22, y ffi oedd £103,000, a oedd yn cynrychioli £90,000 ar gyfer yr archwiliad o gyfrifon adnoddau a £13,000 ar gyfer yr archwiliad o gyfrifon ymddiriedolaeth.

Caiff y newid i'n lefel o Ddarpariaethau ei drafod yn fanwl yn nodyn 14 (tudalen 117).

## *5 Incwm*

| | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|
| Adennill costau adeiladau | 46 | 81 |
| Adennill costau apelio | 244 | 1,003 |
| Apeliadau rheoleiddiol | - | (219) |
| Incwm arall | 6 | 29 |
| **Cyfanswm incwm (eitemau arian parod)** | **296** | **894** |
| Eitemau nad ydynt yn rhai arian parod: | | |
| Ardoll Prentisiaeth – grant tybiannol | 87 | 115 |
| Llog a dderbyniwyd: Ased hawl i ddefnyddio wedi'i dadgydnabod | 3 | - |
| **Cyfanswm yr incwm** | **386** | **1,009** |

Yn 2022/23, cafodd y CMA ad-daliadau am gostau cyfreithiol mewnol mewn tri achos cyfreithiol a apeliwyd, o gymharu ag ad-daliadau mewn wyth achos yn 2021/22.

Gwnaethom wrthdroi £0.3 miliwn o adenilliad cost apêl rheoleiddiol a gronnwyd yn 2021/22 oherwydd eglurhad yn fframwaith model cydnabod pum cam y CMA o dan IFRS 15 – Refeniw o gontractau â chwsmeriaid. Byddwn yn ail-gronni'r adenilliad cost pan fydd y cyfnod i apelio yn erbyn penderfyniad y CMA wedi mynd heibio neu pan fydd y broses apêl wedi dod i ben h.y. pan fydd y cam terfynol yn y fframwaith wedi'i gyflawni.

Mae'r CMA yn cynnig rhaglenni hyfforddiant ar gyfer prentisiaid mewn amrywiaeth o rolau ym mhob rhan o'r adran a phroffesiynau amrywiol. Ar 31 Mawrth 2022, dechreuodd 75 o brentisiaid newydd â'r CMA. Cynyddodd hyn wrth i 17 o brentisiaid newydd eraill ddechrau yn ystod 2022/23, ac roedd 92 o brentisiaid newydd wedi dechrau yn y CMA erbyn 31 Mawrth 2023. Mae'r CMA yn cael grant tybiannol ar gyfer cost hyfforddi prentisiaid sy'n arwain at effaith sero net ar y datganiadau ariannol, gweler nodyn 4 (tudalen 106).

## 6 *Eiddo, offer a chyfarpar*

| | Gwelliannau i lesddaliadau £000 | Technoleg gwybodaeth £000 | Dodrefn a ffitiadau £000 | Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu £000 | 2022/23 Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 28,359 | 9,529 | 4,279 | 1,625 | 43,792 |
| Ychwanegiadau | 263 | 3,292 | - | 1,603 | 5,158 |
| Gwarediadau | - | (336) | - | - | (336) |
| Ailddosbarthu | 71 | - | - | (1,155) | (1,084) |
| Lleihad mewn gwerth | - | - | - | (1,058) | (1,058) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **28,693** | **12,485** | **4,279** | **1,015** | **46,472** |
| | | | | | |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 4,302 | 4,937 | 1,033 | - | 10,272 |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | 2,236 | 1,857 | 427 | - | 4,520 |
| Gwarediadau | - | (309) | - | - | (309) |
| Ailddosbarthu | - | - | - | - | - |
| Lleihad mewn gwerth | - | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **6,538** | **6,485** | **1,460** | **-** | **14,483** |
| | | | | | |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2023** | **22,155** | **6,000** | **2,819** | **1,015** | **31,989** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2022 | 24,057 | 4,592 | 3,246 | 1,625 | 33,520 |

Yn ystod 2022/23, gwariodd y CMA £3.29 miliwn ar asedau TG er mwyn sicrhau bod gan staff y CMA dechnoleg addas i barhau i weithio'n effeithiol ac yn effeithlon o bell o dan y model gweithio hybrid.

Yn 2022/23, gwaredodd y CMA £0.34 miliwn o asedau TG a oedd yn cynnwys:

- £0.18 miliwn o asedau TG a oedd wedi cyrraedd diwedd eu hoes fuddiol ac a oedd wedi cael eu dibrisio'n llwyr. Penderfynwyd na fyddai'r asedau hyn yn creu buddiannau economaidd yn y dyfodol a chawsant eu gwaredu; ac
- £0.16 miliwn o fonitorau a gaffaelwyd yn fewnol nad oeddent wedi'u dibrisio'n llwyr a lle gwnaeth y berchenogaeth drosglwyddo o'r CMA i'w staff o ganlyniad i roi'r model gweithio hybrid ar waith.

Fel y nodir yn SOPS Nodyn 4 ar dudalen 85, o dan ddatgeliadau atebolrwydd Seneddol, aeth y CMA ati i leihau'r System Cymorth Gwladwriaethol Ar-lein yn llawn, sef cyfanswm o £1.06 miliwn.

Aeth yr asedau canlynol a oedd wrthi'n cael eu hadeiladu yn fyw yn 2022/23:

- Porth Gwelliant Swyddfa'r Farchnad Fewnol, £0.37 miliwn, sy'n galluogi'r cyhoedd i roi gwybod am fater sy'n ymwneud â phrynu neu werthu nwyddau neu wasanaethau rhwng rhannau gwahanol o'r DU, neu i roi gwybod am anawsterau wrth ddefnyddio cymhwyster proffesiynol a ddyfarnwyd yn un rhan o'r DU mewn un arall;
- Porth Awdurdod Cyhoeddus Rheoli Cymorthdaliadau £0.32 miliwn, sy'n galluogi awdurdodau cyhoeddus i gyflwyno atgyfeiriadau drwy'r porth. Gall y CMA werthuso'r atgyfeiriadau mewn categorïau penodol o gymorthdaliadau;
- Porth sy'n Wynebu'r Cyhoedd, £0.23 miliwn, sy'n rhoi sianel gyfathrebu wedi'i strwythuro i ddefnyddwyr allanol sy'n diwallu eu hanghenion fel y gallant roi gwybod am fater i'r CMA; a
- Porth Ar-lein y Gwasanaeth Marchnad Angladdau, £0.15 miliwn, sy'n galluogi Trefnwyr Angladdau a Gweithredwyr Amlosgfeydd i roi gwybodaeth i'r CMA ddwywaith y flwyddyn o dan orchymyn ymchwilio.

| | Gwelliannau i lesddaliadau | Technoleg gwybodaeth | Dodrefn a ffitiadau | Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu | 2021/22 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 27,358 | 8,545 | 4,279 | 1,348 | 41,530 |
| Ychwanegiadau | 1,015 | 984 | - | 469 | 2,468 |
| Gwarediadau | (14) | - | - | - | (14) |
| Ailddosbarthu | - | - | - | (192) | (192) |
| Lleihad mewn gwerth | - | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **28,359** | **9,529** | **4,279** | **1,625** | **43,792** |
| | | | | | |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 2,276 | 2,823 | 606 | - | 5,705 |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | 2,033 | 2,114 | 427 | - | 4,574 |
| Gwarediadau | (7) | - | - | - | (7) |
| Ailddosbarthu | - | - | - | - | - |
| Lleihad mewn gwerth | - | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **4,302** | **4,937** | **1,033** | **-** | **10,272** |
| | | | | | |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2022** | **24,057** | **4,592** | **3,246** | **1,625** | **33,520** |
| | | | | | |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2021 | 25,082 | 5,722 | 3,673 | 1,348 | 35,825 |

### *7 Asedau hawl i ddefnyddio*

| | Adeiladau 2022/23 £000 | Cyfanswm 2022/23 £000 |
|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 49,710 | 49.710 |
| Ychwanegiadau | 1,925 | 1,925 |
| Gwarediadau | - | - |
| Ailddosbarthiadau a Throsglwyddiadau | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **51,635** | **51,635** |
| | | |
| **Dibrisiant** | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | - | - |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | 4,296 | 4,296 |
| Gwarediadau | - | - |
| Ailddosbarthiadau | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | 4,296 | 4,296 |
| | | |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2023** | **47,339** | **47,339** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2022** | **-** | **-** |

Mabwysiadodd y CMA IFRS 16 Prydlesau o 1 Ebrill 2022. Disodlodd y safon hon IAS 17 Prydlesau. Mae'r balans agoriadol ar 1 Ebrill 2022 yn cynrychioli pum eiddo a feddiennir gan y CMA a oedd o fewn cwmpas IFRS 16. Ceir rhagor o wybodaeth am y broses gychwynol o fesur yr asedau hawl i ddefnyddio ym mharagraff 1.6 o'r Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu ar dudalen 98.

In 2022/23, one new lease for a CMA-occupied premises in Manchester was within scope of IFRS 16. The right-of-use asset additions and the lease liability for this property increased by £1.29 million. This was a non-cash transaction scoring to the CDEL budget.

Cyfalafodd y CMA hefyd £0.64 miliwn o gynnydd dadfeiliad amcangyfrifedig am bum eiddo o fewn cwmpas IFTS 16 Prydlesau, ar ôl asesiad o brisiad a gomisiynwyd i syrfëwr allanol.  Yn unol â'n polisi cyfrifyddu ar gyfer IRFS 16 Prydlesau, rydym wedi cynnwys cost adfer yr eiddo hyn fel ychwanegiad ased hawl i ddefnyddio ac rydym hefyd wedi cynyddu ein darpariaeth dadfeiliad yr un swm yn Nodyn 14 (tudalen 117). Roedd hwn yn drafodyn anariannol a godwyd i'r gyllideb Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf.

### *8 Asedau anniriaethol*

| | Meddalwedd a Thrwyddedau Meddalwedd | |
|---|---|---|
| | 2022/23 | 2021/22 |
| | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | |
| Ar 1 Ebrill | 3,936 | 3,591 |
| Ychwanegiadau | 66 | 207 |
| Gwarediadau | (103) | (54) |
| Ailddosbarthu | 1,084 | 192 |
| **Ar 31 Mawrth** | **4,983** | **3,936** |
| | | |
| **Dibrisiant** | | |
| Ar 1 Ebrill | 2,592 | 2,059 |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | 678 | 587 |
| Gwarediadau | (103) | (54) |
| Ailddosbarthu | - | - |
| **Ar 31 Mawrth** | **3,167** | **2,592** |
| | | |
| **Swm cario** | **1,816** | **1,344** |

Mae'r holl asedau anniriaethol yn eiddo i'r CMA.

### *9 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod*

| | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 723 | 1,957 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddynt | 199 | (1,234) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **922** | **723** |
| Daliwyd y balans ar 31 Mawrth yng | | |
| Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 922 | 723 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **922** | **723** |

### *10 Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill*

*a. Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn*

| | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach derbyniadwy (gros) | 51 | 72 |
| Lwfans lleihad mewn gwerth | - | (7) |
| **Symiau masnach derbyniadwy (net)** | **51** | **65** |
| Adneuon a blaensymiau | 25 | 21 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 171 | 457 |
| TAW | 301 | 342 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 4,372 | 5,199 |
| **Cyfanswm** | **4,920** | **6,084** |

Nid oes unrhyw symiau masnach derbyniadwy na symiau derbyniadwy eraill yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

Roedd y gostyngiad mewn Rhagdaliadau ac incwm cronedig o £0.8 miliwn yn bennaf oherwydd mabwysiadu IFRS 16 Prydlesau o 1 Ebrill 2022. Byddai taliadau rhent chwarterol ymlaen llaw, yn

2021/22, wedi cael eu dosbarthu fel rhagdaliadau am brydlesau o dan IAS 17. Yn 2022/23, mae'r taliadau rhent ymlaen llaw ar gyfer prydlesau o fewn cwmpas IFRS 16 bellach wedi'u dosbarthu fel gostyngiadau i'r rhwymedigaethau prydles o dan Nodyn 13 (tudalen 116).

### *11 Symiau Prydles Derbyniadwy*

Mae dadansoddiad aeddfedrwydd o symiau prydles derbyniadwy o fewn cwmpas IFTS 16 – Prydlesau, yn seiliedig ar lifau arian parod gros heb eu disgowntio, wedi'i nodi yn y tabl isod.

| | 2022/23 £000 | 2021/22 £000 |
|---|---|---|
| Dadansoddiad aeddfedrwydd – llifau arian parod cytundebol heb eu disgowntio | | |
| Llai na blwyddyn | **38** | - |
| Un i bum mlynedd | 154 | - |
| Mwy na phum mlynedd | **152** | **-** |
| **Cyfanswm symiau prydles derbyniadwy: heb eu disgowntio** | **344** | **-** |

### *Symiau a gaiff eu cydnabod yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol*

| | 2022/23 £000 | 2021/22 £000 |
|---|---|---|
| Symiau prydles derbyniadwy: symiau derbyniadwy cyfredol | 35 | - |
| Symiau prydles derbyniadwy: symiau derbyniadwy nad ydynt yn gyfredol | 292 | - |
| **Cyfanswm symiau prydles derbyniadwy: wedi'u disgowntio** | **327** | **-** |

Mabwysiadodd y CMA IFRS 16 Prydlesau o 1 Ebrill 2022. Ar y dyddiad hwn, gwnaeth y CMA ddadgydnabod, fel ased o dan IFRS 16 – Prydlesau, ran o ofod swyddfa'r Cabot a gaiff ei is-osod i'r GCA a'i gydnabod fel swm prydles derbyniadwy. Y mesur cychwynnol o'r ased hwn a gafodd ei ddadgydnabod ar 1 Ebrill 2022 oedd £0.37 miliwn. Y swm prydles derbyniadwy terfynol ar 31 Mawrth 2023 yw £0.33 miliwn gan fod y CMA wedi cael taliad arian parod am rent gan y GCA yn ystod 2022/23.

Ceir rhagor o wybodaeth am y broses gychwynnol o fesur yr asedau hawl i ddefnyddio sydd wedi'i ddadgydnabod ym mharagraff 1.6 o'r Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu ar dudalen 99.

### *12 Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill*

*a. Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn*

| | 2022/23 £000 | 2021/22 £000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach taladwy | 545 | 432 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 7,841 | 6,849 |
| Y Cabot – cymhelliad prydles | - | 251 |
| Trethiant a nawdd cymdeithasol | 1,811 | 1,707 |
| TAW | 20 | 7 |
| Symiau taladwy eraill | 1,554 | 1,545 |
| Symiau a gyhoeddwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwi ond nas gwariwyd ar 31 Mawrth: | 922 | 723 |
| Derbyniadau ychwanegol y Gronfa Gyfunol y disgwylir iddynt gael eu talu i'r Gronfa Gyfunol – derbyniwyd | - | - |
| **Cyfanswm** | **12,693** | **11,514** |

Mae'r safle arian parod terfynol, a gaiff ei gofnodi yn y datgeliad hwn fel 'Symiau a gyhoeddwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwi ond na chawsant eu gwario ar 31 Mawrth', wedi cynyddu £0.2 miliwn yn 2022/23. Yn ymarferol, nid yw'r safle arian parod terfynol yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol. Yn hytrach, caiff ei ddidynnu o ofyniad arian parod net y CMA ar gyfer 2023/24 y gellir ei ostwng o'r Gronfa Gyfunol yn y flwyddyn ariannol nesaf.

*b. Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn*

| | 2022/23 £000 | 2021/22 £000 |
|---|---|---|
| Rhent y Cabot – cyfnod rhydd o rent | - | 8,254 |
| Y Cabot – Cymhelliad Prydles | - | 2,580 |
| **Cyfanswm** | - | **10,834** |

Ar 1 Ebrill 2022, mabwysiadodd y CMA IFRS 16. Ar y dyddiad hwn, cafodd y cyfnod rhydd o rent a'r cymhelliad prydles ar gyfer y Cabot, y cyfrifir amdano'n flaenorol o dan IAS 17, ei wrth-droi. Cafodd y cyfnod rhydd o rent ei nodi o dan Enillion Argadwedig yn y Gronfa Gyffredinol, a chafodd y cymhelliad prydles ei nodi o dan ased hawl i ddefnyddio ar y SoFP. Ceir rhagor o wybodaeth am fabwysiadu IFRS 16 a'i effaith ym mharagraff 1.6 yn y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu ar dudalen 98.

### *13 Rhwymedigaethau Prydles*

Mae dadansoddiad aeddfedrwydd o rwymedigaethau prydles o fewn cwmpas IFTS 16 – Prydlesau, yn seiliedig ar lifau arian parod gros heb eu disgowntio, wedi'i nodi yn y tabl isod. Risg o hylifedd yw'r posibilrwydd na all y CMA gyflawni ei rwymedigaethau prydles i gael eu talu ag arian parod. Oherwydd y gall y CMA godi arian parod o'r Gronfa Gyfunol ac, os bydd angen, gwneud cais am arian parod o'r Gronfa Gyfunol, mae ei risg o hylifedd yn isel.

| | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|
| Dadansoddiad aeddfedrwydd – llifau arian parod cytundebol heb eu disgowntio | | |
| Llai na blwyddyn | **5,207** | - |
| Un i bum mlynedd | 20,862 | - |
| Mwy na phum mlynedd | 24,706 | - |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau prydles: heb eu disgowntio** | **50,775** | **-** |

### *Symiau a gaiff eu cydnabod yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol*

| | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|
| 13 Rhwymedigaethau Prydles: rhwymedigaethau cyfredol | 4,642 | - |
| 13 Rhwymedigaethau Prydles: rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol | 43,388 | - |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau prydles: wedi'u disgowntio** | **48,030** | **-** |

Mae prydlesau wedi'u disgowntio ar gyfradd enwol unigol ar gyfer prydlesau, sy'n 3.51% ar gyfer blwyddyn galendr lawn 2023. Cafodd y prydlesau a drosglwyddwyd i IFRS 16 ar 1 Ebrill 2022 ac a gafodd eu disgowntio ym mlwyddyn galendr 2022 ar gyfradd ddisgowntio'r flwyddyn flaenorol sef 0.95%, eu cyhoeddi ym mhapurau System Gwariant Cyhoeddus Trysorlys EF.

Ceir rhagor o wybodaeth am y broses gychwynnol o fesur y rhwymedigaethau prydles ar gyfer asedau hawl i ddefnyddio ym mharagraff 1.6 o'r Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu ar dudalen 98.

### *14 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau*

| | Gwaddol pensiynau | Dadfeiliadau | Cyfreithiol | Cyfanswm 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2022 | 1,239 | 7,809 | 12,621 | 21,669 |
| Darperir yn ystod y flwyddyn | 19 | 635 | 1,100 | 1,754 |
| Darpariaethau nad ydynt yn ofynnol a adferwyd | - | - | (5,615) | (5,615) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (71) | - | (3,025) | (3,096) |
| Newidiadau yn y gyfradd ddisgowntio | - | (1,901) | (61) | (1,962) |
| Costau benthyca (dad-ddirwyn disgownt) | - | - | (303) | (303) |
| Colled/(elw) actiwaraidd | (244) | - | - | (244) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **943** | **6,543** | **4,717** | **12,203** |

| | Gwaddol pensiynau | Dadfeiliadau | Cyfreithiol | Cyfanswm 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2021 | 1,217 | 6,058 | 6,519 | 13,794 |
| Darperir yn ystod y flwyddyn | 15 | 663 | 5,800 | 6,478 |
| Darpariaethau nad ydynt yn ofynnol a adferwyd | - | - | (97) | (97) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (69) | (5) | (83) | (157) |
| Newidiadau yn y gyfradd ddisgowntio | - | 1,093 | 482 | 1,575 |
| Costau benthyca (dad-ddirwyn disgowntiau) | - | - | - | - |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Colled/(elw) actiwaraidd | 76 | - | - | 76 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **1,239** | **7,809** | **12,621** | **21,669** |

Yn 2022/23, disgowntiodd y CMA y darpariaethau dadfeiliadau a chyfreithiol i'w gwerthoedd gan ddefnyddio cyfraddau diweddaraf Trysorlys EF gan fod gwerth amser arian wedi arwain at wahaniaeth sylweddol.

Cyflwynir cyfraddau Trysorlys EF isod:

| Cyfraddau Trysorlys EF | | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|---|
| Chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) | Blwyddyn 1 | 7.4% | 4.0% |
| | Blwyddyn 2 | 0.6% | 2.6% |
| | I fytholbarhad | 2.0% | 2.0% |
| Cyfradd Ddisgowntio Enwol | Cyfnod byr (Blynyddoedd 1-5) | 3.27% | 0.47% |
| | Tymor canolig (Blynyddoedd 6-10) | 3.20% | 0.70% |
| | Hirdymor (Blynyddoedd 11-40) | 3.51% | 0.95% |
| | Hirdymor iawn (Blynyddoedd 41-100) | 3.00% | 0.66% |

Mae'r newid mewn cyfraddau disgowntio wedi arwain at ostyngiad mewn darpariaethau dadfeiliadau a chyfreithiol o £2.3 miliwn yn 2022/23 (2021/22: cynnydd o £1.6 miliwn).

Cafodd y ddarpariaeth pensiwn etifeddol ei disgowntio gan Adran Actiwari'r Llywodraeth gan ddefnyddio cyfraddau yr adroddwyd arnynt yn nodyn 14.2 (tudalen 119).

### *14.1 Dadansoddiad o amseru disgwyliedig llifau arian parod*

| | Pensiynau etifeddol £000 | Dadfeiliadau £000 | Cyfreithiol £000 | Cyfanswm 2022/23 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 71 | 125 | 2,184 | **2,380** |
| Yn hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | 284 | 440 | 2,533 | **3,257** |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 588 | 5,978 | - | **6,566** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **943** | **6,543** | **4,717** | **12,203** |

| | Pensiynau etifeddol £000 | Dadfeiliadau £000 | Cyfreithiol £000 | Cyfanswm 2021/22 £000 |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 69 | - | 9,978 | **10,047** |
| Yn hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | 276 | 8 | 2,643 | **2,927** |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 894 | 7,801 | - | **8,695** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **1,239** | **7,809** | **12,621** | **21,669** |

### *14.2 Pensiynau etifeddol*

Mae'r ddarpariaeth hon yn ymwneud â Chadeiryddion blaenorol a Rheolwyr Gyfarwyddwyr yr hen Swyddfa Masnachu Teg, un o gyrff rhagflaenol y CMA.

Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth ar 31 Mawrth 2023.

Roedd y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r rhwymedigaeth ar 31 Mawrth 2023 fel a ganlyn:

- Y gyfradd gros a ddefnyddir i ddisgowntio rhwymedigaethau'r cynllun oedd 4.15% y flwyddyn (2021/22: 1.55% y flwyddyn);
- Cyfradd gros y cynnydd ar gyfer pensiynau mewn pensiynau a delir a phensiynau gohiriedig oedd 2.40% y flwyddyn (2021/22: 2.90% y flwyddyn);
- Mewn termau enwol, mae'r tybiaethau hyn yn golygu chwyddiant prisiau o 2.40% y flwyddyn (2021/22: 2.90% y flwyddyn); a
- Mae'r dybiaeth marwoldeb ar ôl ymddeol wedi'i diweddaru gan ddefnyddio tybiaethau prisiad PCSPS 2020 gyda phrif ragamcanion o boblogaeth y DU yn seiliedig ar 2020 y Swyddfa Ystadegaeth Gwladol (2021/22: tybiaethau prisio Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil 2016 gyda phrif ragamcanion o boblogaeth y DU yn seiliedig ar 2018 y Swyddfa Ystadegau Gwladol), gan arwain at ddisgwyliadau oes is. Mae hyn wedi gostwng y rhwymedigaeth.

Symiau eraill a ddatgelir er mwyn esbonio'r newid mewn darpariaeth yw:

| | 2022/23 Cyfanswm £000 | 2021/22 Cyfanswm £000 |
|---|---|---|
| Cost llog | 19 | 15 |
| Colled / (elw) actiwaraidd | (244) | 76 |
| Cyfanswm | **(225)** | **91** |
| Buddiannau a dalwyd | (71) | (69) |
| **(Gostyngiad)/Cynnydd mewn darpariaeth** | **(296)** | **22** |

### *14.3 Dadfeiliadau*

Mae'r ddarpariaeth hon yn amcangyfrif o'r gwariant sy'n ofynnol yn y dyfodol i sicrhau bod gofod swyddfa'r CMA, a ddefnyddir ym mhob adeilad a feddiennir gennym, yn cael ei ddychwelyd i'w gyflwr gwreiddiol ar ddiwedd cyfnod y brydles.

Y tybiaethau allweddol a ddefnyddir wrth gyfrifo'r ddarpariaeth hon yw:

- Bydd y CMA yn meddiannu'r gofod swyddfa hyd at ddiwedd cytundeb pob prydles, a heb unrhyw fwriad presennol i ddefnyddio unrhyw opsiynau o gael toriad; a
- Caiff y gofod swyddfa ei gynnal a'i gadw'n dda ac mai dim ond mân atgyweiriadau y bydd eu hangen.

Ym mis Mawrth 2023, ailasesodd y CMA briodolrwydd y ddarpariaeth dadfeiliadau ar gyfer yr holl eiddo a feddiennir ganddo ac, o ganlyniad, mae wedi cynyddu'r ddarpariaeth hon £0.64 miliwn, cyn disgowntio, gan ddefnyddio asesiad o brisiad a gomisiynwyd i syrfëwr allanol. Mae'r gyfradd dadfeiliad yn berthnasol i eiddo o fewn cwmpas IFRS 16 Prydlesau. Felly, rydym wedi cynyddu'r ychwanegiadau ased hawl i ddefnyddio yn Nodyn 7 (tudalen 111) yr un swm.

Oherwydd ansicrwydd a pherthnasedd y ddarpariaeth hon, caiff y prisiad ar gyfer y ddarpariaeth hon ei adolygu'n rheolaidd.

### ***14.4 Cyfreithiol*** – Apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r CMA

Gall penderfyniadau rheoleiddiol gan y CMA fod yn agored i apêl. Gall apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r CMA arwain at rwymedigaethau tebygol ar gyfer costau cyfreithiol.

Yn yr achosion hyn, mae'r CMA yn cyfeirio at y meini prawf cydnabod ar gyfer darpariaeth costau cyfreithiol o fewn IAS 37 'Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn', ac mae'n nodi'r tair amod ym mharagraff 14 y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn cydnabod darpariaeth.

Er bod ansicrwydd cynhenid mewn apeliadau parhaus o hyd, mae'r CMA wedi penderfynu, yn seiliedig ar y cyngor cyfreithiol a gafwyd, ei bod yn debygol y ceir all-lif o adnoddau sy'n cynnig buddiannau economaidd.

Mae'r amcangyfrif o swm y rhwymedigaeth yn seiliedig ar asesiad o ba mor debygol ydyw y bydd y CMA yn wynebu rhwymedigaethau costau yn yr achosion ymgyfreitha amrywiol rydym yn rhan ohonynt a'n hasesiad o swm unrhyw rwymedigaeth costau o'r fath.

Caiff hyn ei lywio gan:

- Gwybodaeth sydd ar gael i'r CMA am gostau gwirioneddol y trydydd partïon; neu
- Lle nad yw'r cyfryw wybodaeth ar gael, amcangyfrif o lefel debygol costau'r partïon eraill yn seiliedig ar brofiadau'r CMA yn y gorffennol.

Mae hyn yn sail ddibynadwy ar gyfer amcangyfrif darpariaeth yn yr achosion hyn.

Oherwydd ansicrwydd mewn apeliadau parhaus eraill, o ran y tebygolrwydd y bydd CMA yn llwyddo, amseru gweithrediadau a swm y rhwymedigaeth costau posibl, mae'r CMA wedi cydnabod apeliadau eraill fel rhwymedigaethau wrth gefn yn nodyn 17 (tudalen 122) gan nad ydynt yn bodloni'r tri amod ar gyfer cydnabod darpariaeth.

## 15 Ymrwymiadau cyfalaf ac ymrwymiadau eraill

### 15.1 Ymrwymiadau cyfalaf

Ar ddiwedd 2022/23, roedd gan y CMA ymrwymiadau cyfalaf o £0.2 miliwn (2021/22: £0.1 miliwn) ar gyfer gwasanaethau sy'n gysylltiedig â Thechnoleg Gwybodaeth.

***Ymrwymiadau o dan brydlesau gweithredol***

Ers mabwysiadu IFRS 16 Prydlesau ar 1 Ebrill 2022, mae'r pum eiddo a feddiennir gan y CMA a arferai fod wedi'u nodi o dan ymrwymiadau prydlesau gweithredol yn 2021/22 bellach wedi'u dosbarthu fel asedau hawl i ddefnyddio. Mae'r taliadau prydles gofynnol ar gyfer y pum eiddo hyn yn y dyfodol bellach wedi'u cofnodi fel rhwymedigaethau prydles anghyfredol ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

Mae'r taliadau prydles yn y dyfodol ar ddau eiddo a feddiennir gan y CMA, sydd y tu hwnt i gwmpas IFTS 16, wedi'u cofnodi yn y tabl isod.

| | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---:|---:|
| Rhoddir cyfanswm y taliadau prydles gofynnol yn y dyfodol o dan brydlesau gweithredol yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol: | | |
| Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 42 | 5,203 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | - | 19,658 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | - | 29,102 |
| **Cyfanswm** | **42** | **53,963** |

## 16 *Trafodion â Phartïon Cysylltiedig*

Mae gan y CMA drafodion ag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog eraill. Gyda Chyllid a Thollau EF y gwnaethom ddelio fwyaf. Heblaw am y gydnabyddiaeth a geir yn adran Adroddiad Cydnabyddiaeth yr Adroddiad Atebolrwydd, nid oes unrhyw aelod Bwrdd, rheolwr allweddol na pharti perthnasol wedi llunio unrhyw drafodyn perthnasol â'r CMA yn ystod y flwyddyn. Ceir gwybodaeth am Gofrestr o Fuddiannau Aelodau'r Bwrdd yn Adroddiad y Cyfarwyddwr o dan yr adran Cofrestr o Fuddiannau.

Mae'r CMA yn is-osod rhan o'i swyddfa yn y Cabot i Ddyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser, wedi'i noddi gan yr Adran dros Fusnes a Masnach, (yr Adran dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol gynt). Mae'r CMA hefyd yn rhentu safleoedd ar brydles o fewn Canolfannau'r Llywodraeth gan adrannau eraill y llywodraeth, fel Cyllid a Thollau EF a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, fel rhan o'n presenoldeb cynyddol yn y pedair Gwlad.

### *17 Rhwymedigaethau wrth gefn*

Mae posibilrwydd y caiff buddiannau economaidd perthnasol eu trosglwyddo i drydydd partïon pan fydd y CMA yn rhan o broses ymgyfreitha weithredol. Mae a wnelo'r achosion cyfreithiol sydd wedi'u cynnwys fel rhwymedigaethau wrth gefn ag achosion cyfreithiol drwy'r llysoedd ac mae'r canlyniadau yn dibynnu ar ddyfarniadau a chanfyddiadau llysoedd.

Canlyniad dyfarniad Phenytoin yn y Goruchaf Lys ar 25 Mai 2022 yw mai'r man cychwyn yn y Tribiwnlys Apelau Cystadlu, yw bod costau yn dilyn y digwyddiad ond bod gan y Tribiwnlys Apelau Cystadlu ddisgresiwn, o dan ei reolau, i wneud gorchymyn sy'n briodol ym marn y Tribiwnlys, gan ystyried holl amgylchiadau'r achos. Dyma oedd y sefyllfa yn 2019 lle roedd y CMA yn atebol am dalu costau mewn achosion a gollwyd ganddo yn y Tribiwnlys Apelau Cystadlu.

Ni ellir datgelu rhagor o fanylion oherwydd, yn unol ag IAS 37 (paragraff 92), mae'r CMA o'r farn y gallai datgelu gwerthoedd ar gyfer unrhyw rwymedigaeth wrth gefn neu amlygiad ariannol posibl cyfunol sy'n gysylltiedig ag achos cyfreithiol fod yn niweidiol iawn i achosion ymgyfreitha sy'n mynd rhagddynt, oherwydd y nifer cyfyngedig o achosion ymgyfraitha parhaus y mae'r CMA yn rhan ohonynt.

### *18 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd*

Yn unol â gofynion IAS 10 ‘Digwyddiadau ar ôl Cyfnod Llunio'r Adroddiad’, caiff digwyddiadau eu hystyried hyd at y dyddiad y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w gyhoeddi, a ddehonglir fel yr un dyddiad ag y caiff y Cyfrifon eu hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Nid oes unrhyw ddigwyddiadau dilynol i'w nodi.

# Datganiad Ymddiriedolaeth

Caiff Datganiad Ymddiriedolaeth ar wahân ei lunio ar gyfer ffioedd a gesglir o dan Ddeddf Menter 2002 (diwygiwyd yn 2013) a dirwyon a gesglir o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998. Mae'r refeniw hwn yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol.

**Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu**

Mae Trysorlys EF wedi cyfarwyddo'r CMA i baratoi Datganiad Ymddiriedolaeth ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa cyfrif Datganiad Ymddiriedolaeth y CMA a'i refeniw, ei wariant a'i lifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mae Trysorlys EF wedi penodi Prif Weithredwr y CMA fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n bennaf cyfrifol am baratoi Datganiad Ymddiriedolaeth ac am ei drosglwyddo i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Wrth baratoi Datganiad Ymddiriedolaeth mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion y FReM ac, yn benodol, i:

- Cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- Llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol;
- Nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn y FReM, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon; a
- Paratoi Datganiad Ymddiriedolaeth fel busnes gweithredol.

Rwyf wedi cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o wybodaeth sy'n berthnasol i archwilio'r cyfrif hwn o'r Datganiad Ymddiriedolaeth, ac i sicrhau bod fy archwilwyr yn cael eu hysbysu. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth berthnasol nad yw fy archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Rwy'n cadarnhau bod y Datganiad Ymddiriedolaeth yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ar y cyfan ac fy mod yn cymryd cyfrifoldeb personol am Ddatganiad yr Ymddiriedolaeth a'r dyfarniadau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Llofnodwyd dros ac ar ran y CMA

Sarah Cardell
Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
6 Gorffennaf 2023

# ADRODDIAD Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I DŶ'R CYFFREDIN

## Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Datganiad Ymddiriedolaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: Datganiadau Ymddiriedolaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023;
- Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall a Datganiad o Lifau Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- y nodiadau cysylltiedig yn cynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn gyfraith gymwys ac yn safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Datganiad Ymddiriedolaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar 31 Mawrth 2023, ac o'i wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio a chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd yn ôl y gofynion hynny.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob achos perthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) (ISAs y DU), cyfraith gymwys a Nodyn Ymarfer 10 *Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a Chysondeb o Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2022)*. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn adran *Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol* fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â *Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019* y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol ar yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn ddigonol ac yn briodol i lunio sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd o sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennyf, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, arwain at gryn amheuaeth ynghylch gallu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.
Caiff y sail cyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

# Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys datganiadau ariannol y CMA, datganiadau ariannol datganiad ymddiriedolaeth y CMA na fy nhystysgrif ac adroddiadau fel archwilydd gyda hynny. Fy Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall.
Nid yw fy marn ar ddatganiadau ariannol datganiad ymddiriedolaeth y CMA yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf, ac eithrio i'r graddau y nodir yn benodol yn fy adroddiad, yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sy'n rhoi sicrwydd ar y wybodaeth honno.
Rwy'n gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson iawn â datganiadau ariannol datganiad ymddiriedolaeth y CMA neu fy ngwybodaeth a geir yn yr archwiliad, neu yr ymddengys fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol.
Os byddaf yn nodi anghysondebau sylweddol neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosol o'r fath, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennyf, os byddaf yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w nodi yn hyn o beth.

# Barn ar faterion eraill

Yn fy marn ni, paratowyd y rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff i'w harchwilio yn briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921.
Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921.
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Crynodeb o Berfformiad, yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol, yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a'r Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

# Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

O ystyried gwybodaeth a dealltwriaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a'r amgylchedd a sicrhaodd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a'r Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol.
Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y byddaf yn cyflwyno adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i;

- nad yw'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol neu na dderbyniwyd digon o ffurflenni ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelodd fy staff â nhw; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a'r Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol sy'n agored i gael eu harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu

- na wnaed datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth a nodwyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF neu nad yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a gaiff eu harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

# Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rhoi mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol sy'n berthnasol wrth baratoi'r datganiadau ariannol fel cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- rhoi gwybodaeth a disgwyliadau ychwanegol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol sydd ei angen arno ar gyfer ei archwiliad;
- rhoi mynediad heb gyfyngiadau i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i bersonau yn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y mae'r archwilydd yn nodi bod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod y rheolaeth fewnol angenrheidiol ar waith i baratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall;
- arsylwi ar y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, yn cynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn y FReM, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon; a
- paratoi Datganiad Ymddiriedolaeth fel busnes gweithredol.

# Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Rwy'n gyfrifol am archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921.

Rwy'n anelu at gael sicrwydd rhesymol o ran p'un a yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol ai peidio, boed o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

### Y graddau yr ystyriwyd y gall yr archwiliad ganfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn cynnwys twyll

Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll. Nodir y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll, isod.

## Nodi ac asesu risgiau posibl mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll, gwneuthum y canlynol:

- ystyried natur y sector, rheolaeth amgylcheddol a pherfformiad gweithredol yn cynnwys cynllunio polisïau cyfrifyddu Datganiad Ymddiriedolaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.
- cynnal ymholiadau â'r rheolwyr a'r sawl sy'n llywodraethu, yn cynnwys caffael ac adolygu dogfennaeth ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Datganiad Ymddiriedolaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar:
  - nodi a gwerthuso cyfreithiau a rheoliadau a chydymffurfio â nhw;
  - canfod risgiau o dwyll ac ymateb iddynt; ac
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn cynnwys rheolaethau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd mewn perthynas â chydymffurfiaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd â Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921 a Rheoli Arian Cyhoeddus;
- cynnal ymholiadau â'r rheolwyr, a'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch:
- a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
- a oedd ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll a amheuir neu dwyll honedig,
- trafod â'r tîm ymgysylltu a'r arbenigwyr mewnol perthnasol, ynghylch sut a lle y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli yn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer twyll a nodais y posibilrwydd mwyaf o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, rhannu cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth a thuedd mewn amcangyfrifon rheoli. Fel gyda phob archwiliad o dan ISAs (y DU), mae'n ofynnol i mi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru rheolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnad a fframweithiau cyfriethiol a rheolaethol eraill lle mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnad yn gweithredu. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar gyfrifon perthnasol a datgeliadau yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Datganiad Ymddiriedolaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnad. Ymysg y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn mae Deddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921, Deddf Rheoli Arian Cyhoeddus a Chyflenwi a Neilltuo Arian (Prif Amcangyfrifon) 2022, y Ddeddf Menter a Deddf Cystadleuaeth 1998.

### Ymateb archwilio i risg a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- Adolygais y datgeliadau datganiad ariannol a phrofi dogfennaeth ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau perthnasol y disgrifir uchod eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- cynhaliais ymholiadau â rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chynghorwyr cyfreithiol mewnol ynghylch materion cyfreithia a hawliadau posibl;
- adolygais gyfrifon cyfarfodydd y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd; ac adroddiadau archwilio mewnol;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau, profais briodolrwydd cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesais a yw'r safbwyntiau ar amcangyfrifon cyfrifyddu yn dangos tuedd bosibl; a gwerthusais resymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu hwnt i gwrs busnes arferol.

bûm hefyd yn cyfathrebu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau posibl o dwyll i bob aelod o'r tîm ymgysylltu yn cynnwys arbenigeddau mewnol gan gadw'n effro i unrhyw ddangosyddion o dwyll neu o achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Ceir disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd arall

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.
Rwy'n cyfathrebu â'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg pethau eraill, cwmpas ac amseriad bwriadedig yr archwiliad a chanfyddiadau sylweddol o'r archwiliad, yn cynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn eu nodi yn ystod fy archwiliad.

**Gareth Davies**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

**Dyddiad 10 Gorffennaf 2023**

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Datganiad o Refeniw, Incwm Arall a Gwariant ar gyfer y flwyddyn a daeth i ben 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Refeniw** | | | |
| **Incwm o ddirwyon a chosbau** | | | |
| Cosbau a osodwyd o dan Ddeddf Cwmnïau 1998 | | 43,504 | 13,579 |
| Llog a enillwyd ar gosbau a osodwyd o dan Ddeddf Cwmnïau 1998 | | 84 | 150 |
| **Cyfanswm yr incwm o ddirwyon a chosbau** | | **43,588** | **13,729** |
| **Ffioedd uno** | | | |
| Ffioedd a gafwyd o dan Ddeddf Menter 2002 | | 4,520 | 4,880 |
| Gorchmynion Gorfodi cychwynnol o dan Ddeddf Menter 2002[35] | | - | 57,045 |
| **Cyfanswm y ffioedd uno** | | **4,520** | **61,925** |
| **Cyfanswm y refeniw** | | **48,108** | **75,654** |
| **Gwariant** | | | |
| CA98 Gwrthbwyso cosbau ar gyfer costau ymgyfreitha[36] | | (4,682) | (2,621) |
| Dyledion a gafodd eu dileu neu y mae eu gwerth wedi lleihau fel arall | 2.2 | (1,930) | (17,702) |
| **Cyfanswm y gwariant [37]** | | **(6,612)** | **(20,323)** |

[35] Mae'r gostyngiad sylweddol mewn ffioedd uno a gafwyd yn 2022/23 o gymharu â 2021/22 i'w briodoli i'r ddirwy o £50.5m a osodwyd ar Facebook (Meta bellach) yn 23/22 am dorri gorchymyn gorfodi cychwynnol a osodwyd gan y CMA.

[36] Mae'r CMA wedi cael cymeradwyaeth i wrthbwyso costau ymgyfreitha yn llawn yn erbyn incwm cosb Deddf Cystadleuaeth 1998.

[37] Ffi archwilio dybiannol y CMA ar gyfer y Datganiad Ymddiriedolaeth yw £13,000 (2021/22: £13,000). Mae'r ffi hon wedi'i dagelu yn Nodyn 4 (tudalen 101) yn y Datganiadau Ariannol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol** | **5** | **41,496** | **55,331** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 132 i 136 yn rhan o'r Datganiad Ymddiriedolaeth hwn.

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | |
| Symiau derbyniadwy | 2.1 | 1,470 | 1,722 |
| **Cyfanswm yr asedau nad ydynt yn gyfredol** | | **1,470** | **1,722** |
| | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau derbyniadwy | 2.2 | 41,332 | 4,698 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 3 | 4,766 | 100,921 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | **46,098** | **105,619** |
| | | | |
| **Cyfanswm asedau** | | **47,568** | **107,341** |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau taladwy | 4 | - | 348 |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **-** | **348** |
| | | | |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau** | | **47,568** | **106,993** |
| | | | |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **47,568** | **106,993** |
| | | | |
| Cynrychiolwyd gan: | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Balans ar gyfrif y Gronfa Gyfunol** | **5** | **47,568** | **106,993** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 132 i 136 yn rhan o'r Datganiad Ymddiriedolaeth hwn.

Sarah Cardell
Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
6 Gorffennaf 2023

## Datganiad o Lifau Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu | 3 | 4,766 | 100,921 |
| Symiau a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | 5 | (100,921) | (59,288) |
| **(Gostyngiad)/cynnydd mewn arian parod yn ystod y flwyddyn** | | **(96,155)** | **41,633** |

## Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian Parod

| A: Cysoni'r Llif Arian Parod i symudiadau yn y Cronfeydd Net | Nodyn | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol | | 41,496 | 55,331 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn asedau | | (36,382) | 45,667 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn rhwymedigaethau | | (348) | (77) |
| **Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **4,766** | **100,921** |

| B: Dadansoddiad o Newidiadau mewn Cronfeydd Net | Nodyn | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|---|

| | | £000 | £000 |
|---|---|---|---|
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn arian parod yn ystod y flwyddyn | 3 | (96,155) | 41,633 |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill (arian parod net yn y banc) | | 100,921 | 59,288 |
| **Cronfeydd net ar 31 Mawrth (balans wrth gau)** | | **4,766** | **100,921** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 132 i 136 yn rhan o'r Datganiad Ymddiriedolaeth hwn.

## Nodiadau i'r Datganiad Ymddiriedolaeth

### 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Mae'r CMA yn gweithredu fel asiant sy'n gyfrifol am gasglu ffioedd unol a chosbau Deddf Cystadleuaeth 1998 (CA98) ar ran y Gronfa Gyfunol. Mae'r datganiadau ariannol hyn yn rhoi cyfrif o'r broses o gasglu refeniw, sy'n daladwy o dan gyfraith neu gonfensiwn i'r Gronfa Gyfunol, lle mae'r CMA sy'n ymgymryd â'r broses gasglu yn gweithredu fel asiant yn hytrach na phrif arferydd. Nodir y gofyniad deddfwriaethol yn Neddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2022/23 a'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF. Mae'r polisïau cyfrifyddu a geir yn y Llawlyfr yn cymhwyso'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd neu fel y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bo'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae’r CMA yn dewis polisi cyfrifyddu y bernir mai hwnnw yw'r un mwyaf priodol i’r amgylchiadau penodol at ddiben rhoi darlun gwir a theg.

Disgrifir y polisïau a fabwysiadwyd gan y CMA isod. Maent wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn ar sail busnes gweithredol.

#### *1.1 Confensiwn cyfrifyddu*

Mae'r Datganiad Ymddiriedolaeth wedi'i baratoi ar sail croniadau yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol.

#### *1.2 Safbwyntiau ac amcangyfrifon sylweddo*

Wrth gyfrifo incwm cronedig ar gyfer gwasanaethau gorfodi a gwasanaethau eraill, caiff barn ac amcangyfrifon eu llunio ar statws gweithgareddau sylfaenol. Mae darpariaeth ar gyfer symiau anadenilladwy a ragwelir wedi'i chynnwys. Yn ogystal â hyn, wrth gyfrifo'r ‘golled credyd a ddisgwyliwyd’ o dan IFRS 9 “Offerynnau Ariannol”, caiff barn a thybiaethau eu llunio ar amodau economaidd yn y

dyfodol a'r effaith y gall yr amodau hyn eu cael ar risg credyd. Yn seiliedig ar ein canfyddiadau, rydym yn ystyried bod lefel y risg credyd yn isel ac felly rydym yn defnyddio'r dull syml wrth gyfrifo'r golled credyd a ddisgwylir. Yna caiff darpariaeth ar gyfer lwfans lleihad mewn gwerth ei chydnabod. Ceir rhagor o wybodaeth yn nodyn 1.4 Symiau derbyniadwy. Eir i'r afael â barn ac amcangyfrifon eraill sydd â risg sylweddol o achosi unrhyw addasiad perthnasol i werth cario asedau a rhwymedigaethau o fewn y flwyddyn ariannol nesaf yn y Datganiad Ymddiriedolaeth.

### *1.3 Cydnabod refeniw*

Caiff ffioedd a chosbau eu mesur yn unol ag IFRS 15 'Refeniw o Gontractau â Chwsmeriaid'. Caiff refeniw ei gydnabod unwaith y bydd y CMA wedi ymchwilio i'r uniad arfaethedig ac wedi rhoi ei benderfyniad; pan fydd cosb wedi'i gosod, llythyr penderfyniad wedi'i anfon at yr endid dan sylw, a phan fydd yr endid wedi cael 2 fis calendr i apelio yn erbyn y penderfyniad os bydd yn dymuno. Yn gryno o dan IFRS 15, caiff y refeniw ei gydnabod pan fydd llythyr penderfyniad wedi'i anfon a phan fydd y terfyn amser i endid apelio yn erbyn y penderfyniad wedi mynd heibio.

Mae'r dull hwn yn gyson ag addasiadau FReM mewn perthynas ag IFRS 15 ar gyfer gwerthuso faint o refeniw a gaiff ei gydnabod a phryd y caiff ei gydnabod o dan FReM 11.3.9.

Caiff ffioedd a chosbau eu mesur ar werth teg symiau a dderbynnir neu sy'n dderbyniadwy, heb gynnwys unrhyw ad-daliadau.

### *1.4 Symiau derbyniadwy*

Mae IFRS 9 'Offerynnau ariannol' yn cynnwys gofynion ar gyfer dosbarthu, cydnabod a mesur, lleihad mewn gwerth a dadgydnabod offerynnau ariannol.

O dan IFRS 9, gwneir lwfansau ar gyfer colledion credyd ar sail colled credyd a ddisgwylir.

Yn unol â dull syml IFRS 9 mewn perthynas â lleihad mewn gwerth, rydym wedi cydnabod lwfans colled ar swm sy'n cyfateb i golled credyd a ddisgwylir gydol oes o'r adeg y caiff y symiau derbyniadwy eu cydnabod i ddechrau. Mae IFRS 9 yn galluogi dull ymarferol a elwir yn matrics darpariaeth i gael ei ddefnyddio i fesur y lwfans lleihad mewn gwerth hwn. Amcangyfrifwyd y rhain drwy gyfeirio at brofiad diofyn o'r gorffennol, wedi'i addasu ar gyfer effaith ddisgwyliedig amodau economaidd presennol ac yn y dyfodol.

Caiff symiau derbyniadwy eu hadolygu'n rheolaidd ar gyfer yr holl Gosbau CA98 sy'n weddill er mwyn pennu i ba raddau y gellir eu hadennill ac asesu unrhyw lwfans ar gyfer symiau na ellir eu casglu a fesurir yn unol ag IFRS 9. Nod y lwfans lleihad mewn gwerth yw lleihau'r swm sy'n dderbyniadwy yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, ond mae hefyd yn lleihau'r balans ar gyfrif y Gronfa Gyfunol. Caiff y broses o greu'r lwfans lleihad mewn gwerth hwn, ac unrhyw symudiad dilynol, neu unrhyw symiau a gaiff eu dileu nas darparwyd ar eu cyfer yn flaenorol, eu cynnwys yn y Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall.

Os bydd parti wedi cael cynnig yr opsiwn i dalu ei gosb mewn rhandaliadau, a'i fod wedyn yn methu taliadau am unrhyw reswm, er enghraifft os bydd yn mynd i ddwylo gweinyddwyr, cymerir pob cam i olrhain y ddyled. Fodd bynnag, fel arfer, caiff gwerth y balans sy'n ddyledus ei leihau'n llawn nes bydd y broses adennill wedi'i chwblhau, pan gaiff unrhyw lwfans nas defnyddiwyd ei ryddhau. Mae hyn hefyd yn

gymwys pan gaiff cosb ei gosod ar endid sydd wedi mynd i ddwylo gweinyddwyr neu sy'n gwneud hynny cyn y gellir talu'r gosb.

### *1.5 Treth ar Werth (TAW)*

Mae ffioedd uno a chosbau CA98 y tu allan i gwmpas TAW.

## 2 Symiau derbyniadwy

### 2.1 Symiau derbyniadwy nad ydynt yn gyfredol

| | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | | |
| Cosbau Deddf Cystadleuaeth 1998 | 1,470 | 1,722 |
| **Cyfanswm** | **1,470** | **1,722** |

### 2.2 Symiau derbyniadwy cyfredol

| | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Cosbau Deddf Cystadleuaeth 1998 | 42,496 | 3,846 |
| Llai lwfans lleihad mewn gwerth | (2,402) | (472) |
| **Cosbau Deddf Cystadleuaeth Net 1998** | **40,094** | **3,374** |
| Symiau derbyniadwy ffioedd uno | 680 | 320 |
| Llai lwfans lleihad mewn gwerth | (2) | (2) |
| **Ffioedd Uno Net** | **678** | **318** |
| Swm sy'n ddyledus o Brif Gyfrif y CMA | - | 86 |
| Incwm a gronnwyd | 560 | 920 |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **41,332** | **4,698** |

Mae'r cynnydd mewn symiau derbyniadwy yn 2022/23 yn bennaf oherwydd penderfyniad a wnaed gan y CMA ar 23 Mawrth 2023 a ganfu bod deg cyflenwr gwasanaethau dymchwel a gwaredu asbestos wedi torri cyfraith cystadleuaeth drwy gymryd rhan mewn proses rigio ceisiadau. Yn unol â'n polisi cyfrifyddu, rydym wedi cydnabod £41.3 miliwn o ddirwyon CA98 sy'n ddyledus gan wyth cyflenwr. Mae dau gyflenwr, a gafodd gyfanswm dirwy o £18.0 miliwn, wedi apelio yn erbyn penderfyniad y CMA ac felly nid yw hwn wedi cael ei gydnabod fel swm derbyniadwy ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

Yn unol ag IFRS 9 a FReM 2022/23, roedd asesiad y CMA o golledion credyd ar sail colled credyd a ddisgwylir a gymhwyswyd yn erbyn symiau derbyniadwy cyfredol a rhai nad ydynt yn gyfredol yn £1.5

miliwn gan ddefnyddio cyfradd o 2.78%. Amcangyfrifir y gyfradd golled hon gan ddefnyddio data hanesyddol ar y symiau derbyniadwy a gaiff eu dileu neu y caiff eu gwerth ei leihau'n llawn, er enghraifft, am fod endid wedi mynd i ddwylo gweinyddwyr neu wedi ddiddymu, fel cyfan o gyfanswm y swm net sy'n dderbyniadwy ar ddyddiad llunio'r adroddiad.

Er y gwneir pob ymdrech i adennill dyledion, oherwydd natur ansicr diddymiadau endidau, gwneid lwfans colled ar gyfer swm llawn y ddyled ar yr adeg y bydd endid yn mynd i ddwylo gweinyddwyr.

### 3 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

| | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|
| Balans a ddelir yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar 1 Ebrill | 100,921 | 59,288 |
| Newid net mewn balansau arian parod | (96,155) | 41,633 |
| **Balans a ddelir yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar 31 Mawrth** | **4,766** | **100,921** |

Mae'r gostyngiad mewn balans arian parod o ganlyniad i ostyngiad yn y broses o gasglu cosbau gwerth uchel a godwyd yn 2022/23 o gymharu â 2021/22.

Bydd y CMA yn trosglwyddo'r balans wrth gau hwn i Drysorlys EF ym mlwyddyn ariannol 2023/24. Gweler nodyn 5 sy'n adlewyrchu'r balans cychwynnol a oedd yn cael ei ddal yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar 1 Ebrill 2022 a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol yn 2022/23.

## 4 Symiau taladwy

| | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|
| CA98 Gwrthbwyso cosbau ar gyfer costau ymgyfreitha sy'n daladwy | - | 348 |
| **Cyfanswm** | **-** | **348** |

## 5 Balans ar gyfrif y Gronfa Gyfunol

| | 2022/23<br>£000 | 2021/22<br>£000 |
|---|---|---|
| Balans ar gyfrif y Gronfa Gyfunol ar 1 Ebrill | 106,993 | 110,950 |
| Refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol | 41,496 | 55,331 |
| Llai y swm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | (100,921) | (59,288) |
| **Balans ar gyfrif y Gronfa Gyfunol ar 31 Mawrth** | **47,568** | **106,993** |

## 6 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 ‘Digwyddiadau ar ôl Cyfnod Llunio'r Adroddiad’, caiff digwyddiadau eu hystyried hyd at y dyddiad y mae'r Datganiad Ariannol wedi'i awdurdodi i'w gyhoeddi, a ddehonglir fel yr un dyddiad ag y caiff ei ardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Nid oes unrhyw ddigwyddiadau dilynol i'w nodi.

E02932353

978-1-5286-4267-5